Gwasanaeth Erlyn Y Goron
Cyflawni Cyfiawnder

CPS

# Adroddiad Ar Drais Yn Erbyn Menywod A Merched

2018–19

YN CYNNWYS DATA AM DDYNION A BECHGYN HEFYD

# Cynnwys

**Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus** **1–2**

**Adroddiad ar droseddau Trais yn erbyn Menywod a Merched**

Is-set Trais yn erbyn Menywod a Merched 4
Cam-drin domestig 9
Stelcio neu aflonyddu 12
Trais rhywiol 13
Troseddau rhywiol (ac eithrio trais rhywiol) 18
Yr hyn a elwir yn gam-drin 'ar sail anrhydedd', priodas dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod 20
Cam-drin plant 23
Caethwasiaeth fodern a masnachu pobl 26
Puteindra 29
Troseddau pornograffi, anweddustra a chyfathrebu 30

**Adran Ddata yr Adroddiad ar Drais yn erbyn Menywod a Merched** **A1–A51**

Mae adran ddata yr Adroddiad ar Drais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG) yn darparu dadansoddiad data manwl ar yr holl elfennau VAWG.

**B58-B63**

**Atodiad 1 Erlyniadau yn ôl Ardal**

Mae Atodiad 1 yn darparu data manwl yn ôl Ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) a'r heddlu ar gam-drin domestig, trais rhywiol a throseddau rhywiol.

**B9–B12**

**Atodiad 2 Data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder**

Mae Atodiad 2 yn darparu data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar stelcio, aflonyddu, gorchmynion atal a'r Ystadegau Gwladol ar Drais Rhywiol i roi cyd-destun i ddata'r CPS.

**B13–B22**

**Geirfa**

Mae'r Eirfa'n darparu diffiniadau'r acronymau a'r termau sy'n cael eu defnyddio yn yr adroddiad.

# Rhagair



Ni ellir gor-bwysleisio effaith trais yn erbyn menywod a merched (VAWG) ar ddioddefwyr, eu teuluoedd a'u cymunedau, ac mae dwyn troseddwyr i gyfiawnder yn hanfodol er mwyn adeiladu cymdeithas fwy cyfartal. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar droseddau gan ddynion yn erbyn merched yn bennaf. Fodd bynnag, maen nhw'n cael eu cyflawni yn erbyn dynion a bechgyn hefyd ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau cyfiawnder i bob dioddefwr – waeth beth fo'u rhyw.

Er mwyn mynd i'r afael â throseddau mor gymhleth a difrifol, rhaid cael dull gweithredu cynhwysfawr a chydlynol. Dyna pam ein bod wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda phartneriaid ar draws y system cyfiawnder troseddol a thu hwnt i fynd i'r afael â'r math hwn o droseddu. Mae rôl y CPS – erlyn y person cywir am y drosedd gywir a dwyn troseddwyr i gyfiawnder pan fo'n bosib – yn gwbl hanfodol, ond dim ond un rhan o ateb ystyrlon yw'r rôl hon.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos hyd a lled y gweithgareddau ar draws y gwahanol elfennau VAWG a sut rydym yn parhau i arloesi yn erbyn cefndir mwyfwy heriol. Er enghraifft, roedd yr euogfarn gyntaf yn y DU ar gyfer anffurfio organau cenhedlu benywod a chyflwyno fframwaith arferion gorau traws-system ar gyfer cam-drin domestig yn gerrig milltir pwysig.

Ond o ran trais rhywiol a throseddau rhywiol difrifol yn benodol, mae'r bwlch cynyddol rhwng nifer y troseddau sy'n cael eu cofnodi a nifer yr achosion sy'n mynd i'r llys yn destun pryder i ni gyd. Er nad yw'n nodi unrhyw newid mewn polisi, na diffyg ymrwymiad gan y CPS i erlyn, mae deall pam mae hyn yn digwydd a dod o hyd i ffordd ymlaen yn angenrheidiol, a rhaid ei wneud ar frys. Felly, rydym yn gweithio'n agos gydag adrannau eraill y llywodraeth a rhanddeiliaid i gefnogi adolygiad trawslywodraethol eang o sut mae trais rhywiol a throseddau rhywiol yn cael eu trin. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym wedi gofyn i arolygiaeth annibynnol y CPS adolygu ein gwaith i'n helpu i ddeall y tueddiad hwn ac unrhyw gamau mae angen i ni eu cymryd.

Dyma'r adroddiad VAWG blynyddol cyntaf ers i mi ddod yn Gyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus fis Tachwedd 2018. Mae un o'r newidiadau rwyf yn eu gwneud yn anelu at gynyddu tryloywder ac atebolrwydd o ran perfformiad erlyniadau'r CPS. Yn y dyfodol, bydd data ar VAWG yn cael eu cyhoeddi bob chwarter, gan ddarparu rhagor o gyfleoedd rheolaidd am drafodaethau â rhanddeiliaid sy'n sail ar y dystiolaeth fwyaf cyfredol a'n helpu ni gyd i fod yn hyblyg wrth ymateb i dueddiadau sy'n newid, i heriau newydd ac i dystiolaeth newydd.

I adlewyrchu ein hymrwymiad, mae'r CPS wedi penodi Prif Erlynwyr y Goron i arwain yr holl elfennau VAWG. Bydd yr arbenigwyr cyfreithiol hyn, ynghyd â thimau polisi a gweithrediadau ehangach, yn gyfrifol am wella perfformiad yn eu meysydd priodol.



**Max Hill CF**
**Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus**

# Prif Erlynwyr y Goron

## Cam-drin domestig a stelcio – Kate Brown

"Mae cam-drin domestig a stelcio'n faterion pwysig iawn i'r CPS ac mae'n benderfynol o ddwyn troseddwyr i gyfiawnder, a rhoi'r amddiffyniad gorau posibl rhag ad-droseddu i ddioddefwyr. Yn 2018-19, fe wnaethom arwain yr ymdrechion i weithredu fframwaith arferion gorau traws-system ar gyfer cam-drin domestig. Ar hyn o bryd, rydym yn canolbwyntio ar weithio gyda phartneriaid i ddeddfu'r Bil Cam-drin Domestig, gan sicrhau rhagor o amddiffyniad i ddioddefwyr.

"Mae'r rhan fwyaf o achosion stelcio – 79.1% yn 2018-19 – yn gysylltiedig â cham-drin domestig. Mae adnewyddu'r protocol ar y cyd i'r heddlu ar CPS ar stelcio wedi rhoi'r adnoddau i swyddogion ac erlynwyr i adnabod troseddu'n well, ac rydym yn parhau i ganolbwyntio ar weithio mor gydweithredol â phosibl ar draws y system cyfiawnder troseddol.

## Trais Rhywiol – Siobhan Blake

"Mae trais rhywiol a throseddau rhywiol difrifol yn gallu cael effaith ddinistriol, ac rydym wedi ymrwymo i gyhuddo ac erlyn yr achosion hyn yn gryf pan fo'n gywir gwneud hynny. Mae cyfreithwyr arbenigol yn delio â phob achos. Maen nhw wedi cael hyfforddiant ar ddeall profiadau dioddefwyr ac effaith trais rhywiol, yn ogystal â chydsyniad, mythau a stereoteipiau. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi cynnwys hyfforddiant pellach i erlynwyr ar effaith cyflyrau seicolegol – gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â thrawma – a chroesholi achwynwyr am eu hanes rhywiol."

"Mae'r bwlch cynyddol rhwng nifer yr achosion o drais rhywiol sy'n cael eu cofnodi a nifer yr achosion sy'n mynd i'r llys yn destun pryder i bob un ohonom yn y system cyfiawnder troseddol. Mae'r CPS yn gweithio'n agos gydag adrannau eraill y llywodraeth a rhanddeiliaid fel rhan o adolygiad trawslywodraethol eang o sut mae trais rhywiol a throseddau rhywiol yn cael eu trin, er mwyn ceisio cael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa ar hyn o bryd a'r ffordd orau o ymateb."

## Yr hyn sy'n cael ei alw'n gam-drin 'ar sail anrhydedd', anffurfio organau cenhedlu benywod a phriodas dan orfod – Jaswant Narwal

"Rwy'n falch bod yr euogfarn gyntaf yn y DU ar gyfer anffurfio organau cenhedlu benywod wedi digwydd yn 2019 a bod y CPS wedi ymrwymo i ddwyn i gyfiawnder y rheini sy'n gyfrifol am droseddau anffurfio organau cenhedlu benywod, priodas dan orfod a'r hyn sy'n cael ei alw'n gam-drin 'ar sail anrhydedd'. Eleni, rydym wedi sefydlu grŵp rhanddeiliaid ar y cyd rhwng yr heddlu a'r CPS ac wedi diwygio ein canllawiau ar fynd i'r afael â'r arferion 'smwddio bronnau', a phriodas dan orfod lle mae gan y dioddefwr ddiffyg gallu.

"Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn diweddaru'r canllawiau i erlynwyr ar fynd i'r afael â heriau cyffredin eraill – gan gynnwys y galw am dystiolaeth arbenigol a materion awdurdodaethol rhyngwladol – gan ymgorffori'r hyn rydym wedi'i ddysgu yn sgil achosion diweddar. Bydd y sgyrsiau parhaus â chymunedau, elusennau a'r sector iechyd yn ein helpu i ddeall mwy am yr ofn a'r ffyddlondeb sy'n gallu golygu bod dioddefwyr yn gyndyn o roi gwybod am droseddau neu gefnogi erlyniadau, a dod o hyd i ffyrdd o oresgyn hyn."

## Cam-drin plant yn rhywiol – Ed Beltrami

"Mae erlynwyr arbenigol yn gweithio ar bob achos o gam-drin plant yn rhywiol, gan adlewyrchu'r ffaith bod y rhain ymysg yr achosion mwyaf heriol a chymhleth yr ydym yn delio â nhw. Rydym yn gweithio ar draws y Llywodraeth i ddarparu ymateb system gyfan – gan gynnwys deall sut mae technolegau newydd yn rhoi cychwyn i fathau newydd o droseddau.

"Rydym hefyd wedi ymrwymo i gefnogi unigolion sy'n goroesi achosion o gam-drin plant yn rhywiol. Rydym wedi sefydlu fforwm rhanddeiliaid sy'n cynnwys elusennau cenedlaethol, academyddion a grwpiau goroeswyr i roi cyngor ar dueddiadau sy'n dod i'r amlwg ac i ddylanwadu ar ein polisïau a'n prosesau. Byddwn yn parhau i arloesi. Er enghraifft, yn Llundain rydym yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu "The Lighthouse" – y cyfleuster cyntaf erioed i ddioddefwyr ifanc cam-drin rhywiol allu cael gafael ar gymorth meddygol, ymchwiliol ac emosiynol dan yr unto."

## Caethwasiaeth fodern – Lynette Woodrow

"Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd hynod lechwraidd – mae'n gudd yn aml ac yn digwydd ochr yn ochr ag amrywiaeth eang o gam-drin a throseddau eraill, ac mae'n cynnwys sawl dioddefwr, troseddwr a lleoliad. Mae dull gweithredu amlasiantaeth yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â'r math hwn o droseddu ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r CPS wedi gweithio'n agos gyda thimau gorfodi'r gyfraith ac adrannau eraill y Llywodraeth i gefnogi tasglu caethwasiaeth fodern y Prif Weinidog.

"Mae erlynwyr wedi cael hyfforddiant arbenigol ar achosion caethwasiaeth fodern, ac mae'r canllawiau wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu'r dirwedd a'r gyfraith achosion sy'n newid yn y maes hwn. Wrth i'r DU baratoi ar gyfer gadael yr UE, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gynnal a gwella perthnasoedd rhyngwladol i wneud yn siŵr bod troseddu trawsffiniol yn dal i wynebu cyfiawnder."

# Adroddiad ar droseddau Trais yn erbyn Menywod a Merched

## Cyflwyniad

Mae Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG) yn gallu cael effaith ddinistriol ar ddioddefwyr, eu teuluoedd a chymunedau ehangach. Nid oes lle i'r troseddau hyn yn ein cymdeithas. Mae erlyn troseddau VAWG yn fater pwysig iawn i Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) ac mae'n parhaus i ddwyn troseddwyr i gyfiawnder pan fo'n bosibl.

Mae adroddiad y CPS ar Drais yn erbyn Menywod a Merched ar gyfer 2018-19 yn ddadansoddiad o'r prif faterion o ran perfformiad erlyniadau ym mhob elfen VAWG – cam-drin domestig, stelcio, aflonyddu, trais rhywiol[1], troseddau rhywiol, priodas dan orfod, yr hyn sy'n cael ei alw'n gam-drin 'ar sail anrhydedd', anffurfio organau cenhedlu benywod, cam-drin plant yn rhywiol, masnachu pobl er mwyn camfanteisio arnynt yn rhywiol, puteindra a phornograffi.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar droseddau sydd wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd dan y pennawd 'VAWG' gan eu bod yn cael eu cyflawni'n bennaf, ond nid yn unig, gan ddynion yn erbyn menywod a merched a bod dioddefwyr benywaidd yn cael cynrychiolaeth anghyfartal o fewn patrwm o orfodaeth, pŵer a/neu reolaeth. Serch hynny, gall y troseddau hyn gael eu targedu yn erbyn dynion a bechgyn hefyd. Mae ein datganiad cyhoeddus ar ein dull a'n cymorth ar gyfer dioddefwyr gwrywaidd yn egluro ein hymrwymiad i sicrhau cyfiawnder i bob dioddefwr a throseddwr y mae troseddau 'VAWG' yn effeithio arnynt, er mwyn i'n polisïau VAWG gael eu cymhwyso'n deg i bob un sy'n dioddef neu'n cyflawni'r troseddau hyn. Mae'r adroddiad yn cynnwys yr holl ddata ar bawb sydd dan amheuaeth a phob diffynnydd ac achwynydd, waeth beth fo'i ryw.[2]

Pwrpas yr adroddiad hwn yw galluogi'r CPS i fod yn dryloyw ynglŷn â'r data rydym yn eu dal a galluogi ein rhanddeiliaid i'n dal ni i gyfrif. Mae pob adran yn yr adroddiad yn darparu data allweddol, sylwebaeth ac astudiaethau achos, ynghyd ag amlinell o weithgareddau'r CPS dros y flwyddyn ddiwethaf a'r camau rydym yn bwriadu eu cymryd yn y flwyddyn nesaf er mwyn gwella'n barhaus. Mae adran data'r adroddiad yn darparu rhagor o ddata manwl yn ôl pob elfen VAWG. Mae'r eirfa yn darparu diffiniad llawnach o'r holl elfennau VAWG a therminoleg y CPS.

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar ddata o System Rheoli Achosion y CPS, System Rheoli Tystion y CPS a'i System Gwybodaeth Reoli gysylltiedig. Nid yw'r data'n gyfystyr ag ystadegau swyddogol fel

---

[1] Mae fflag 'trais rhywiol' yn cael ei rhoi ar ffeiliau'r CPS o ddechrau achos yn dilyn honiad o drais rhywiol yn y lle cyntaf. Bydd y fflag hon yn aros yn ei lle hyd yn oed os cymerir penderfyniad i gyhuddo trosedd ar wahân i drais rhywiol neu lle mae cyhuddiad o drais rhywiol yn cael ei ddiwygio'n nes ymlaen, a hynny i wneud yn siŵr bod egwyddorion y polisi trais rhywiol a throseddau rhywiol yn cael eu dilyn.

[2] Mae'r adroddiad hwn yn darparu canlyniadau yn ôl diffynyddion ac nid yw'n gallu darparu gwybodaeth ar wahân am ganlyniadau'n seiliedig ar ddioddefwyr neu droseddau. At y diben hwnnw, ni ellir darparu data ar wahân ar gyfer canlyniad achosion a wynebir gan ddioddefwyr benywaidd a gwrywaidd; ni ellir chwaith cydberthyn rhyw'r diffynnydd i ryw'r dioddefwr.

ddiffinnir yn Neddf y Gwasanaethau Ystadegau a Chofrestru 2007[3] a dylid eu darllen yn unol â'n hesboniad o'r data.

**Sylwer: Mae rhagor o derminoleg manwl, amlinell o broses yr heddlu/y CPS ac esboniad o'r data, unrhyw gyfrifiadau neu dermau a ddefnyddir wedi'u hamlinellu yn adran data'r adroddiad hwn. Mae'r data sy'n sail i'r adroddiad hwn ar gael ar wefan y CPS yn yr adran Cyhoeddiadau.[4]**
**Hwn fydd yr Adroddiad VAWG olaf o'i fath. Yn 2019-20, bydd y CPS yn dechrau adrodd data bob chwarter, gan ddarparu'r data rheoli mwyaf cyfredol yn gyflymach. Caiff adroddiad blynyddol byr ei ddarparu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hefyd.**

## Cyd-destun strategol

Fis Mawrth 2019, cafodd strategaeth trawslywodraethol ar ei newydd wedd – Ending Violence against Women and Girls 2016–2020 – ei lansio, gan amlinellu camau gweithredu wedi'u diweddaru y mae'r Llywodraeth yn bwrw ymlaen â nhw. Mae gan y CPS rôl bwysig mewn amrywiaeth o fentrau newydd y system cyfiawnder troseddol, wedi'u goruchwylio gan Grŵp VAWG Rhwng Gweinidogion. Mae prif feysydd gweithgareddau'r CPS sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cynnwys:

- y Fframwaith Arferion Gorau ar gyfer Cam-drin Domestig, sy'n deillio o brosiect ar y cyd rhwng y CPS, Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi;
- cynllun peilot ar gyfer croesholiad wedi'i recordio ymlaen llaw dan adran 28, sy'n darparu mesurau arbennig i helpu tystion agored i niwed a thystion sy'n cael eu bygwth i roi'r dystiolaeth orau yn y llys ac i helpu i leddfu rywfaint o'r straen sy'n gysylltiedig â rhoi tystiolaeth;
- cyfrannu at adolygiad y Llywodraeth o ymateb y system cyfiawnder troseddol i drais rhywiol a throseddau rhywiol difrifol;
- y Cynllun Gwella Datgelu Cenedlaethol, sy'n cynnwys ymrwymiad ar y cyd gan y CPS a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu i wneud newidiadau cynaliadwy i'r ffordd yr ydym yn arfer ein dyletswyddau datgelu;
- canllawiau newydd y CPS ar stelcio, aflonyddu a sbecian dan sgerti ('upskirting') – sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Voyeuriaeth a ddaeth i rym fis Chwefror 2019; ac
- yn dilyn arweiniad y CPS, mae'r strategaeth trawslywodraethol ar ei newydd wedd yn cynnwys datganiad cyhoeddus ar ddioddefwyr gwrywaidd i'w ddefnyddio ar draws holl adrannau'r Llywodraeth.

Byddwn yn gweithio ar draws y Llywodraeth, gyda sefydliadau trydydd sector arbenigol a dioddefwyr eu hunain, drwy ein Paneli Cynnwys a Chraffu VAWG Lleol a'n Grŵp Ymgynghori Allanol ar VAWG, i helpu i wella polisïau ac arferion er mwyn sicrhau, yn y pen draw, 'na ddylai unrhyw fenyw fyw mewn ofn o drais ac y dylai pob merch dyfu fyny'n gwybod ei bod yn ddiogel, er mwyn iddi allu cael y dechrau gorau mewn bywyd'.[5]

## Cyd-destun gweithredol

[3] Caiff yr ystadegau swyddogol yn ymwneud â throseddu a phlismona eu cadw gan y Swyddfa Gartref a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ac mae'r ystadegau'n ymwneud â dedfrydu, achosion y llys troseddol, troseddwyr a ddygir i gyfiawnder, y llysoedd a'r farnwriaeth yn cael eu cadw gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.
[4] Adroddir data yn yr adroddiad hwn drwyddo draw; caiff unrhyw ddata ychwanegol sy'n sail iddo ei ddarparu ar wefan y CPS.
[5] Llywodraeth EM, Ending Violence Against Women and Girls 2016-2020, Strategy Refresh, t4 ar gael yma

Mae'r CPS yn sefydliad sy'n cael ei arwain gan y galw; dim ond yr achosion sy'n cael eu hatgyfeirio atom gan yr heddlu neu ymchwilwyr eraill y gallwn eu hystyried. Mae angen rhoi'r cwymp yn nifer y troseddau VAWG yng nghyd-destun y cwymp cyffredinol mewn niferoedd ar draws y CPS, yn enwedig y cwymp yn nifer y bobl sydd dan amheuaeth y mae'r heddlu wedi'u hatgyfeirio atom i gael penderfyniad ynghylch cyhuddo.

Gan fod y cwymp yn nifer yr atgyfeiriadau gan yr heddlu wedi cael effaith sylweddol ar nifer y penderfyniadau ynghylch cyhuddo mae'r CPS yn gallu eu gwneud, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys data a dadansoddiad o gyfran yr achosion lle rydym wedi gwneud penderfyniad ynghylch cyhuddo, wedi cynghori na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach, ac wedi gofyn am wybodaeth ychwanegol gan yr heddlu. Rydym hefyd wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion sy'n cael eu cofnodi fel 'wedi terfynu'n weinyddol'; nid yw hwn yn benderfyniad cyfreithiol ond mae'n cynnwys achosion lle mae'r heddlu wedi ceisio cyngor ymchwiliol cynnar neu mae'r CPS wedi gofyn am wybodaeth ychwanegol gan yr heddlu er mwyn gallu gwneud penderfyniad ynghylch cyhuddo, a heb gael unrhyw dystiolaeth bellach o fewn tri mis. Gellir ailagor yr achosion hyn os yw'r heddlu'n darparu deunyddiau pellach.

Mae data'r CPS ar gael yn Adroddiad Blynyddol 2018-19 y CPS. Yn 2018-19[6], o'i gymharu â 2017-18, mae'r CPS wedi parhau i weld cwymp[7] yn y canlynol:

- pobl dan amheuaeth sy'n cael eu hatgyfeirio at y CPS gan yr heddlu ar gyfer penderfyniad ynghylch cyhuddo – cwymp o 8.2%, o 283,162 i 260,052;
- penderfyniadau cyn cyhuddo wedi'u cwblhau yn dilyn atgyfeiriad gan yr heddlu – cwymp o 9.2%, o 273,723 i 248,427;
- nifer y bobl dan amheuaeth a gyhuddwyd gan y CPS – cwymp o 13.2%, o 187,545 i 162,717;
- y gyfran a gyhuddwyd o blith yr holl benderfyniadau cyn cyhuddo cyfreithiol wedi'u cwblhau (canlyniadau'n cynnwys cyhuddo, peidio â chymryd unrhyw gamau pellach neu ddelio ag achos y tu allan i'r llys), – wedi cwympo o 77.77% i 75.5%.
- y gyfran a derfynwyd yn weinyddol (achosion lle nad yw'r heddlu'n ymateb i geisiadau gan y CPS am dystiolaeth ychwanegol neu i ymholiadau rhesymol o fewn tri mis) o blith pob penderfyniad cyn cyhuddo, – wedi cynyddu o 11.7% i 13.1%.
- niferoedd cyhuddo – cwymp o 6.2%, o 453,071 i 425,098 mewn Llysoedd Ynadon a chwymp o 13%, o 80,090 i 69,713 yn Llysoedd y Goron;
- niferoedd euogfarnu – cwymp o 6.7%, o 384,311 i 358,663 mewn Llysoedd Ynadon a chwymp o 13.0%, o 64,016 i 55,674 yn Llysoedd y Goron;
- cyfradd euogfarnu – cwymp o 0.5 pwynt canran i 84.4% mewn Llysoedd Ynadon, y gyfradd yn aros yn sefydlog yn Llysoedd y Goron, 79.9%.

Rhaid i'r CPS gael digon o adnoddau i ddelio ag effaith y newidiadau yn y dirwedd droseddol a'r system cyfiawnder troseddol. Mae ein gwaith ni wrth galon y gwaith o gyflawni strategaethau diogelwch a chyfiawnder y Llywodraeth, felly bydd newidiadau yn y system cyfiawnder troseddol yn effeithio ar y CPS. Mae'r CPS yn croesawu'r cyhoeddiad ym mis Awst 2019 o fuddsoddiad yn y system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys £85m ychwanegol i'r CPS dros y ddwy flynedd nesaf.

## Cod Erlynwyr y Goron

Cafodd argraffiad newydd o God Erlyn y Goron (y Cod) ei gyhoeddi fis Hydref 2018. Mae'r Cod yn nodi bod n rhaid i bob achos troseddol basio prawf dau gam cyn cyhuddo person:

---

[6] Hyperddolen i ddiffiniadau o'r termau a'r esboniadau yn adran ddata'r adroddiad, tudalennau A2-A4

[7] Heblaw am gynnydd yn yr achosion wedi'u terfynu'n weinyddol sydd wedi'u cynnwys isod.

- yn gyntaf, a yw'r dystiolaeth yn darparu gobaith realistig o sicrhau euogfarn;
- ac yn ail, a yw erlyn er budd y cyhoedd?

Mae'r Cod wrth galon yr holl achosion yr ydym yn delio â nhw, felly mae'n hanfodol ei fod yn datblygu i adlewyrchu'r newidiadau yn y gyfraith ac mewn cymdeithas. Roedd yr argraffiad hwn yn cynnwys datgelu am y tro cyntaf; mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid i erlynwyr ystyried a oes unrhyw ddeunydd sy'n cael ei ddal gan yr heddlu, neu a allai fod ar gael, a allai effeithio ar y penderfyniad i gyhuddo unigolyn sydd dan amheuaeth o drosedd. Mae hefyd yn egluro'r Prawf Trothwy, sy'n ei gwneud hi'n bosibl cyhuddo unigolyn dan amheuaeth sy'n risg sylweddol o ran mechnïaeth, fel risg ddifrifol o niwed i'r cyhoedd, yn y disgwyliad y bydd yr heddlu yn cynhyrchu rhagor o dystiolaeth. Rydym wedi symleiddio'r prawf i wneud yn siŵr ei fod yn cael ei ddefnyddio dim ond pan fo hynny'n angenrheidiol ac nad yw achosion yn cael cyhuddiad cyn pryd.

## Camau gweithredu yr ydym wedi'u cymryd mewn cysylltiad â datgelu i wella perfformiad erlyniadau

Mae datgelu'n rhan hanfodol o bob ymchwiliad ac o'r gwaith o baratoi pob achos ar gyfer erlyniad a threial. Mae'r CPS yn parhau i weithio ochr yn ochr â'r heddlu i sicrhau gwelliannau parhaol o ran delio â datgeliadau.

- Yn 2018, fe wnaethom gyhoeddi Cam Dau y Cynllun Gwella Datgelu Cenedlaethol a gweithredu amrywiaeth o fesurau ar y cyd â'r heddlu i fynd i'r afael â phroblemau datgelu er mwyn:
  - gwreiddio'r mesurau gwella a gyflwynwyd yng Ngham 1;
  - monitro ein perfformiad datgelu yn feirniadol drwy gydol oes erlyniad i'n helpu i deall a yw problemau wedi cael eu datrys neu a ydynt yn dal yn bodoli;
  - gwneud yn siŵr bod y gwelliannau'n cael yr effaith a fwriedir drwy'r 43 o heddluoedd a'r 14 o Ardaloedd y CPS.
- Roedd dogfen 'Review of the efficiency and effectiveness of disclosure in the criminal justice system' y Twrnai Cyffredinol yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran Cam 1 y Cynllun Gwella Datgelu Cenedlaethol a'n hymrwymiad cryf i wella.
- Rydym wedi cyhoeddi ein canllaw ar ymholiadau rhesymol a thystiolaeth gyfathrebu i'r heddlu ac i erlynwyr sy'n ceisio archwilio dyfeisiau digidol, e.e. ffonau symudol achwynwyr a thystion. Nid yw hyn yn rhywbeth y dylid gwneud cais amdano fel mater o drefn ym mhob achos. Dylid dilyn ymholiadau rhesymol yn unig er mwyn osgoi ymyrraeth ddiangen ym mywyd personol achwynydd. Cafodd y dull gweithredu hwn ei gymeradwyo gan y Llys Apêl[8] pan apeliodd y CPS yn llwyddiannus yn erbyn penderfyniad barnwr treial i roi terfyn ar achos lle roedd ffôn symudol yr achwynydd heb gael ei archwilio.
- Rydym wedi datblygu prosesau i sicrhau cysondeb yn y ffordd mae ymchwilwyr yn chwilio am wybodaeth berthnasol ar ddyfeisiau digidol achwynwyr a thystion er mwyn ymchwilio i ymholiad rhesymol. Bydd achwynwyr a thystion yn cael gwybod sut bydd eu dyfeisiau digidol neu eu cofnodion yn cael eu harchwilio a sut bydd unrhyw ddata'n cael eu defnyddio, a bydd yn rhaid cael eu cydsyniad ar sail gwybodaeth er mwyn i hyn ddigwydd.

[8] 1 Tachwedd 2018 R v E Llys Apêl.

## Blaenoriaethau'r dyfodol

- Bydd y CPS a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu’n cyhoeddi strategaeth ar y cyd ar gyfer hwyluso achosion, gan adeiladu ar y gwaith yr ydym yn ei wneud i ddelio ag achosion yn fwy effeithiol o’r cyhuddiad i’r treial. Bydd yn gwneud yn siŵr bod camau unioni hanfodol yn cael eu cymryd cyn gynted ag y bo modd i leihau’r galw ar y system cyfiawnder troseddol drwy leihau nifer y treialon aneffeithiol a chwâl, gor-restru a rhybuddio a dad-rybuddio tystion yn hwyr.
- Ers mis Mawrth 2018, mae’r unedau trais rhywiol a throseddau rhywiol difrifol, a'r Unedau Gwaith Achos Cymhleth yn defnyddio Dogfen Rheoli Datgelu newydd. Rydym yn gwerthuso effaith y dull gweithredu hwn cyn datblygu meini prawf ar gyfer ei ymestyn i achosion pellach. Mae hyn yn cynnwys asesu’r ffordd mae’r heddlu’n darparu gwybodaeth am ymholiadau rhesymol i erlynwyr ac a fyddai datblygu Dogfen Strategaeth Datgelu fel cyfrwng i hyn yn ateb priodol.
- Yn dilyn cymeradwyaeth yr Uwch Farnwr Llywyddol, mewn egwyddor, i greu adran newydd yn System Achosion Digidol Llys y Goron i gadw dogfennau gwybodaeth datgelu, byddwn yn rhoi'r dull gweithredu newydd hwn ar waith ar gyfer cyflwyno deunyddiau datgelu a rhoi gwybod i swyddog y llys bod ein herlynwyr wedi cyflawni eu rhwymedigaethau datgelu.
- Bydd y CPS yn parhau i weithio gyda'r heddlu a rhanddeiliaid i wella'r broses o ofyn i achwynwyr am gydsyniad ar gyfer ymchwilio a datgelu cyfathrebiadau digidol a deunydd trydydd parti. Byddwn yn mynd i’r afael â phryderon er mwyn gwneud yn siŵr bod iaith y ffurflen gydsynio’n ddealladwy i achwynwyr a thystion a’i bod yn sicrhau dull cyson o ran ymholiadau rhesymol. Ei nod yw darparu ar gyfer meddylfryd ymchwilio priodol ar ran yr heddlu a chyfrannu ato, yn ogystal â rhoi gwybodaeth i achwynwyr a’u cynorthwyo. Byddwn yn ystyried canfyddiadau’r Comisiynydd Gwybodaeth hefyd. Rydym yn disgwyl ei adroddiad ar y mater hwn maes o law.

# Cam-drin domestig

## Cyd-destun

Mae cam-drin domestig yn golygu unrhyw achos, neu batrwm o achosion, o ymddygiad sy'n rheoli, yn gorfodi neu'n bygwth, trais neu gamdriniaeth rhwng pobl 16 oed neu hŷn a phobl sy'n bartneriaid agos neu'n aelodau o'r teulu, neu sydd wedi bod – waeth beth fo'u rhyw neu eu cyfeiriadedd rhywiol. Mae'n cynnwys amrywiaeth o gamdriniaeth, gan gynnwys camdriniaeth seicolegol, gorfforol, rywiol, ariannol neu emosiynol sy'n cael ei defnyddio gan un person i gadw rheolaeth ar berson arall. Yn y CPS, rydym yn delio â phob achos o gam-drin domestig waeth beth fo oedran y diffynnydd neu'r achwynydd. Mae natur 'ddomestig' y troseddau hyn yn ffactor gwaethygol oherwydd y brad o ymddiriedaeth sy'n digwydd, sy'n cael effaith hynod o niweidiol ar y dioddefwr.

Fe wnaeth Deddf Plismona a Throseddu 2017 gyflwyno 'rhyddhau dan ymchwiliad' fel dewis arall yn lle mechnïaeth cyn cyhuddo. Fis Chwefror 2019, fe wnaeth Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi a'r Gwasanaethau Tân ac Achub nodi bod nifer y bobl a gafodd eu rhyddhau ar fechnïaeth am gam-drin domestig wedi cwympo 65 y cant, a oedd wedi cyfrannu at gynnydd yn nifer y diffynyddion cam-drin domestig a oedd heb ddod i'r llys. Fe wnaeth Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi a'r Gwasanaethau Tân ac Achub hefyd nodi bod y lefelau cam-drin domestig wedi cynyddu bron i 90 y cant ers 2014, ond bod y gyfradd arestio wedi cwympo mewn 23 o heddluoedd ers 2017.

## Data a dadansoddiad allweddol y CPS

Dolen yma i'r data llawn ar gam-drin domestig ar dudalennau A7–A15 yr adran ddata lle mae pum mlynedd o ddata wedi'u darparu. Mae'r data a ddarperir isod ac yn adran data'r adroddiad yn ymwneud â'r holl ddiffynyddion ac achwynwyr sydd wedi'u fflagio dan gam-drin domestig, waeth beth fo'u rhyw.

Mae esboniad o'r data a'r derminoleg a ddefnyddir ar gael yn adran data'r adroddiad hwn

Y cwymp mewn pobl dan amheuaeth sy'n cael eu hatgyfeirio at y CPS gan yr heddlu am benderfyniad ynghylch cyhuddo sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar niferoedd cyhuddo'r CPS yn 2018-19. Fe wnaeth yr atgyfeiriadau[9] gan yr heddlu ostwng o 110,653 yn 2017-18 i 98,470 yn 2018-19 – cwymp o 11.0%.

[9] Cyn 2018-19, roedd y data ar 'benderfyniadau cyn cyhuddo' wedi'u cwblhau gan y CPS yn cael eu hadrodd fel 'atgyfeiriadau'r heddlu' yn yr adroddiad VAWG. Mae adroddiad 2018-19 hwn yn defnyddio terminoleg wahanol i egluro'r data. Mae'n darparu dwy set ddata – (i) achosion yn cael eu 'derbyn cyn cyhuddo' – nifer y bobl dan amheuaeth sy'n cael eu hatgyfeirio at y CPS gan yr heddlu am benderfyniad ynghylch cyhuddo a (ii) 'penderfyniadau cyn cyhuddo wedi'u cwblhau gan y CPS (a elwir yn 'atgyfeiriadau'r heddlu' o'r blaen) sef penderfyniad gan y CPS i gyhuddo, i beidio â chymryd unrhyw gamau pellach, i argymell penderfyniad y tu allan i'r llys, i derfynu'n weinyddol neu 'arall'. Mae nifer y derbyniadau cyn cyhuddo y mae'r heddlu'n eu hatgyfeirio'n dibynnu ar (a) yr heddlu yn nodi ac yn fflagio'r achosion, yn ôl y sawl sydd dan amheuaeth, cyn eu hatgyfeirio at y CPS a (b) gweinyddwyr y CPS yn nodi ac yn fflagio'r achosion hynny ar System Rheoli Gwaith Achos y CPS, lle maen nhw'n cael eu cofrestru yn y lle cyntaf.

### Mae'r data allweddol eraill yn cynnwys:

- Roedd cyfanswm y penderfyniadau cyn cyhuddo wedi'u cwblhau gan y CPS[10] yn dilyn atgyfeiriadau'r heddlu wedi cwympo o 110,562 yn 2017-18 i 98,690 yn 2018-19 – cwymp o 10.7%.
- Roedd cyfran y penderfyniadau cyn cyhuddo a arweiniodd at gyhuddiad wedi cwympo o 70.3% yn 2017-18 i 68.4% yn 2018-19 – cwymp o 1.9 pwynt canran.
- O blith yr holl benderfyniadau cyn cyhuddo cyfreithiol a gafodd eu cwblhau (cyhuddo, peidio â chymryd unrhyw gamau pellach neu ddelio ag achos y tu allan i'r llys), roedd y gyfran cyhuddo wedi cwympo o 75.9% yn 2017-18 i 74.3% yn 2018-19[11] – cwymp o 1.6 pwynt canran.
- O blith yr holl benderfyniadau cyn cyhuddo, roedd y gyfran a derfynwyd yn weinyddol (achosion lle nad yw'r heddlu'n ymateb i geisiadau gan y CPS am dystiolaeth ychwanegol neu i ymholiadau rhesymol o fewn tri mis) wedi cynyddu o 7.3% i 8.0% – cynnydd o 0.7 pwynt canran.
- Fe wnaeth yr erlyniadau a gafodd eu cwblhau ostwng o 89,091 yn 2017-18 i 78,624 yn 2018-19 – cwymp o 11.7%.

Er bod yr euogfarnau wedi gostwng o 68,098 yn 2017-18 i 60,160 yn 2018-19 – cynnydd o 11.7% – roedd y gyfradd euogfarnu wedi cynyddu ychydig o 76.4% i 76.5% – y gyfradd uchaf a gofnodwyd erioed – ac roedd yr euogfarnau ar ôl treial (ac eithrio pledion cymysg[12]) wedi cynyddu 1.5 pwynt canran hefyd.

Yn olaf, roedd nifer y troseddau o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi a arweiniodd at gyhuddiad ac a gyrhaeddodd wrandawiad cyntaf wedi cynyddu o 960 yn 2017-18 i 1,177 yn 2018-19. Cafodd 13.5% o'r troseddau hyn eu fflagio fel trais rhywiol.

## Camau gweithredu yr ydym wedi'u cymryd i wella perfformiad erlyniadau

- Mae'r CPS wedi gweithio ar y cyd ar draws y system cyfiawnder troseddol i lansio'r Fframwaith Arferion Gorau ar gyfer Cam-drin Domestig i sicrhau arferion da cyson mewn cysylltiad â cham-drin domestig.
- Roeddem wedi gweithio gyda phartneriaid ar draws y llywodraeth a'r system cyfiawnder troseddol i ddatblygu'r Bil Cam-drin Domestig er mwyn cyflwyno mesurau statudol eang i fynd i'r afael â cham-drin domestig.
- Mae'r CPS, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r heddlu wedi rhyddhau data o 2012-13 i 2017-18 er mwyn cefnogi craffu lleol.
- Roeddem wedi gweithio gyda'r heddlu ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi a'r Gwasanaethau Tân ac Achub i archwilio atgyfeiriadau o achosion cam-drin domestig, gan

[10] Bydd nifer y penderfyniadau cyn cyhuddo wedi'u cwblhau gan y CPS yn gyfanswm y rheini sy'n cael eu hatgyfeirio gan yr heddlu (wedi'u fflagio gan yr heddlu a'r CPS wrth eu cofrestru) a'r rheini sy'n cael eu fflagio gan erlynwyr a gweinyddwyr y CPS yn nes ymlaen, ond cyn cwblhau'r penderfyniad cyn cyhuddo terfynol. Bydd y data ar gyfanswm y penderfyniadau cyn cyhuddo'n seiliedig ar y dyddiad y cafodd y cyngor cyhuddo ei gwblhau a'i ddarparu i'r heddlu. Felly, efallai y bydd data 2018-19 yn cynnwys penderfyniadau cyn cyhuddo ar gyfer achosion a atgyfeiriwyd gan yr heddlu at y CPS yn 2018-19, yn 2017-18 neu'n gynharach. Mae hyn yn esbonio pam mae nifer y penderfyniadau cyn cyhuddo'n uwch na nifer y derbyniadau cyn cyhuddo o fewn yr un cyfnod.

[11] Gweler yr esboniad o'r newid yn y dull o adrodd y ganran cyhuddo yn adran data'r adroddiad

[12] 'Mae 'ac eithrio pledion cymysg' yn golygu achosion diffynyddion lle mai dim ond pledion 'dieuog' sy'n cael eu cynnig i bob cyhuddiad, ac mae treial yn dilyn.

gynnwys yr effaith mae'r newidiadau i fechnïaeth cyn cyhuddo yn ei chael ar yr achosion hyn.

- Roedd y CPS wedi gweithio gyda'r heddlu i ymestyn cynlluniau peilot rhybuddiad amodol ar gyfer cam-drin domestig o bedwar heddlu i ddeg o heddluoedd.[13]

## Blaenoriaethau'r dyfodol

- Bydd y CPS yn parhau i weithio gyda'r Llywodraeth a'r Senedd i ddeddfu'r Bil Cam-drin Domestig.
- Byddwn yn diweddaru canllawiau cyfreithiol y CPS i gynnwys ffocws ar ddeall cam-drin economaidd, yn ogystal â mynd i'r afael â materion cymhleth sy'n gysylltiedig â chyfraddau gadael ymysg tystion.
- Byddwn yn gweithredu'r canllawiau statudol newydd sy'n cael eu darparu gan y Swyddfa Gartref i bob adran o'r Llywodraeth ar gam-drin domestig, gan gynnwys ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi.
- Byddwn yn parhau i weithio gyda'r heddlu i fynd i'r afael ag unrhyw gwymp yn nifer yr atgyfeiriadau cam-drin domestig.
- Bydd y CPS yn parhau i weithio gyda phartneriaid i roi'r Fframwaith Arferion Gorau ar gyfer Cam-drin Domestig ar waith ar draws y system cyfiawnder troseddol.

### Erlyniadau sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr

Mae rhoi tystiolaeth yn y llys yn gallu bod yn brofiad anodd iawn i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig. Pan fo'n bosibl, bydd erlynwyr yn dod o hyd i ffyrdd o liniaru hyn ac weithiau bydd hi'n bosibl adeiladu achos lle nad oes yn rhaid i'r dioddefwr ddod i'r llys o gwbl.

Ar ôl i ddiffynnydd bledio'n ddieuog mewn achos cam-drin domestig yn cynnwys ymosodiad a difrod troseddol, chwaraeodd y CPS yr alwad 999 i'r amddiffyniad yng ngwrandawiad y ddalfa a nodi y byddent yn gwneud cais i ddefnyddio'r alwad fel tystiolaeth. O ganlyniad, plediodd y diffynnydd yn euog yn lle ac roedd modd osgoi treial.

Cafodd y diffynnydd ddedfryd o orchymyn cymunedol 12 mis, gofyniad gweithgaredd adfer 20 diwrnod, a 140 awr o waith ddi-dâl. Gorchmynnwyd iddo dalu £200 o iawndal am anafiadau a gofid, a £200 arall o iawndal am ddifrod. Cafodd orchymyn atal 24 mis hefyd.

### Mynd i'r afael ag ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi

Cafodd dyn 60 oed ddedfryd o saith mlynedd o garchar am ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi, aflonyddu ac ymosodiad rhywiol. Roedd ei droseddau'n cynnwys bygwth cymryd ffôn symudol y dioddefwr oddi wrthi ac atal arian os nad oedd hi'n ufuddhau iddo. Roedd hefyd wedi ei bygwth â dyfais taser a lladd arni o flaen teulu a ffrindiau.

[13] Mae Hampshire, Gorllewin Swydd Efrog, Swydd Gaerlŷr, Swydd Stafford a Gorllewin Canolbarth Lloegr wedi ymuno â Avon a Gwlad yr Haf, Swydd Northampton, Dorset, Dyffryn Tafwys a Swydd Gaergrawnt.

# Stelcio neu aflonyddu

## Cyd-destun

Mae stelcio ac aflonyddu yn aml ymysg y troseddau mwyaf cymhleth mae'r heddlu ac erlynwyr yn delio â nhw, ac maen nhw'n aml yn cynnwys dioddefwyr sydd wedi wynebu profiadau trallodus dan law troseddwyr ystrywgar. Mae ymchwilio i'r troseddau hyn a'u herlyn yn gofyn am ddull ystyriol sy'n edrych y tu hwnt i achosion unigol ac ar y patrwm ymddygiad, a sut mae hyn wedi effeithio ar ddiogelwch a lles dioddefwyr a'u teulu.

## Data a dadansoddiad allweddol y CPS

Dolen yma i'r data llawn ar Stelcio neu Aflonyddu ar dudalennau A16–A18 yr adran ddata lle mae pum mlynedd o ddata wedi'u darparu. Mae'r data a ddarperir isod ac yn adran data'r adroddiad yn ymwneud â'r holl droseddau, waeth beth fo rhyw'r diffynnydd neu'r achwynydd.
Mae data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gael yn Atodiad 2, tudalennau B9–B10.

Mae'r holl ddata isod yn cyfeirio at nifer y troseddau lle dechreuwyd erlyniadau a gyrhaeddodd wrandawiad cyntaf mewn llys ynadon.

- At ei gilydd, roedd nifer y troseddau stelcio ac aflonyddu wedi cwympo o 11,992 yn 2017-18 i 10,636 yn 2018-19 – cwymp o 10.8%. Roedd 73.9% yn gysylltiedig â cham-drin domestig, gan godi o 73.3% yn 2017-18.
- Roedd troseddau stelcio wedi cynyddu o 1,616 yn 2017-18 i 2,209 yn 2018-19 – cynnydd o 36.7% a'r nifer uchaf a gofnodwyd erioed. Roedd 79.1% yn gysylltiedig â cham-drin domestig, gan godi o 73.1% yn 2017-18.
- Roedd nifer y troseddau torri gorchymyn atal wedi gostwng o 17,012 yn 2017-18 i 16,520 yn 2018-19 – cwymp o 2.9%. Roedd 87.6% yn gysylltiedig â cham-drin domestig, gan godi o 87.2% yn 2017-18.
- Roedd nifer y troseddau torri gorchymyn rhag molestu wedi gostwng o 6,266 yn 2017-18 i 5,536 yn 2018-19 – cwymp o 11.7%. Roedd 95.2% yn gysylltiedig â cham-drin domestig, gan godi o 95.0% yn 2017-18.

## Camau gweithredu yr ydym wedi'u cymryd i wella perfformiad erlyniadau

- Mae'r CPS wedi gweithio gyda Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a'r Coleg Plismona i ddarparu canllawiau ar aflonyddu a stelcio i'w ymatebwyr heddlu. Fe wnaeth yr heddlu ac erlynwyr gynnal gweithdy hefyd er mwyn rhannu'r arferion gorau.
- Mae'r CPS wedi gweithio gyda'r Swyddfa Gartref a'r heddlu i ddatblygu canllawiau statudol i gefnogi'r gwaith o roi Deddf Diogelu rhag Stelcio 2019 ar waith, gan gynnwys Gorchymyn Diogelu Sifil rhag Stelcio newydd.
- Cafodd pecyn gwybodaeth ei gynhyrchu i Seneddwyr a'u staff i'w helpu i adnabod a rhoi gwybod am ymddygiad bygythiol troseddol posibl, gan gynnwys stelcio ac aflonyddu.

### Blaenoriaethau'r dyfodol

- Bydd y CPS yn gweithio gyda'r heddlu i ddiwygio'r protocol a'r rhestr wirio ar y cyd ar gyfer stelcio ac aflonyddu, yn dilyn ymgynghoriad â dioddefwyr ac erlynwyr.
- Byddwn yn adnewyddu canllawiau'r CPS ar dorri gorchmynion atal a'r Gorchmynion Diogelu rhag Stelcio newydd.
- Bydd erlynwyr y CPS yn cwblhau hyfforddiant ar-lein diwygiedig gorfodol ar stelcio, aflonyddu a gorchmynion atal, gan adeiladu ar hyfforddiant blaenorol.
- Bydd y CPS a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu'n parhau i ymgysylltu â Seneddwyr i'w helpu i adnabod ymddygiad bygythiol troseddol posibl.

**Cymryd stelcio o ddifrif**

Cafodd diffynnydd ei gyhuddo o stelcio yn wreiddiol (a.2A). Fodd bynnag, ar ôl adolygu'r ffeil a darllen disgrifiad y dioddefwr o'i phrofiad, penderfynodd yr erlynydd gyhuddo'r diffynnydd o drosedd fwy difrifol, sef stelcio (a.4A) yn cynnwys ofn o drais neu fraw neu ofid difrifol. Roedd y diffynnydd wedi troseddu yn erbyn y dioddefwr am dros ddwy flynedd, gan amrywio o ymosodiad i ddifrod troseddol a stelcio. Roedd eisoes wedi cael dedfryd o ddwy flynedd o garchar yn 2017 ar ôl torri gorchmynion atal blaenorol nifer o weithiau.

Roedd yr erlynydd yn gallu gweld bod ymddygiad y diffynnydd wedi cael effaith ddinistriol ar fywyd beunyddiol y dioddefwr. Roedd hi wedi gorfod gadael ei chartref a gadael ei phlant gyda'i rhieni. Cynigiodd yr amddiffyniad ble i'r drosedd lai, aflonyddu, ond cafodd hwn ei wrthod.

Yn y pen draw, plediodd y diffynnydd yn euog ar ddiwrnod y treial ar ôl cynnig pledion euog i ddau achos o dorri gorchymyn atal. Cafodd ddedfryd o saith mlynedd a thri mis o garchar, gyda gorchymyn atal am gyfnod amhenodol.

**Stelcio a chyfryngau cymdeithasol**

Cafodd diffynnydd benywaidd euogfarn am ymgyrch stelcio yn erbyn ei chyn-bartner. Roedd hi wedi anfon neges destun at y dioddefwr yn dweud bod rhywun yn ei wylio ac wedi anfon negeseuon e-bost o gyfrifon ffug – gan gynnwys un yn honni ei bod hi wedi cael ei herwgipio a'i threisio. Torrodd i mewn i'w chartref ei hun a thynnu lluniau o'i hun wedi'u chlymu ac yn noeth. Fe wnaeth hi gamgyhuddo'r dioddefwr o drais rhywiol a defnyddio bol babi ffug i honni ei bod hi'n feichiog â'i fabi.

Cafodd euogfarn am stelcio, anfon cyfathrebiadau maleisus ac un cyfrif o wyrdroi cwrs

## Trais rhywiol

### Cyd-destun

Mae trais rhywiol a throseddau rhywiol difrifol yn droseddau dinistriol sy’n gallu cael effaith sylweddol a dofn ar ddioddefwyr. Mae’r CPS wedi ymrwymo i gyhuddo ac erlyn achosion o drais rhywiol bob tro mae’r prawf yn Nghod Erlynwyr y Goron yn cael ei fodloni. Mae o’r pwys mwyaf bod y troseddau hyn yn cael eu trin yn gadarn ac mae’r CPS wedi gwneud gwaith helaeth i wneud yn siŵr bod yr erlynwyr sy’n delio â'r achosion hyn yn llwyr gymwys i ddelio â'r cymhlethdodau sy’n gallu dod i’r fei wrth ddelio â nhw. Mae cyfreithwyr arbenigol yn delio â’r holl achosion o drais rhywiol a throseddau rhywiol difrifol (RASSO). Maen nhw wedi cael hyfforddiant cynhwysfawr ar gymhlethdodau'r troseddau hyn. Mae hyn yn cynnwys deall elfennau bregus dioddefwyr, effaith trais rhywiol, materion cydsyniad, mythau trais rhywiol, stereoteipiau, a heriau achosion sy’n cynnwys tystion agored i niwed a phobl ifanc.

Yn yr un modd â phob trosedd, mae pob achos sy’n cael ei atgyfeirio atom gan yr heddlu’n cael ei ystyried yn unol â Chod Erlynwyr y Goron i bennu ai dwyn cyhuddiadau yw’r peth cywir i’w wneud[14]. Mae’r CPS wedi ymrwymo i gyhuddo ac erlyn achosion o drais rhywiol yn gadarn bob tro mae’r prawf cyfreithiol yn cael ei fodloni. Os yw'r dystiolaeth mewn achos yn golygu nad oes gobaith realistig o euogfarn, ni ddylid bwrw ymlaen, ni waeth pa mor sensitif neu ddifrifol yw’r honiad. Mae dwyn yr achosion cywir gerbron y llys er budd achwynwyr, pobl dan amheuaeth a’r cyhoedd.

Gan ein bod wedi cael ymholiadau ynghylch y gwahaniaeth rhwng data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a data'r CPS ar euogfarnau trais rhywiol yn y gorffennol, rydym wedi amlinellu sut maen nhw’n cael eu mesur yn wahanol a’u defnyddio at wahanol ddibenion yn adran data'r adroddiad. Yn gryno, mae’r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn darparu'r Ystadegau Gwladol[15] ar drais rhywiol ac mae ei data’n cofnodi euogfarnau am y drosedd benodol o drais rhywiol. Mae’r CPS yn cofnodi achosion ‘wedi’u fflagio fel trais rhywiol’, sy’n golygu eu bod yn cynnwys achosion a ddilynodd honiad o drais rhywiol ond a allai fod wedi arwain at drosedd arall, fel ymosodiad rhywiol, yn cael ei chyhuddo a/neu ei heuogfarnu. Mae’r fflag ‘trais rhywiol’ yn aros yn ei lle i wneud yn siŵr bod pob achos yn cael ei reoli yn unol â’r egwyddorion a nodir yn ein polisi trais rhywiol a throseddau rhywiol. Mae data'r CPS ar ‘fflagiau trais rhywiol’ felly’n dangos nifer llawer uwch o gyhuddiadau ac euogfarnau o’u cymharu â data’r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyhuddiadau ac euogfarnau o drais rhywiol. Mae esboniad pellach o’r gwahaniaethau ar gael yn yr adran data manwl ac adran ddata'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Atodiad 2.


Mae’r CPS yn gweithio’n agos gydag adrannau eraill y llywodraeth a rhanddeiliaid ar yr adolygiad trawslywodraethol o ymateb y system cyfiawnder troseddol i drais rhywiol a throseddau rhywiol difrifol ymysg oedolion yng Nghymru a Lloegr. Mae’n edrych ar sut gall y CPS, yr heddlu, y llysoedd ac eraill weithio gyda’i gilydd i wella ein hymateb i’r achosion hyn a sicrhau’r canlyniadau gorau posibl i ddioddefwyr. Mae dull system gyfan yn bwysig er mwyn deall y rhesymau am y newidiadau sylweddol sydd i’w gweld yn y data.

## Data a dadansoddiad allweddol y CPS

**Nodyn: Mae rhagor o derminoleg manwl, amlinell o broses yr heddlu/y CPS ac esboniad o unrhyw gyfrifiadau neu dermau a ddefnyddir wedi’u hamlinellu yn adran data’r adroddiad hwn. Mae crynodebau byr wedi’u darparu yn nhroednodiadau’r adran hon yn yr adroddiad.**

[14] Mae’r CPS yn cynnwys yr holl ddata ar bawb sydd dan amheuaeth a phob diffynnydd ac achwynydd, waeth beth fo’i ryw.
[15] Caiff yr ystadegau swyddogol yn ymwneud â throseddu a phlismona eu cadw gan y Swyddfa Gartref a’r Swyddfa Ystadegau Gwladol ac mae’r ystadegau’n ymwneud â dedfrydu, achosion y llys troseddol, troseddwyr a ddygir i gyfiawnder, y llysoedd a’r farnwriaeth yn cael eu cadw gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

# Amserlen ymchwiliad RASSO



Dolen yma i'r data llawn ar drais rhywiol ar dudalennau A18–A27 yr adran ddata lle mae pum mlynedd o ddata wedi'u darparu. Mae'r data a ddarperir isod ac yn adran ddata'r adroddiad yn cyfeirio at holl ddiffynyddion sydd wedi'u fflagio dan drais rhywiol, a'r achwynwyr, waeth beth fo'u rhyw. Mae data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gael yn Atodiad 2, tudalennau B11–B12

## Mae data perfformiad erlyniadau allweddol y CPS yn cynnwys:

- Roedd nifer y bobl dan amheuaeth a gafodd eu hatgyfeirio[16] gan yr heddlu at y CPS am benderfyniad ynghylch cyhuddo wedi cwympo o 4,370 yn 2017-18 i 3,375 yn 2018-19 – cwymp o 22.8%.
- Roedd nifer y penderfyniadau cyn cyhuddo wedi'u cwblhau gan y CPS[17] yn dilyn atgyfeiriadau'r heddlu wedi cwympo o 6,012 yn 2017-18 i 5,114 yn 2018-19 – cwymp o 14.9%.
- Roedd cyfran y penderfyniadau cyn cyhuddo a arweiniodd at gyhuddiad wedi cwympo o 46.9% yn 2017-18 i 34.4% yn 2018-19 – cwymp o 12.5 pwynt canran.
- O blith yr holl benderfyniadau cyn cyhuddo cyfreithiol a gafodd eu cwblhau (cyhuddo, peidio â chymryd unrhyw gamau pellach neu ddelio ag achos y tu allan i'r llys), roedd y gyfran cyhuddo wedi cwympo o 60.1% yn 2017-18 i 48.2% yn 2018-19[18] – cwymp o 11.9 pwynt canran.
- Roedd y gyfran a derfynwyd yn weinyddol (achosion lle nad yw'r heddlu'n ymateb i geisiadau gan y CPS am dystiolaeth ychwanegol neu i ymholiadau rhesymol o fewn tri mis) wedi cynyddu o 21.7% i 28.6% – cynnydd o 6.9 pwynt canran.
- Roedd nifer yr ymgyngoriadau fesul achos ar gyfartaledd wedi cynyddu o 1.98 yn 2017-18 i 2.47 yn 2018-19; o ran achosion lle mai'r penderfyniad oedd peidio â chymryd unrhyw gamau pellach, roedd wedi cynyddu o 2.04 i 2.81.
- Fe wnaeth yr erlyniadau a gafodd eu cwblhau ostwng o 4,517 yn 2017-18 i 3,034 yn 2018-19 – cwymp o 32.8%.
- Fe wnaeth nifer yr euogfarnau ostwng o 2,635 yn 2017-18 i 1,925 yn 2018-19 – cwymp o 26.9%.
- Roedd y gyfradd euogfarnu wedi cynyddu o 58.3% yn 2017-18 i 63.4% yn 2018-19 (5.1 pwynt canran); roedd yr euogfarnau ar ôl treial (ac eithrio pledion cymysg)[19] wedi cynyddu 7.4 pwynt canran i 56.7%.

[16] Cyn 2018-19, roedd y data ar 'benderfyniadau cyn cyhuddo' wedi'u cwblhau gan y CPS yn cael eu hadrodd fel 'atgyfeiriadau'r heddlu' yn yr adroddiad VAWG. Mae adroddiad 2018-19 hwn yn defnyddio terminoleg wahanol i egluro'r data. Mae'n darparu dwy set ddata – (i) achosion yn cael eu 'derbyn cyn cyhuddo' – nifer y bobl dan amheuaeth sy'n cael eu hatgyfeirio at y CPS gan yr heddlu am benderfyniad ynghylch cyhuddo a (ii) 'penderfyniadau cyn cyhuddo wedi'u cwblhau gan y CPS (a elwir yn 'atgyfeiriadau'r heddlu' o'r blaen) sef penderfyniad gan y CPS i gyhuddo, i beidio â chymryd unrhyw gamau pellach, i argymell penderfyniad y tu allan i'r llys, i derfynu'n weinyddol neu 'arall'.[1] Mae nifer y derbyniadau cyn cyhuddo y mae'r heddlu'n eu hatgyfeirio'n dibynnu ar (a) yr heddlu yn nodi ac yn fflagio'r achosion, yn ôl y sawl sydd dan amheuaeth, cyn eu hatgyfeirio at y CPS a (b) gweinyddwyr y CPS yn nodi ac yn fflagio'r achosion hynny ar System Rheoli Gwaith Achos y CPS, lle maen nhw'n cael eu cofrestru yn y lle cyntaf.

[17] Bydd nifer y penderfyniadau cyn cyhuddo wedi'u cwblhau gan y CPS yn gyfanswm y rheini sy'n cael eu hatgyfeirio gan yr heddlu (wedi'u fflagio gan yr heddlu a'r CPS wrth eu cofrestru) a'r rheini sy'n cael eu fflagio gan erlynwyr a gweinyddwyr y CPS yn nes ymlaen, ond cyn cwblhau'r penderfyniad cyn cyhuddo terfynol. Bydd y data ar gyfanswm y penderfyniadau cyn cyhuddo'n seiliedig ar y dyddiad y cafodd y cyngor cyhuddo ei gwblhau a'i ddarparu i'r heddlu. Felly, efallai y bydd data 2018-19 yn cynnwys penderfyniadau cyn cyhuddo ar gyfer achosion a atgyfeiriwyd gan yr heddlu at y CPS yn 2018-19, yn 2017-18 neu'n gynharach. Mae hyn yn esbonio pam mae nifer y penderfyniadau cyn cyhuddo'n uwch na nifer y derbyniadau cyn cyhuddo o fewn yr un cyfnod.

[18] Gweler yr esboniad o'r newid yn y dull o adrodd y ganran cyhuddo yn adran data'r adroddiad

[19] Mae 'ac eithrio pledion cymysg' yn golygu achosion diffynyddion lle mai dim ond pledion 'dieuog' sy'n cael eu cynnig i bob cyhuddiad, ac mae treial yn dilyn.

**Mae'r gwahanol fathau o achosion trais rhywiol yn cynnwys:**

- Achosion o drais rhywiol gan gydnabod[20], lle mae'r sawl sy'n cael ei dreisio'n adnabod y troseddwr cyn y drosedd (ac eithrio achosion o gam-drin domestig a threisio plant) yw'r gyfradd uchaf o bob achos sy'n cael ei fflagio fel trais rhywiol a asesir am benderfyniad ynghylch cyhuddo yn dilyn atgyfeiriad gan yr heddlu (42.4), ac felly maen nhw'n effeithio ar berfformiad cyffredinol o ran trais rhywiol.
- Yn 2018-19, roedd y data ar achosion o drais rhywiol gan gydnabod a oedd yn cynnwys diffynyddion ifanc (pobl 16-24 oed) yn dangos cynnydd sylweddol yn y gyfradd euogfarnu ond yn cyflwyno rhai o'r heriau mwyaf o ran cyhuddo, erlyn ac euogfarnu.
- Mewn achosion o dreisio plant, er bod penderfyniadau ynghylch cyhuddo wedi cymryd mwy o amser yn 2018-19, roedd yr amser rhwng cyhuddo a therfynu'r achos wedi lleihau. Roedd gan yr achosion hyn rhai o'r cyfraddau cyhuddo ac euogfarnu uchaf o blith yr holl achosion wedi'u fflagio fel trais rhywiol a gafodd eu herlyn, a'r gyfradd isaf o ollwng achosion a'r rheini na chawsant eu heuogfarnu o ganlyniad i dystion yn gadael.

**Ffactorau posibl a allai fod wedi effeithio ar y cwymp mewn cyhuddiadau o drais rhywiol:**

Mae'r bwlch cynyddol rhwng nifer yr achosion o drais rhywiol sy'n cael eu cofnodi gan yr heddlu a nifer yr achosion sy'n mynd i'r llys yn destun pryder i bob un ohonom yn y system cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, nid yw'n arwydd o unrhyw newid mewn polisi, nac o ddiffyg ymrwymiad gan y CPS i erlyn.

Mae llawer o ffactorau sydd, yn ein barn ni, wedi cyfrannu at y cwymp mewn cyhuddiadau o drais rhywiol:

- cwymp yn nifer yr atgyfeiriadau gan yr heddlu at y CPS;
- cynnydd yn y data digidol sy'n cymryd amser i'w harchwilio ac felly sy'n gallu golygu bod achosion yn cymryd hirach i gyrraedd y CPS;
- cynnydd yn nifer yr ymgyngoriadau rhwng yr heddlu ac erlynwyr cyn cyhuddo, gyda chynlluniau gweithredu'n cael eu rhoi yn eu lle i nodi pa waith pellach sydd angen ei wneud er mwyn gallu gwneud penderfyniad ynghylch cyhuddo. Gall hyn arwain at benderfyniadau ynghylch cyhuddo'n cymryd mwy o amser, ond dylai olygu bod achosion cryfach yn cael eu dwyn gerbron y llys;
- cynnydd yn nifer a chyfran yr achosion lle nad yw'r heddlu wedi ymateb i gyngor ymchwilio cynnar neu i geisiadau am ragor o wybodaeth.

## Camau gweithredu yr ydym wedi'u cymryd i wella perfformiad erlyniadau

- Mae'r CPS wedi cynhyrchu pecyn cymorth tystiolaeth seicolegol i erlynwyr i'w helpu i ddeall effaith amrywiaeth o gyflyrau seicolegol, gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â thrawma.
- Bydd canllawiau ar arferion gweithredu interim ar gyfer therapi cyn y treial yn cael eu cyhoeddi, cyn y canllawiau llawn, yn dilyn ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Bydd y canllawiau'n galluogi'r holl ddioddefwyr i gael y therapi sydd ei angen arnynt yn brydlon er mwyn eu helpu i wella ac i roi eu tystiolaeth orau mewn achosion troseddol.
- Mae rhagor o'r canllawiau cyfreithiol diweddaraf wedi'u hamlinellu yn adran Troseddau Rhywiol yr adroddiad hwn.

[20] Mae'r fflagio sy'n cael ei ddefnyddio i wahaniaethu rhwng y gwahanol fathau o achosion trais rhywiol wedi'i amlinellu yn yr adran trais rhywiol yn adran data'r adroddiad, ac mae'r data gwaelodol wedi'u darparu hefyd.

- Rydym wedi cynhyrchu podlediad hyfforddi gorfodol i erlynwyr ac eiriolwyr y CPS sy'n ymwneud â chroesholi achwynwyr am eu hanes rhywiol (A.41). Mae ar gael i aelodau o'r Bar allanol hefyd.
- Mae'r CPS wedi cynnal arolwg ymysg rhanddeiliaid fel rhan o brosiect ymchwil i wella ein dealltwriaeth o sut mae newidiadau mewn ymddygiad rhywiol a thystiolaeth ddigidol, yn enwedig mewn achosion o drais rhywiol gan gydnabod, yn effeithio ar erlyniadau am drais rhywiol.
- Cafodd hyfforddiant ar ddelio â thystion agored i niwed ei roi i bob eiriolwr RASSO sydd wedi'i gyflogi gan y CPS, ac mae'r hyfforddiant yn parhau i aelodau o'r Bar allanol. Mae'r meini prawf dethol ar gyfer rhestr Panel Eiriolwyr RASSO hefyd wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu'r gofynion hyfforddi newydd.

## Blaenoriaethau'r dyfodol

- Bydd y CPS yn parhau i weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid ar yr adolygiad trawslywodraethol o ymateb y system cyfiawnder troseddol i drais rhywiol a throseddau rhywiol difrifol, ac yn bwrw ymlaen ag argymhellion yr adroddiad. Mae disgwyl iddo gael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2020.
- Byddwn yn cwblhau ein prosiect ymchwil i natur newidiol cyfarfyddiadau rhywiol, yn enwedig y rheini sy'n gysylltiedig â defnyddio technoleg ddigidol, ac yn nodi sut bydd canlyniadau dysgu'n cael eu defnyddio i wella ymarfer erlyniadol. Byddwn yn datblygu canllawiau newydd i erlynwyr ac yn diweddaru ein canllawiau ar fythau a stereoteipiau.
- Mae'r hyfforddiant sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 2019-20 yn cynnwys hyfforddiant cynefino i gyfreithwyr RASSO y CPS ac Eiriolwyr y Goron sy'n ymuno â'r Unedau RASSO, fel rhan o'r cylchdro rheolaidd o erlynwyr.
- Bydd y cwrs RASSO ieuenctid i erlynwyr yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu ymhellach unrhyw ystyriaethau gwahanol sy'n berthnasol i'r achosion hyn, e.e. mewn cysylltiad â budd y cyhoedd, dewis cyhuddiad a dedfrydu.
- Bydd erlynwyr RASSO yn cyflawni hyfforddiant ar ddefnyddio Dogfennau Rheoli Datgelu mewn ffordd briodol mewn achosion RASSO.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu diweddariadau i ganllawiau cyfreithiol RASSO y CPS. Drwy ymgynghori â grwpiau sy'n cefnogi dioddefwyr gwrywaidd, bydd y canllawiau'n cynnwys manylion am brofiadau dioddefwyr gwrywaidd i helpu i herio'r mythau a'r stereoteipiau, ac yn darparu manylion y gwasanaethau cymorth sydd ar gael iddynt.
- Bydd y CPS yn lansio pecyn cymorth ar gyfer achosion o drais rhwng dau o'r un rhyw. Pwrpas y pecyn hwn fydd cynorthwyo erlynwyr sy'n ystyried materion a allai godi mewn cysylltiad â thrais rhywiol yn cynnwys oedolion lle mae'r achwynydd a'r sawl sydd dan amheuaeth/y diffynnydd o'r un rhyw neu'n drawsryweddol.

**Y Llys Apêl yn cefnogi apêl y CPS**

*R v E* – Y Llys Apêl yn cymeradwyo dull gweithredu'r CPS ar gyfer 'ymholiadau rhesymol'

Yn yr achos hwn, fe wnaeth barnwr yn Llys y Goron ddod ag achos i ben ar ôl dyfarnu bod peidio ag atafaelu ffôn symudol achwynydd yn golygu na fyddai'r diffynnydd yn gallu cael treial teg. Apeliodd y CPS yn erbyn y dyfarniad hwn a dyfarnodd y Llys Apêl o blaid y CPS, gan benderfynu y byddai treial teg wedi bod yn bosibl.

Yn bwysig, cymeradwyodd y Llys Apêl ganllawiau'r CPS ar ymholiadau rhesymol, gan ddweud eu bod yn 'accurately…set out the considerations that investigators should have in mind when deciding what enquiries should be made during investigations into allegations of sexual offences'.' Cyflwynodd y Llys ganllawiau a oedd yn pwysleisio nad yw atafaelu ffôn yn ymholiad rhesymol ym mhob achos yn awtomatig. Ni ddylid archwilio ffonau fel mater o drefn, nac ar sail damcaniaeth, ond ar sail y ffeithiau ym mhob achos unigol.

**Rhoi cymorth i ddioddefwr agored i niwed**

Cafodd dioddefwr â phroblemau iechyd meddwl ac anawsterau dysgu, a oedd yn byw mewn lleoliad byw â chymorth, help gan weithiwr cymorth a chyfryngwr i'w galluogi i roi disgrifiad llawn o'r trais rhywiol. Roedd hi wedi recordio rhywfaint o'r digwyddiad ar ei ffôn symudol, a chafodd hyn ei ddefnyddio fel tystiolaeth ar gyfer cyhuddiadau o drais rhywiol ac ymosodiad drwy dreiddio.

Cynigiodd y diffynnydd bledion dieuog, gan awgrymu bod y dioddefwr wedi cydsynio. Trefnwyd mesurau arbennig, ar ffurf cyswllt byw, er mwyn i'r dioddefwr roi tystiolaeth, ond yn y pen draw nid oedd angen amdanynt gan fod y diffynnydd wedi cynnig pledion derbyniol ar ddiwrnod y treial.

Gyda chymorth yr heddlu a'i gweithiwr cymorth, daeth y dioddefwr i'r gwrandawiad terfynol i ddarllen ei datganiad personol dioddefwr. Cafodd y diffynnydd ddedfryd o saith mlynedd

# Troseddau rhywiol (ac eithrio trais rhywiol)

## Cyd-destun

Mae amrywiaeth o droseddau y gellir eu hystyried yn droseddau rhywiol, lle mae person yn cael ei orfodi, yn gorfforol weithiau, i gymryd rhan yn erbyn ei ewyllys pan fydd person, gwrywaidd neu fenywaidd, yn cyffwrdd â pherson arall mewn ffordd rywiol heb ei ganiatâd. Yr hyn sy'n gyffredin ymysg yr holl droseddau hyn yw eu bod yn gallu arwain at ganlyniadau dinistriol i ddioddefwyr.

Ceir cydnabyddiaeth fod llawer o ddioddefwyr troseddau rhywiol, gan gynnwys trais rhywiol, yn blant ac felly mae'r troseddau'n cael eu fflagio fel cam-drin plant – felly mae data ar drais rhywiol, ar droseddau rhywiol ac ar gam-drin plant yn rhywiol yn gorgyffwrdd.

## Data a dadansoddiad allweddol y CPS

Dolen yma i'r data llawn ar droseddau rhywiol ar dudalennau A28–A32 yr adra ddata lle mae pum mlynedd o ddata wedi'u darparu. Mae'r data a ddarperir isod ac yn adran data'r adroddiad yn ymwneud â'r holl ddiffynyddion troseddau rhywiol, waeth beth fo'u rhyw.

Nid yw cofnodion y CPS yn cynnwys manylion am benderfyniadau cyn cyhuddo mewn cysylltiad â throseddau rhywiol (ac eithrio trais rhywiol), ac felly nid yw'n bosibl darparu data ar atgyfeiriadau'r heddlu neu ddiffynyddion a gafodd eu cyhuddo. Yn 2018-19, roedd nifer yr erlyniadau a'r euogfarnau am droseddau rhywiol (ac eithrio trais rhywiol) yn is na'r flwyddyn flaenorol. Bu cynnydd yn y gyfradd euogfarnau ar ôl treial. Mae'r data allweddol yn cynnwys:

- Fe wnaeth yr erlyniadau a gafodd eu cwblhau ostwng o 12,005 yn 2017-18 i 10,127 yn 2018-19 – cwymp o 15.6%.
- Fe wnaeth yr euogfarnau ostwng o 9,654 yn 2017-18 i 8,238 yn 2018-19 – cwymp o 14.7%.
- Fe wnaeth y gyfradd euogfarnu gynyddu o 80.4% yn 2017-18 i 81.3% yn 2018-19 – y gyfradd uchaf a gofnodwyd erioed; fe wnaeth yr euogfarnau ar ôl treial (ac eithrio pledion cymysg)[21] gynyddu 1.8 pwynt canran i 55.1%.

## Camau gweithredu yr ydym wedi'u cymryd i wella perfformiad erlyniadau

- Mae CPS wedi adnewyddu canllawiau cyfreithiol RASSO i gynnwys diweddariadau ar A.41 Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999, Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol a'r hyn sy'n cael ei alw'n sbecian dan sgerti neu 'upskirting'[22].
- Cafodd y cynlluniau peilot ar gyfer croesholi drwy recordydd fideo cyn y treial, i bob tyst agored i niwed[23] ar draws y system cyfiawnder troseddol, eu hymestyn i chwe Llys y Goron.
- Cafodd cynllun peilot ei gyflwyno ar gyfer tystion 'sy'n cael eu bygwth' (wedi'i gyfyngu i a.17.4 y Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol) mewn achosion o droseddau rhywiol neu gaethwasiaeth fodern[24].

## Blaenoriaethau'r dyfodol

- Bydd y CPS yn parhau i ymgysylltu â phartneriaid yn y system cyfiawnder troseddol wrth gyflwyno'r defnydd o recordydd fideo i groesholi achwynwyr cyn y treial, a fydd yn helpu i leihau'r oedi a'r trawma sy'n gysylltiedig â rhoi tystiolaeth.

---

[21] Mae 'ac eithrio pledion cymysg' yn golygu achosion diffynyddion lle mai dim ond pledion 'dieuog' sy'n cael eu cynnig i bob cyhuddiad, ac mae treial yn dilyn.

[22] Ychwanegwyd adran newydd, 67A, i Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 yn sgil Deddf Voyeuriaeth (Troseddau) 2019.

23 Parhaodd y cynllun peilot gwreiddiol yn Llysoedd y Goron Leeds, Lerpwl a Kingston-Upon-Thames. Dechreuwyd ar 'don gyntaf' y broses o ehangu'r cynlluniau'n genedlaethol fis Mehefin 2019 yn y chwe Llys y Goron ychwanegol yn Bradford, Caerliwelydd, Caer, Durham, yr Wyddgrug a Sheffield. Mae'r partneriaid yn cynnwys y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu/yr Heddlu, y CPS, y Swyddfa Farnwrol, yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, y Bar a Chymdeithas y Cyfreithwyr.

[24] Dechreuodd y cynllun peilot yn y tri safle cynlluniau peilot presennol sef Lerpwl, Leeds a Kingston-Upon-Thames. Mae'r Gorchymyn Cychwyn llawn ar gael yma. Mae'r partneriaid yr un fath â'r cynlluniau peilot gwreiddiol.

- Mae'r gwaith sydd wedi'i amlinellu yn yr adran trais rhywiol uchod hefyd yn berthnasol i droseddau rhywiol difrifol, ac eithrio trais rhywiol.

**Diogelu menywod ifanc a merched**

Cafodd diffynnydd ddedfryd o chwe blynedd o garchar a Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol am gyfnod amhenodol ar ôl cael ei ddyfarnu'n euog o gyffwrdd menywod ifanc a merched mewn ffordd amhriodol (*groping*) ar yr oriau teithio brig.

Yn wyneb tystiolaeth gan dystion a chlipiau teledu cylch cyfyng, fe wnaeth y diffynnydd gyfaddef 14 ymosodiad rhywiol ar wahân dros gyfnod o flwyddyn. Ymysg y rhain roedd tri chyhuddiad o ymosod yn rhywiol ar blentyn dan 13 oed.

# Yr hyn a elwir yn gam-drin 'ar sail anrhydedd', priodas dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod

## Cyd-destun

Mae'r hyn a elwir yn gam-drin 'ar sail anrhydedd' yn drosedd sydd wedi'i chyflawni i warchod neu amddiffyn yr hyn a elwir yn 'anrhydedd' y teulu a/neu'r gymuned. Mae'r hyn a elwir yn gam-drin 'ar sail anrhydedd'.[25] yn gallu bod yn gyfres o arferion sy'n cael eu defnyddio i reoli ymddygiad o fewn teuluoedd neu grwpiau cymdeithasol eraill i warchod credoau crefyddol a diwylliannol canfyddedig a/neu anrhydedd. Mae camdriniaeth 'ar sail anrhydedd' yn torri hawliau dynol ac yn gallu bod yn fath o drais domestig a/neu rywiol. Nid oes, ac ni ellir bod, unrhyw anrhydedd neu gyfiawnhad dros gam-drin hawliau dynol pobl eraill.

Ystyr priodas dan orfod yw priodas lle nad yw un neu'r ddau berson yn cydsynio i'r briodas honno (neu, yn achos pobl ag anableddau dysgu neu lai o allu, yn methu cydsynio) a bod pwysau arnynt, neu fod camdriniaeth yn cael ei defnyddio, i'w gorfodi i briodi. Mae'n fath o gam-drin domestig neu gam-drin plant, ac mae'n torri hawliau dynol. Gall y pwysau sy'n cael ei roi ar bobl i briodi yn erbyn eu hewyllys fod yn bwysau corfforol, emosiynol, seicolegol neu ariannol.

Mae'r troseddau penodol ar gyfer priodas dan orfod dan A121 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 ac A121, torri gorchymyn amddiffyn rhag priodas dan orfod, wedi bod yn eu lle am bum mlynedd erbyn hyn. Mae'r adroddiad eleni'n canolbwyntio benodol ar yr erlyniadau hyn.

Mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn derm torfol ar gyfer amrywiaeth o weithrediadau sy'n cynnwys tynnu organau cenhedlu allanol benywod yn llwyr neu'n rhannol am resymau nad ydynt yn rhai meddygol. Mae'n cael ei alw'n enwaediad benywaidd weithiau, neu dorri organau cenhedlu benywod. Mae'r arfer hwn yn feddygol ddiangen, yn boenus ofnadwy ac yn arwain at effeithiau iechyd difrifol, ar adeg cyflawni'r broses anffurfio ac yn nes ymlaen mewn bywyd.

---

[25] Cafodd yr hyn a elwir yn drais 'ar sail anrhydedd' ei newid yn 2018 i'r hyn a elwir yn gam-drin 'ar sail anrhydedd'.

## Data a dadansoddiad allweddol y CPS[26]

**Dolen yma i'r data llawn ar yr hyn a elwir yn gam-drin 'ar sail anrhydedd' yn yr adran ddata**
**Dolen yma i'r data llawn ar briodas dan orfod yn yr adran ddata**
**Dolen yma i'r data llawn ar anffurfio organau cenhedlu menywod yn yr adran ddata**
Mae'r data a ddarperir isod ac yn adran data'r adroddiad yn ymwneud â'r holl ddiffynyddion ac achwynwyr, waeth beth fo'u rhyw.

### Yr hyn a elwir yn gam-drin 'ar sail anrhydedd'

Mae'r adroddiad eleni ddim ond yn canolbwyntio ar ddata 2018-19 ar yr hyn a elwir yn gam-drin 'ar sail anrhydedd', oherwydd roedd proses sicrhau ansawdd ar gyfer y fflagio wedi cydnabod bod angen adolygu a diweddaru'r canllawiau ar gasglu'r data hyn. Cafodd pob achos ei wirio i wneud yn siŵr bod y broses fflagio wedi bod un gadarn.

- Cafodd 80 o benderfyniadau cyn cyhuddo eu cwblhau mewn cysylltiad â cham-drin 'ar sail anrhydedd' yn dilyn atgyfeiriadau gan yr heddlu am droseddau'n ymwneud â'r math hwn o gam-drin. Cafodd 49 o bobl dan amheuaeth eu cyhuddo.
- Cafodd 72 o erlyniadau eu cwblhau yn 2018-19; cafwyd 41 euogfarn a chyfradd euogfarnu o 56.9%.

### Priodas dan orfod

Mae'r adroddiad eleni'n canolbwyntio ar yr erlyniadau am *drosedd* priodas dan orfod yn unig, yn hytrach nag ar bob diffynnydd a gafodd ei fflagio mewn achosion 'priodas dan orfod', oherwydd roedd proses sicrhau ansawdd ar gyfer y fflagio yn 2018-19 wedi cydnabod bod angen adolygu a diweddaru'r canllawiau ar gasglu'r data hyn.

- Yn 2018-19, cyhuddwyd pedair trosedd o briodas dan orfod[27]. O'u plith, cafodd pedwar diffynnydd eu herlyn a chafodd tri euogfarn.
- Roedd wyth erlyniad am drosedd o dorri Gorchymyn Amddiffyn rhag Priodas dan Orfod, gan arwain at wyth diffynnydd yn cael eu herlyn. Cafodd tri o'r rhain euogfarn.

### Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod

- Cafodd dau ddiffynnydd eu herlyn am anffurfio organau cenhedlu benywod; cafodd un euogfarn a'r llall ryddfarn. Hon oedd yr euogfarn gyntaf erioed yng Nghymru a Lloegr.
- Ni chafwyd unrhyw erlyniad am dorri Gorchymyn Amddiffyn rhag Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod.

## Camau gweithredu yr ydym wedi'u cymryd i wella perfformiad erlyniadau

- Cafodd grŵp rhanddeiliaid ar y cyd rhwng yr heddlu a'r CPS ar gyfer cam-drin 'ar sail anrhydedd', priodas dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod ei sefydlu i helpu i wella perfformiad ymchwiliadau ac erlyniadau.
- Cafodd canllawiau cyfreithiol y CPS eu diwygio i gynnwys yr arfer o 'smwddio bronnau', i fynd i'r afael â phriodas dan orfod lle mae gan y dioddefwr llai o allu, e.e. dementia neu anawsterau

[26] Mae nifer isel yr achosion yn dangos bod angen cymryd gofal wrth ddehongli data mewn cysylltiad â'r troseddau hyn.
[27] Dan Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014

dysgu, ac i gynnwys y diffiniad diwygiedig o gam-drin 'ar sail anrhydedd' yn unol â'r diffiniad trawslywodraethol.

- Rydym wedi rhoi cynllun sicrhau ansawdd ar waith i wella'r broses o fflagio achosion o gam-drin 'ar sail anrhydedd' a phriodas dan orfod.
- Rydym wedi creu rhwydwaith unedig o arweinwyr Ardaloedd y CPS ar gyfer cam-drin 'ar sail anrhydedd', priodas dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod, a byddwn yn cynnal galwadau cynadledda rheolaidd â nhw i ddarparu canllawiau a rhannu arferion da.
- Mae canllawiau cyfreithiol y CPS ar anffurfio organau cenhedlu benywod yn cael eu diwygio ac rydym yn ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol i adlewyrchu profiad ymarferol o heriau mewn cysylltiad â'r achosion hyn, ac i ddarparu eglurder ar dyllu'r corff (*piercing*) a llawdriniaeth gosmetig. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r canllawiau diweddaraf yn hydref 2019.
- Rydym wedi cynnal cynadleddau i nodi arferion da a'r gwersi a ddysgwyd o ymchwiliadau ac erlyniadau anffurfio organau cenhedlu benywod, yn enwedig yn Llundain.

## Blaenoriaethau'r dyfodol

- Byddwn yn cynnal gweithdy i gynyddu cydnerthedd a chymorth i erlynwyr sy'n delio ag achosion o'r hyn a elwir yn gam-drin 'ar sail anrhydedd', priodas dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod.
- Byddwn yn darparu proses fflagio gadarn ac yn gwneud yn siŵr bod perfformiad achosion o'r hyn a elwir yn gam-drin 'ar sail anrhydedd' a phriodas dan orfod yn cael ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd. Bydd arweinwyr ardaloedd yn monitro'r broses fflagio bob mis. Bydd adolygiadau chwarterol gan y CPS a'r heddlu yn dadansoddi achosion sydd wedi'u fflagio i wneud yn siŵr bod gennym ymateb cydlynol i'r troseddau hyn o ran ymchwilio ac erlyn.
- Bydd adolygiad ffeiliau achos o euogfarnau am droseddau priodas dan orfod penodol, a ddechreuodd yn 2018-19, yn cael ei gwblhau a bydd pecyn cymorth/canllawiau ar yr arferion gorau yn cael eu datblygu.
- Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i nodi a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n weddill o ran erlyn honiadau o anffurfio organau cenhedlu benywod.
- Mae'r CPS a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu'n gyd-lofnodwyr y ddogfen 'Proclamation of Interagency Support for Female Genital Mutilation/Cutting Investigations between U.K. and U.S. Law Enforcement', a byddwn yn parhau i nodi cyfleoedd i weithio ar y cyd rhwng ein hawdurdodaethau.

**Gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â phriodas dan**

Cafodd cwpl euogfarn o dwyllo eu merch i deithio dramor i'w gorfodi i briodi ei chefnder. Pan wrthododd hi ei briodi, cymerodd ei rhieni ei ffôn oddi wrthi a'i bygwth â thrais. Ymosodwyd arni a bygythiodd ei thad dorri ei gwddf a'i 'thorri'n ddarnau' mewn 18 eiliad – un i bob blwyddyn o'i bywyd – os byddai hi'n gwrthod ufuddhau.

Fe wnaeth Uwch Gomisiwn Prydain dramor, yr Uned Priodasau dan Orfod a'r heddlu dramor weithio gyda'i gilydd i achub y dioddefwr a'i dychwelyd yn ddiogel i'r DU. Cafodd ei thad ddedfryd o bedair blynedd a hanner o garchar, a'i mam tair blynedd a hanner o garchar.

**Yr euogfarn gyntaf am anffurfio organau cenhedlu benywod**

Cafodd mam euogfarn am anffurfio organau cenhedlu benywod yn dilyn treial fis Ionawr 2019. Roedd y CPS wedi ymgysylltu â'r heddlu cyn gynted â phosibl, ychydig ddyddiau ar ôl i'r drosedd ddigwydd.

Roedd rhaid cael llawdriniaeth ar frys o ganlyniad i'r anafiadau. Honnodd y diffynnydd fod y dioddefwr wedi disgyn ar ddrws cwpwrdd wrth estyn am fisgedi, ond ni ddaeth yr heddlu o hyd i dystiolaeth o waed yn yr ardal. Dangosodd tystiolaeth arbenigol nad oedd yr anaf wedi cael ei achosi'n ddamweiniol. Yn hytrach, roedd yn doriad bwriadol a manwl a oedd yn gyfystyr i anffurfio organau cenhedlu benywod.

# Cam-drin plant

## Cyd-destun

Mae cam-drin plant yn cynnwys troseddau corfforol, emosiynol a rhywiol yn erbyn plant, yn ogystal â'u hesgeuluso. Diffinnir plentyn fel unrhyw berson dan 18 oed. Mae cam-drin plant yn rhywiol yn cynnwys gorfodi neu ysgogi plentyn i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol, boed y plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio, ac nid yw'n cynnwys lefel uchel o drais o reidrwydd. Mae dynion a menywod, neu blant eraill yn gallu cam-drin plant; ac mae bechgyn a merched yn gallu dioddef y troseddau hyn.

## Data a dadansoddiad allweddol y CPS

Dolen yma i'r data llawn ar gam-drin plant yn yr adran ddata lle mae pum mlynedd o ddata wedi'u darparu. Mae'r data a ddarperir isod ac yn adran data'r adroddiad yn ymwneud â diffynyddion ac achwynwyr, waeth beth fo'u rhyw.

Sylwch fod yr holl ddata'n cyfeirio at achosion wedi'u fflagio fel cam-drin plant, gydag achosion o gam-drin plant yn rhywiol wedi'u nodi fel unrhyw drosedd rywiol yn cael eu fflagio fel cam-drin plant. O ganlyniad i nifer y troseddau rhywiol a thrais rhywiol yn erbyn plant, mae'r data trais rhywiol, troseddau rhywiol a cham-drin plant yn rhywiol yn gorgyffwrdd.

Yr hyn sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar niferoedd cyhuddo mewn cysylltiad â cham-drin plant, gan gynnwys achosion o gam-drin plant yn rhywiol, yw'r cwymp yn nifer y bobl dan amheuaeth sy'n cael eu hatgyfeirio gan yr heddlu at y CPS am benderfyniad ynghylch cyhuddo, ynghyd â'r cynnydd yn nifer yr achosion lle nad yw'r heddlu'n ymateb i geisiadau'r CPS am ragor o dystiolaeth neu i ymholiadau rhesymol o fewn tri mis (achosion wedi'u terfynu'n weinyddol). Mae'r cyfraddau euogfarnu ar gyfer cam-drin plant a cham-drin plant yn rhywiol wedi cynyddu.

## Mae'r data allweddol yn cynnwys:

- Roedd nifer y bobl dan amheuaeth a gafodd eu hatgyfeirio gan yr heddlu[28] at y CPS am benderfyniad ynghylch cyhuddo wedi cwympo o 9,185 yn 2017-18 i 7,138 yn 2018-19 – cwymp o 22.3%.
- Roedd cyfanswm y penderfyniadau cyn cyhuddo wedi'u cwblhau gan y CPS[29] yn dilyn atgyfeiriadau gan yr heddlu wedi cwympo o 11,986 yn 2017-18 i 10,318 yn 2018-19 – cwymp o 13.9%.
- Roedd cyfran y penderfyniadau cyn cyhuddo a arweiniodd at gyhuddiad wedi cwympo o 63.0% yn 2017-18 i 56.3% yn 2018-19 – cwymp o 6.7 pwynt canran.
- O blith yr holl benderfyniadau cyn cyhuddo cyfreithiol a gafodd eu cwblhau (cyhuddo, peidio â chymryd unrhyw gamau pellach neu ddelio ag achos y tu allan i'r llys), roedd y gyfran cyhuddo wedi cwympo o 72.6% yn 2017-18 i 68.0% yn 2018-19[30] – cwymp o 4.6 pwynt canran.
- Roedd y gyfran a derfynwyd yn weinyddol (achosion lle nad yw'r heddlu'n ymateb i geisiadau gan y CPS am dystiolaeth ychwanegol neu i ymholiadau rhesymol o fewn tri mis) wedi cynyddu o 13.2% i 17.2% – cynnydd o 4.0 pwynt canran.
- Fe wnaeth yr erlyniadau a gafodd eu cwblhau ostwng o 10,704 yn 2017-18 i 8,814 yn 2018-19 – cwymp o 17.7%.

Er bod nifer yr euogfarnau wedi gostwng o 8,350 yn 2017-18 i 6,971 yn 2018-19 – cwymp o 16.5%, fe wnaeth gyfradd euogfarnu godi o 78.0% yn 2017-18 i 79.1% yn 2018-19 – cynnydd o 1.1%; fe wnaeth y gyfradd euogfarnau ar ôl treial (ac eithrio pledion cymysg)[31] gynyddu 4.0 pwynt canran i 60.3%.

## Ymysg y diffynyddion mewn achosion sydd wedi'u fflagio fel cam-drin plant, mae'r data allweddol sy'n ymwneud yn benodol â cham-drin plant yn rhywiol yn cynnwys:

- Fe wnaeth yr erlyniadau a gafodd eu cwblhau ar gyfer troseddau cam-drin plant yn rhywiol ostwng o 6,378 yn 2017-18 i 5,091 yn 2018-19 – cwymp o 20.2%.
- Fe wnaeth yr euogfarnau am droseddau cam-drin plant yn rhywiol ostwng o 4,878 yn 2017-18 i 4,023 yn 2018-19 – cwymp o 17.5%.

---

[28] Cyn 2018-19, roedd y data ar 'benderfyniadau cyn cyhuddo' wedi'u cwblhau gan y CPS yn cael eu hadrodd fel 'atgyfeiriadau'r heddlu' yn yr adroddiad VAWG. Mae adroddiad 2018-19 hwn yn defnyddio terminoleg wahanol i egluro'r data. Mae'n darparu dwy set ddata – (i) achosion yn cael eu 'derbyn cyn cyhuddo' – nifer y bobl dan amheuaeth sy'n cael eu hatgyfeirio at y CPS gan yr heddlu am benderfyniad ynghylch cyhuddo a (ii) 'penderfyniadau cyn cyhuddo wedi'u cwblhau gan y CPS (a elwir yn 'atgyfeiriadau'r heddlu' o'r blaen) sef penderfyniad gan y CPS i gyhuddo, i beidio â chymryd unrhyw gamau pellach, i argymell penderfyniad y tu allan i'r llys, i derfynu'n weinyddol neu 'arall'.[1] Mae nifer y derbyniadau cyn cyhuddo y mae'r heddlu'n eu hatgyfeirio'n dibynnu ar (a) yr heddlu yn nodi ac yn fflagio'r achosion, yn ôl y sawl sydd dan amheuaeth, cyn eu hatgyfeirio at y CPS a (b) gweinyddwyr y CPS yn nodi ac yn fflagio'r achosion hynny ar System Rheoli Gwaith Achos y CPS, lle maen nhw'n cael eu cofrestru yn y lle cyntaf.

[29] Bydd nifer y penderfyniadau cyn cyhuddo wedi'u cwblhau gan y CPS yn gyfanswm y rheini sy'n cael eu hatgyfeirio gan yr heddlu (wedi'u fflagio gan yr heddlu a'r CPS wrth eu cofrestru) a'r rheini sy'n cael eu fflagio gan erlynwyr a gweinyddwyr y CPS yn nes ymlaen, ond cyn cwblhau'r penderfyniad cyn cyhuddo terfynol. Bydd y data ar gyfanswm y penderfyniadau cyn cyhuddo'n seiliedig ar y dyddiad y cafodd y cyngor cyhuddo ei gwblhau a'i ddarparu i'r heddlu. Felly, efallai y bydd data 2018-19 yn cynnwys penderfyniadau cyn cyhuddo ar gyfer achosion a atgyfeiriwyd gan yr heddlu at y CPS yn 2018-19, yn 2017-18 neu'n gynharach. Mae hyn yn esbonio pam mae nifer y penderfyniadau cyn cyhuddo'n uwch na nifer y derbyniadau cyn cyhuddo o fewn yr un cyfnod.

[30] Gweler yr esboniad o'r newid yn y dull o adrodd y ganran cyhuddo yn adran data'r adroddiad.

[31] Mae 'ac eithrio pledion cymysg' yn golygu achosion diffynyddion lle mai dim ond pledion 'dieuog' sy'n cael eu cynnig i bob cyhuddiad, ac mae treial yn dilyn.

- Roedd y gyfradd euogfarnu wedi cynyddu o 76.5% yn 2017-18 i 79.0% yn 2018-19 (2.5 pwynt canran); roedd yr euogfarnau ar ôl treial (ac eithrio pledion cymysg)[32] wedi cynyddu 5.8 pwynt canran i 61.5%.

## Camau gweithredu yr ydym wedi'u cymryd i wella perfformiad erlyniadau

- Rydym wedi sefydli fforwm rhanddeiliaid ynghylch cam-drin plant yn rhywiol i nodi unrhyw welliannau posibl i berfformiad erlyniadau.
- Mae'r CPS wedi gweithio gyda Chanolfan Cydlynu Bregusrwydd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu i roi sylw i welliannau pellach yn yr ymateb i gam-drin plant yn rhywiol.
- Mae'r CPS wedi parhau i gyd-gadeirio'r Panel Adolygu Cam-drin Plant yn Rhywiol ac wedi datblygu modiwlau e-ddysgu ar feithrin perthynas amhriodol (*grooming*) i erlynwyr.
- Datblygodd y CPS ganllawiau cyfreithiol i erlynwyr ar erlyn achosion sy'n cynnwys doliau rhyw tebyg i blant ac i fynd i'r afael â'r trefniadau diogelu newydd. Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys manylion am brofiadau dioddefwyr gwrywaidd a'r cymorth sydd ar gael iddynt.
- Rydym wedi cyhoeddi canllawiau o'r enw 'Vigilantes on the Internet - cases of Child Sexual Abuse' ar gyfer swyddogion cudd a chanllawiau mwy diweddar ar drefnu neu hwyluso trosedd rhyw â phlant yn groes i adran 14 Deddf Troseddau Rhywiol 2003.
- Roedd y CPS wedi darparu deunydd a datganiadau tystion i'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol[33].
- Rydym wedi gweithio gyda'r Cyngor Dedfrydu ar ddiwygio'r Canllawiau Dedfrydu 'Cruelty to a Child and Causing or Allowing the Death or Serious Injury to a Child'.
- Mae'r CPS wedi gweithio gyda phartneriaid yn y system cyfiawnder troseddol i ddatblygu 'The Lighthouse' – y cyfleuster cyntaf erioed i ddioddefwyr ifanc cam-drin rhywiol allu cael gafael ar gymorth meddygol, ymchwiliol ac emosiynol dan yr unto. Mae'r cynllun peilot dwy flynedd wedi cael ei ariannu gan fuddsoddiad ar y cyd gwerth £8m gan Swyddfa'r Maer ar gyfer Plismona a Throseddu, y Swyddfa Gartref, NHS England a'r Adran Addysg. Cafwyd dros £1m o gyllid ychwanegol gan bartneriaeth rhwng Morgan Stanley a'r Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (yr NSPCC).
- Cymerodd y CPS ran yng ngweithgor Comisiwn yr UE i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol, gan gyfrannu at drafodaethau ynghylch y prif heriau a rhannu arferion da.

## Blaenoriaethau'r dyfodol

- Bydd y CPS yn gweithio gyda'r Adran Addysg a phartneriaid eraill yn y system cyfiawnder troseddol i edrych ar y drosedd arfaethedig 'Cuddio Cam-drin Plant yn Fwriadol'.
- Bydd y CPS yn parhau i weithio gyda'r Fforwm Rhanddeiliaid ynghylch Cam-drin Plant yn Rhywiol i gael dealltwriaeth o'r themâu sy'n dod i'r amlwg, yn enwedig y materion a allai godi drwy'r defnydd o dechnoleg newydd.
- Byddwn yn datblygu cwrs hyfforddi i erlynwyr ar dechnoleg newydd sy'n cael ei defnyddio i gam-drin plant yn rhywiol.

---

[32] Mae 'ac eithrio pledion cymysg' yn golygu achosion diffynyddion lle mai dim ond pledion 'dieuog' sy'n cael eu cynnig i bob cyhuddiad, ac mae treial yn dilyn.

[33] Rhoddodd y CPS dystiolaeth fyw i'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol ar gyfer pump o'u hymchwiliadau: Yr Eglwys Anglicanaidd, Cynghorau Swydd Nottingham, yr Eglwys Gatholig, San Steffan ac Amddiffyn Plant y tu allan i ffrwd y DU. Fe wnaethom hefyd gyfrannu at y gwrandawiadau cyhoeddus yn ffrwd Atebolrwydd a Gwneud Iawn yr Ymchwiliad ac rydym yn parhau i ddarparu'r Ymchwiliad â gwybodaeth berthnasol mewn cysylltiad â gweddill eu hymchwiliadau.

- Bydd y CPS yn cyflawni prosiect ar droseddu Rhwng Cyfoedion (gyda'r nod o ddeall ymddygiadau a datblygiad ymysg y glasoed) i lywio a datblygu arferion erlyn.
- Bydd y CPS yn parhau i weithio gyda phartneriaid yn y system cyfiawnder troseddol i gwblhau'r cynllun peilot 'The Lighthouse' a'i werthuso, a bydd Swyddfa'r Maer ar gyfer Plismona a Throseddu'n gweithio gyda phartneriaid i archwilio cyfleoedd cyllido yn y dyfodol i wneud yn siŵr y gall y cyfleuster unigryw hwn barhau i ddarparu'r gwasanaeth arloesol hwn y tu hwnt i'w gyfnod peilot dwy flynedd.

**Cam-drin plant yn rhywiol yn y gorffennol**

Cafodd dau diffynnydd euogfarn o ymosod ar fechgyn ifanc mewn cartrefi plant yn yr 1970au a'r 1980au. Cafodd un ddedfryd o wyth mlynedd o garchar am ymosodiad anweddus ar dri dioddefwr. Roedd wedi bod yn gweithio yn y cartrefi preswyl adeg y troseddau. Roedd ei ddioddefwyr wedi gallu ei adnabod drwy ei ymddangosiad unigryw, ei ddiddordeb mewn chwarae piano, a'i enw.

Cafodd y diffynnydd arall euogfarn o ymosodiad anweddus ar un dioddefwr a dedfryd o bedair blynedd o garchar. Ar yr adeg, roedd wedi bod yn gweithio fel pennaeth y ganolfan ac roedd wedi gweithio fel cwnstabl gwirfoddol rhan-amser cyn hynny. Roedd yr ail ddiffynnydd hefyd wedi cael euogfarnau am droseddau tebyg yn erbyn plant eraill dan ei ofal mewn cartrefi gwahanol – cafodd yr euogfarnau hyn eu defnyddio fel tystiolaeth ategol yn ystod y treial.

**Rhagor o euogfarnau am gamfanteisio'n rhywiol yn Rotherham**

Cafodd dyn a oedd wedi cam-drin tair merch yn rhywiol yn yr 1990au ddedfryd o 25 mlynedd o garchar am drais rhywiol, gwir niwed corfforol a bygythiadau i ladd. Cafodd ei euogfarnu fel rhan o ymchwiliad yr Asiantaeth Troseddu Genedlaethol i'r honiadau o gam-drin rhywiol yn Rotherham.

Roedd ei ddioddefwr cyntaf yn 13 oed ac yng ngofal gwasanaethau cymdeithasol pan gamfanteisiodd arni a'i cham-drin. Roedd ef yn 22 oed ar y pryd. Rhai blynyddoedd yn

# Caethwasiaeth fodern a masnachu pobl

## Cyd-destun

Mae caethwasiaeth fodern yn derm ymbarél sy'n cynnwys y troseddau masnachu pobl a caethwasiaeth, caethwasanaeth, llafur gorfodol neu drwy rym, fel y nodir mewn gwahanol ddeddfwriaethau gwrth-gaethwasiaeth. Mae caethwasiaeth fodern yn aml yn cynnwys mwy nag un dioddefwr, troseddwr a lleoliad, ac mae'n aml yn gudd ac yn cynnwys neu'n digwydd ochr yn ochr ag amrywiaeth eang o gam-drin a throseddau eraill. Mae caethwasiaeth fodern yn cael effaith ddinistriol a pharhaol ar ddioddefwyr. Nid oes lle yn ein cymdeithas i'r rheini sy'n caethiwo pobl eraill, boed hynny ar gyfer gwaith, camfanteisio troseddol neu rywiol, neu gaethwasanaeth domestig.

## Data a dadansoddiad allweddol y CPS

Dolen yma i'r data llawn ar gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl ar dudalen A44 yr adra ddata lle mae pum mlynedd o ddata wedi'u darparu. Mae'r data a ddarperir isod ac yn adran data'r adroddiad yn ymwneud â'r holl ddiffynyddion ac achwynwyr, waeth beth fo'u rhyw neu rywedd.

Mae nifer isel yr achosion wedi'u fflagio yn dangos bod angen cymryd gofal wrth ddehongli'r data hyn mewn cysylltiad â'r troseddau a amlinellir isod.

Yr hyn sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar niferoedd cyhuddo mewn cysylltiad ag achosion o gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl yw'r cwymp yn nifer y bobl dan amheuaeth sy'n cael eu hatgyfeirio gan yr heddlu at y CPS am benderfyniad ynghylch cyhuddo, ynghyd â'r cynnydd yn nifer yr achosion lle nad yw'r heddlu'n ymateb i geisiadau'r CPS am ragor o dystiolaeth neu i ymholiadau rhesymol o fewn tri mis (achosion wedi'u terfynu'n weinyddol).

Roedd nifer y troseddau, yn hytrach na'r diffynyddion, a erlynwyd wedi codi o 340 i 445, gyda nifer y dioddefwyr a'r tystion ar gyfartaledd yn codi i 11.6 fesul achos, o'i gymharu â 10.6 yn y flwyddyn flaenorol. Efallai fod nifer uchel y dioddefwyr yn arwydd o gymhlethdod cynyddol yr achosion hyn dan erlyniad, a allai gynyddu'r amser mae'n ei gymryd i'w cwblhau ar ôl dyddiad y drosedd.

Roedd yr euogfarnau wedi codi o 185 yn 2017-18 i 219 yn 2018-19 – cynnydd o 18.4%, ac roedd y gyfradd euogfarnu wedi codi o 65.1% yn 2017-18 i 68.0% yn 2018-19 – cynnydd o 2.9%.

**Mae'r data allweddol yn cynnwys:**

- Roedd nifer y bobl dan amheuaeth a gafodd eu hatgyfeirio gan yr heddlu[34] at y CPS am benderfyniad ynghylch cyhuddo wedi cwympo o 293 yn 2017-18 i 205 yn 2018-19 – cwymp o 30.0%.
- Roedd cyfanswm y penderfyniadau cyn cyhuddo wedi'u cwblhau gan y CPS[35] yn dilyn atgyfeiriadau'r heddlu wedi cwympo ychydig o 355 yn 2017-18 i 340 yn 2018-19 – cwymp o 15 (4.2%).
- Roedd cyfran y penderfyniadau cyn cyhuddo a arweiniodd at gyhuddiad wedi cwympo o 67.3% yn 2017-18 i 60.3% yn 2018-19 – cwymp o 7.0 pwynt canran.
- O blith yr holl benderfyniadau cyn cyhuddo cyfreithiol a gafodd eu cwblhau (cyhuddo, peidio â chymryd unrhyw gamau pellach neu ddelio ag achos y tu allan i'r llys), roedd y gyfran cyhuddo wedi cwympo o 77.9% yn 2017-18 i 75.1% yn 2018-19[36] – cwymp o 2.8 pwynt canran.

---

[34]Cyn 2018-19, roedd y data ar 'benderfyniadau cyn cyhuddo' wedi'u cwblhau gan y CPS yn cael eu hadrodd fel 'atgyfeiriadau'r heddlu' yn yr adroddiad VAWG. Mae adroddiad 2018-19 hwn yn defnyddio terminoleg wahanol i egluro'r data. Mae'n darparu dwy set ddata – (i) achosion yn cael eu 'derbyn cyn cyhuddo' – nifer y bobl dan amheuaeth sy'n cael eu hatgyfeirio at y CPS gan yr heddlu am benderfyniad ynghylch cyhuddo a (ii) 'penderfyniadau cyn cyhuddo wedi'u cwblhau gan y CPS (a elwir yn 'atgyfeiriadau'r heddlu' o'r blaen) sef penderfyniad gan y CPS i gyhuddo, i beidio â chymryd unrhyw gamau pellach, i argymell penderfyniad y tu allan i'r llys, i derfynu'n weinyddol neu 'arall'.[1] Mae nifer y derbyniadau cyn cyhuddo y mae'r heddlu'n eu hatgyfeirio'n dibynnu ar (a) yr heddlu yn nodi ac yn fflagio'r achosion, yn ôl y sawl sydd dan amheuaeth, cyn eu hatgyfeirio at y CPS a (b) gweinyddwyr y CPS yn nodi ac yn fflagio'r achosion hynny ar System Rheoli Gwaith Achos y CPS, lle maen nhw'n cael eu cofrestru yn y lle cyntaf.

[35] Bydd nifer y penderfyniadau cyn cyhuddo wedi'u cwblhau gan y CPS yn gyfanswm y rheini sy'n cael eu hatgyfeirio gan yr heddlu (wedi'u fflagio gan yr heddlu a'r CPS wrth eu cofrestru) a'r rheini sy'n cael eu fflagio gan erlynwyr a gweinyddwyr y CPS yn nes ymlaen, ond cyn cwblhau'r penderfyniad cyn cyhuddo terfynol. Bydd y data ar gyfanswm y penderfyniadau cyn cyhuddo'n seiliedig ar y dyddiad y cafodd y cyngor cyhuddo ei gwblhau a'i ddarparu i'r heddlu. Felly, efallai y bydd data 2018-19 yn cynnwys penderfyniadau cyn cyhuddo ar gyfer achosion a atgyfeiriwyd gan yr heddlu at y CPS yn 2018-19, yn 2017-18 neu'n gynharach. Mae hyn yn esbonio pam mae nifer y penderfyniadau cyn cyhuddo'n uwch na nifer y derbyniadau cyn cyhuddo o fewn yr un cyfnod.

- Roedd y gyfran a derfynwyd yn weinyddol (achosion lle nad yw'r heddlu'n ymateb i geisiadau gan y CPS am dystiolaeth ychwanegol neu i ymholiadau rhesymol o fewn tri mis) wedi codi o 13.5% i 19.4% – cynnydd o 5.9 pwynt canran.
- Fe wnaeth yr erlyniadau a gafodd eu cwblhau godi o 284 yn 2017-18 i 322 yn 2018-19 – cynnydd o 13.4%.
- Fe wnaeth yr euogfarnau godi o 185 yn 2017-18 i 219 yn 2018-19 – cynnydd o 18.4%.
- Roedd y gyfradd euogfarnu wedi codi o 65.1% yn 2017-18 i 68.0% yn 2018-19 (2.9 pwynt canran).

## Camau gweithredu yr ydym wedi'u cymryd i wella perfformiad erlyniadau

- Mae'r CPS wedi parhau i weithio gyda thimau gorfodi'r gyfraith ac adrannau eraill y llywodraeth i gefnogi tasglu caethwasiaeth fodern y Prif Weinidog.
- Rydym wedi gweithio'n rhagweithiol gyda'r heddlu i gynyddu nifer yr achosion cadarn a lleihau'r angen i ddibynnu ar dystiolaeth achwynwyr agored i niwed.
- Mae ein canllawiau cyfreithiol wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu proffil caethwasiaeth fodern a chyfraith achosion, sy'n newid.
- Rydym wedi darparu digwyddiadau hyfforddi i'n herlynwyr, gan gynnwys arferion da wrth erlyn achosion caethwasiaeth fodern a diweddariadau ar yr amddiffyniad statudol ar gyfer dioddefwyr camfanteisio troseddol sydd wedi cael eu masnachu.

## Blaenoriaethau'r dyfodol

- Bydd y CPS yn parhau i gefnogi'r ymateb trawslywodraethol ar lefel ddomestig a rhyngwladol.
- Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Gartref ar ddiwygio'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol i sefydlu proses i wella cydweithrediad dioddefwyr a chymorth parhaus.
- Byddwn yn ceisio cynnal neu wella'r lefelau o gydweithrediad gyda gwledydd yr UE ar ôl gadael yr UE, a hynny drwy ymrwymo i drefniadau dwyffordd a gwella'r cysylltiadau rhwng Ardaloedd ac Is-adran Ryngwladol/Uned Estraddodi'r CPS.

[36] Gweler yr esboniad o'r newid yn y dull o adrodd y ganran cyhuddo yn adran data'r adroddiad (add link).

**Mynd i'r afael â masnachu pobl er mwyn camfanteisio arnynt yn rhywiol**

Cafodd diffynnydd euogfarn am bum trosedd o fasnachu pobl er mwyn camfanteisio arnynt yn rhywiol ac un drosedd o wyrdroi cwrs cyfiawnder. Cafodd ddedfryd o 14 blynedd o garchar. Cafodd y ddedfryd ei chynyddu ar apêl i 18 mlynedd o garchar.

Cafodd pump o fenywod ifanc, agored i niwed eu masnachu o Nigeria i'r Almaen, lle cawsant eu gorfodi i gymryd rhan mewn puteindra. Cyn iddynt adael, cafodd y dioddefwyr eu gorfodi i dyngu llw mewn seremoni fwdw lle roedd yn rhaid iddynt addo ad-dalu'r €38,000 yr oedd yn ddyledus ganddynt am y teithio, yn ogystal â pheidio â rhoi gwybod i'r heddlu a pheidio â dianc. Wedyn cawsant eu gorfodi i fynd ar daith beryglus ar y tir drwy Libya. Yn ystod y profiad dychrynllyd hwn, cafodd un menyw ei threisio. Daeth hi'n feichiog o ganlyniad i hynny ac roedd yn rhaid iddi dalu am ei herthyliad ei hun cyn gorfod gweld rhagor o gamdrinwyr ar yr un diwrnod.

Cafodd y diffynnydd, dinesydd Prydeinig, ei harestio yn Llundain. Yn ystod ei threial, rhoddwyd tystiolaeth gan dystion yn yr Almaen drwy gyswllt fideo. Er mwyn i'r dioddefwyr allu teimlo'n ddiogel wrth roi tystiolaeth, trefnodd yr erlyniad bod offeiriad fwdw'n gwrthdroi'r llw a'r melltithion a oedd arnynt.

Hwn oedd yr achos cyntaf i gael ei erlyn dan y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern yn cynnwys dioddefwyr heb unrhyw gysylltiad â'r DU, ond a oedd wedi dioddef dan law gwladolyn y DU.

# Puteindra

## Cyd-destun

Mae'r CPS yn canolbwyntio ar erlyn y rheini sy'n gorfodi pobl eraill i gymryd rhan mewn puteindra ac camfanteisio arnynt, eu cam-drin a'u niweidio. Ein dull gweithredu ar y cyd â'r heddlu, gyda chymorth asiantaethau eraill, yw helpu'r rheini sy'n cymryd rhan mewn puteindra i ddod o hyd i ffordd o ddianc.

## Data a dadansoddiad allweddol y CPS

Dolen yma i'r data llawn ar buteindra ar dudalen A53–2 yr adra ddata lle mae pum mlynedd o ddata wedi'u darparu. Mae'r data a ddarperir isod ac yn adran data'r adroddiad yn ymwneud â'r holl droseddau, waeth beth fo rhyw'r diffynnydd neu'r achwynydd.

Mae'r holl ddata isod yn cyfeirio at nifer y troseddau lle dechreuwyd erlyniadau ac a gyrhaeddodd wrandawiad cyntaf mewn llys ynadon.

- Fe wnaeth troseddau o achosi, ysgogi neu reoli puteindra er elw ostwng o 96 yn 2017-18 i 68 yn 2018-19.
- Fe wnaeth troseddau o gadw puteindy aros yn sefydlog (74).
- Fe wnaeth troseddau o hel puteiniaid o gerbyd ostwng o 106 yn 2017-18 i 77 yn 2018-19.
- Fe wnaeth y troseddau stryd godi ychydig, o 57 i 69.

### Camau gweithredu yr ydym wedi'u cymryd i wella perfformiad erlyniadau

- Mae'r CPS wedi diweddaru'r canllawiau cyfreithiol ar erlyn trefniadau 'rhyw am rent' mewn amgylchiadau lle mae'n amlwg bod achos o gamfanteisio ar buteindra er elw.
- Rydym wedi cyfrannu at waith parhaus gyda Gwefannau Gwasanaethau i Oedolion i ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth i gefnogi erlyniadau troseddau, sy'n gysylltiedig â'n gwaith ar gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl.
- Mae'r CPS wedi cyfrannu at ddatblygiad y ddogfen ddiwygiedig 'National Policing Sex Work and Prostitution Guidance'.

### Blaenoriaethau'r dyfodol

- Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith sy'n deillio o'r Gweithgor Cenedlaethol ar waith rhyw/puteindra, sy'n cael ei gadeirio gan Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu.
- Byddwn yn gwneud cysylltiadau perthnasol â pholisïau masnachu pobl a datblygiadau o ran troseddau cyffuriau a rhai sy'n ymwneud â gangiau, lle mae camfanteisio rhywiol yn nodwedd.

**Rheoli puteindra er elw**

Cafodd y diffynnydd ei euogfarnu am droseddau'n cynnwys trais rhywiol, ymddygiad sy'n rheoli ac yn gorfodi, a rheoli puteindra er elw. Cafodd ddedfryd o 17 mlynedd o garchar gyda thrwydded estynedig am dair blynedd.

Roedd y dioddefwr wedi cael ei masnachu i'r DU o Rwmania at ddibenion camfanteisio rhywiol. Cyn teithio i'r DU, roedd y diffynnydd wedi ei gorfodi i weithio fel putain yn Rwmania. Pan wrthododd hi, ymosodwyd arni sawl gwaith. Ymosododd ar ei phlant ifanc hefyd, gan gynnwys eu taflu allan i'r eira. Pan wrthododd hi deithio i Loegr gydag ef yn y lle cyntaf, bygythiodd y byddai'n lladd ei phlant.

Cafodd Gwarant Arestio Ewropeaidd ei threfnu ar ôl i'r diffynnydd ffoi o'r wlad yn ystod yr achos. Roedd yr achos cymhleth hwn yn cynnwys gwaith ar y cyd rhwng y CPS a'r heddlu lleol yn Rwmania.

## Troseddau pornograffi, anweddustra a chyfathrebu

### Cyd-destun

Mae'r troseddau hyn yn ymwneud â delweddau sy'n ddychrynllyd o atgas, ffiaidd neu anweddus. Gall hyn gynnwys delweddau o drais eithafol, anffurfio neu weithgarwch rhywiol. Mae'r hyn a elwir yn 'bornograffi dial' yn ymwneud â ffotograffau a ffilmiau rhywiol preifat o berson sydd wedi cael eu datgelu heb eu cydsyniad, gyda'r bwriad o achosi gofid i'r unigolyn hwnnw. Gall delweddau o'r fath gael eu llwytho i fyny i'r rhyngrwyd, gan gyn-bartner y person yn aml, a hynny i achosi gofid, cywilydd neu embaras i'r person hwnnw.

Mae'n drosedd tynnu, neu caniatáu i rywun dynnu, gwneud, meddu, dangos, dosbarthu, neu gyhoeddi delwedd o blentyn mewn ystum anweddus neu wedi'i ddarlunio'n anweddus, er enghraifft mewn ffordd rywiol.

Nid yw 'gwneud' delwedd anweddus yn cyfeirio'n unig at berson yn tynnu llun neu fideo – gall hefyd gyfeirio at berson yn llwytho delwedd anweddus i lawr neu ei hargraffu, neu'n agor atodiad e-bost sy'n cynnwys delwedd anweddus.

## Data a dadansoddiad allweddol y CPS

Dolen yma i'r data llawn ar droseddau pornograffi, anweddustra a chyfathrebu ar dudalennau A54 yr adra ddata lle mae pum mlynedd o ddata wedi'u darparu. Mae'r data a ddarperir isod ac yn adran data'r adroddiad yn ymwneud â'r holl droseddau, waeth beth fo rhyw'r diffynnydd neu'r achwynydd.

Mae'r holl ddata isod yn cyfeirio at nifer y troseddau lle dechreuwyd erlyniadau a gyrhaeddodd wrandawiad cyntaf mewn llys ynadon.

Roedd troseddau delweddau o gam-drin plant wedi cwympo o 15,055 yn 2017-18 i 11,096 yn 2018-19. Fodd bynnag, roedd y CPS wedi gallu erlyn pobl dan amheuaeth yn fwy effeithlon gan ddefnyddio llai o ddelweddau. Yn 2014-15, nifer y troseddau fesul achos ar gyfartaledd oedd 8. Yn 2018-19, roedd y ffigur yn 3.6. Roedd y rhain yn cynnwys cwymp yn nifer y troseddau camfanteisio'n rhywiol ar blant drwy ffotograffau, o 11,929 yn 2017-18 i 8,799 yn 2018-19.

**Mae'r data allweddol eraill yn cynnwys:**

- Roedd troseddau anweddustra a chyfathrebu wedi gostwng o 8,112 yn 2017-18 i 7,485 yn 2018-19 (7.7%). Roedd y rhan fwyaf o droseddau cyfathrebiadau maleisus, atgas neu anweddus yn ymwneud â cham-drin domestig.
- Roedd 28 erlyniad am bornograffi trais rhywiol[37] yn 2018-19; 26 yn 2017-18.
- Cafodd 376 o erlyniadau eu cychwyn am y drosedd o ddatgelu delweddau rhywiol preifat heb gydsyniad (yr hyn a elwir yn bornograffi dial), sy'n is na'r flwyddyn flaenorol (464).
- Cafodd 18 o erlyniadau eu cychwyn am y drosedd o feddu ar lawlyfr paedoffilia, yr un peth â'r flwyddyn flaenorol.

## Camau gweithredu yr ydym wedi'u cymryd i wella perfformiad erlyniadau

- Rydym wedi diwygio canllawiau cyfreithiol y CPS ar Gyhoeddiadau Anweddus er eglurder ac i helpu erlynwyr i asesu ac erlyn yr ystod o droseddau 'anweddustra'.

## Blaenoriaethau'r dyfodol

Byddwn yn diwygio ac yn cyhoeddi'r canllawiau ar erlyn achosion o Bornograffi Eithafol.
Bydd unrhyw ddiweddariad pellach i'r canllawiau cyfreithiol, yr hyfforddiant a'r astudiaethau achos i erlynwyr yn cynnwys manylion am brofiadau dioddefwyr gwrywaidd.

[37] Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 {63(1), (7A), y drosedd o feddu ar ddelwedd bornograffig eithafol sy'n darlunio trais rhywiol/ymosod drwy dreiddio.

- Byddwn yn gweithio gyda Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain wrth i'r Bwrdd ddechrau ar ei rôl fel y Rheoleiddiwr Dilysu Oedran ar gyfer gwasanaethau pornograffig masnachol ar-lein dan Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017.
- Byddwn yn cefnogi partneriaid, gan gynnwys yr Internet Watch Foundation yn eu gwaith ar ganfod a dileu delweddau anweddus o blant.

**Delweddau anweddus o blant**

Cafodd dyn ddedfryd o naw mlynedd o garchar am geisio trefnu neu hwyluso troseddau rhywiol yn erbyn plant, a meddu ar ddelweddau anweddus o blant ifanc iawn a'u dosbarthu.

Roedd y diffynnydd, swyddog heddlu wedi ymddeol, wedi cyfarwyddo dyn arall i dreisio plentyn 6 oed yn eneuol a rhannu delweddau o'r weithred ar-lein. Canfuwyd bod y diffynnydd yn meddu ar filoedd o ddelweddau anweddus o blant, gan gynnwys rhai yr oedd ef wedi annog pobl i'w cam-drin yn rhywiol drwy'r rhyngrwyd. Yn ystod yr ymchwiliad hwn, fe wnaeth yr heddlu nodi dau ddiffynnydd arall a chafodd eu herlyn yn llwyddiannus am ymosodiadau rhywiol difrifol ar blant. Cawsant ddedfrydau o dair blynedd ar ddeg o garchar a saith blynedd o garchar, yn y drefn honno.

Roedd yr erlyniadau hyn yn dilyn ymgyrch genedlaethol faith i amharu ar y broses o gomisiynu troseddau rhywiol yn erbyn plant, sydd wedi arwain at dros 50 o erlyniadau llwyddiannus yn erbyn troseddwyr rhywiol hyd yma.

# Adran data yr Adroddiad ar Drais yn erbyn Menywod a Merched

Mae adran ddata yr Adroddiad ar Drais yn erbyn Menywod a Merched yn darparu dadansoddiad data manwl o'r holl elfennau hyn.

# Adran Ddata yr Adroddiad ar Drais yn erbyn Menywod a Merched

## Esbonio data'r CPS

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn casglu data i ddibenion rheoli achosion er mwyn cynorthwyo i reoli ei swyddogaethau erlyn yn effeithlon. Mae'r CPS yn adolygu ei brosesau a'i arferion cofnodi yn barhaus er mwyn gwella casglu a defnyddio'r data a gedwir ymhellach. Nid yw'r CPS yn casglu data sy'n gyfystyr ag ystadegau swyddogol fel a ddiffinnir yn Neddf y Gwasanaethau Ystadegau a Chofrestru 2007.[1]

Mae'r data yn yr adroddiad hwn yn nodi canlyniadau achosion VAWG, ar sail y data gorau ar gael gan System Gwybodaeth Reoli'r CPS. Darperir nodiadau eglurhaol gydol yr adroddiad, gyda dehongliad o'r data.

Mae gwybodaeth bellach a dadansoddiad mwy trylwyr o nifer yr achosion o gam-drin domestig, treisio, troseddau rhywiol, cam-drin plant a stelcio ar gael yn Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr (CSEW) a gan y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder pan fyddant ar gael. Mae'r CPS yn cyfrannau at gyhoeddiadau blynyddol pwysig o ddata cam-drin domestig a threisio ar draws y system cyfiawnder troseddol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) a'r Grŵp Cenedlaethol Monitro Treisio sy'n cael ei gadeirio gan HMICFRS. Mae'r cyhoeddiadau hyn yn darparu gwybodaeth fanwl ar draws ardaloedd heddluoedd er mwyn cynorthwyo i adeiladu darlun cliriach o'r ymateb ar draws y System Cyfiawnder troseddol, yn genedlaethol a lleol.

Mae'r data sy'n ffurfio sail yr adroddiad yn tarddu o System Rheoli Achosion (CMS) y CPS, System Rheoli Tystion (WMS) y CPS a'r System Gwybodaeth Reoli (MIS) gysylltiedig. Cedwir y data mewn tair cronfa ddata ar wahân o fewn yr MIS[2], ar sail diffynyddion, troseddau ac achwynwyr neu dystion. Nid oes modd cydberthyn y data rhwng y gwahanol gronfeydd data[3]. Mae'r adroddiad yn cynnwys *cyfanswm data ar yr holl droseddwyr ac achwynwyr, waeth beth fo'u rhyw*. Lle bo'n bosibl, caiff data ei ddadansoddi, yng nghorff yr adroddiad, yn ôl rhyw un ogystal â symiau a chyfrannau cyffredinol.

---

[1] Caiff yr ystadegau swyddogol yn ymwneud â throseddu a phlismona eu cadw gan y Swyddfa Gartref a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ac mae'r ystadegau'n ymwneud â dedfrydu, achosion y llys troseddol, troseddwyr a ddygir i gyfiawnder, y llysoedd a'r farnwriaeth yn cael eu cadw gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. [2] Fel gydag unrhyw system gofnodi ar raddfa fawr, mae'r data'n ddarostyngedig i gamgymeriadau posibl wrth gofnodi a phrosesu data. Mae'r ffigurau'n rhai dros dro ac yn amodol ar newid wrth i ragor o wybodaeth gael ei chofnodi gan y CPS.

[2] Fel gydag unrhyw system gofnodi ar raddfa fawr, mae'r data'n ddarostyngedig i gamgymeriadau posibl wrth gofnodi a phrosesu data. Mae'r ffigurau'n rhai dros dro ac yn amodol ar newid wrth i ragor o wybodaeth gael ei chofnodi gan y CPS.

[3] Mae'r adroddiad hwn yn darparu'n bennaf ganlyniadau yn ôl diffynyddion ac nid yw'n gallu darparu gwybodaeth ar wahân am ganlyniadau'n seiliedig ar ddioddefwyr neu droseddau. At y diben hwnnw, ni ellir darparu data ar wahân ar gyfer canlyniadau achosion a wynebir gan ddioddefwyr benywaidd a gwrywaidd; ni ellir chwaith gydberthyn rhyw'r diffynnydd â rhyw'r dioddefwr.

Caiff cam-drin domestig, trais rhywiol, priodas dan orfod, yr hyn a elwir yn gam-drin 'ar sail anrhydedd' a masnachu pobl eu nodi gan fflagiau a osodir â llaw yng nghyswllt diffynyddion yn y CMS[4] a'u hadrodd drwy'r MIS. Caiff y data hwn ei gofnodi ar sail 'dan amheuaeth' (cyn cyhuddiad) neu 'diffynnydd' (ar ôl cyhuddiad) ac felly mae'n darparu data ar ganlyniadau cyfeiriadau'r heddlu a rhai dan amheuaeth a gyhuddwyd yn ogystal â chanlyniadau diffynyddion. Yn ogystal, mae'n darparu'r gallu i gofnodi proffiliau cydraddoldeb o ddiffynyddion.[5] Rydym yn dadansoddi canlyniadau erlyniadau gan ddefnyddio'r gronfa ddata diffynyddion, ac o'r herwydd mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu hynny drwyddo-draw.

Nid oes modd cael data ar gyfer stelcio, aflonyddu, puteindra, pornograffi, anweddustra, cyfathrebiadau a throseddau rhywiol ond gan ddefnyddio'r data troseddau a gofnodwyd yn CMS a'i adrodd drwy MIS. Mae'r data hwn yn cynnwys nifer y troseddau lle dechreuodd erlyniad yn y llys ynadon, ac nid yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth am nifer y cyfeiriadau gan yr heddlu a gyhuddwyd gan CPS, a chanlyniadau'r erlyniad[6]. Yn ogystal, nid yw data ar broffiliau achwynwyr ar gael ar gyfer y troseddau hyn.

Mae'r system rheoli tystion (WMS) yn system rheoli achosion pwrpasol a luniwyd gan ac ar gyfer staff arbenigol yr Uned Gofal i Dystion (WCU) i reoli eu hachosion yn effeithlon. Mae'r WMS yn cofnodi data tystion a, lle caiff ei gofnodi, mae'r system yn cynnwys data sy'n adrodd ar broffiliau cydraddoldeb achwynwyr (a thystion). Ni all y WMS ddarparu ond data ar *niferoedd* o achwynwyr cysylltiedig ag achosion erlyn, yn ôl rhyw (lle bo ar gael), yn hytrach na *chanlyniad* yr erlyniadau hynny. Nid yw'n cynnwys unrhyw ddata sy'n adrodd y niferoedd o achwynwyr honedig cysylltiedig ag achosion cyn cyhuddiad, ac felly ni all gynnwys data ar gyfeiriadau gan yr heddlu a chyhuddo gan y CPS.

Caiff proffiliau cydraddoldeb diffynyddion, yn ôl rhyw, ethnigrwydd ac oedran eu hasesu ac adroddir arnynt yn y rhan hon o'n adroddiad. Caiff data ar broffiliau cydraddoldeb achwynwyr/dioddefwyr eu hadrodd lle byddant ar gael ac rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd o wella'r data'n ymwneud ag achwynwyr a ddelir gan y System Cyfiawnder Troseddol (CJS).

**Nodyn: Mae rhagor o derminoleg manwl, amlinell o broses yr heddlu/y CPS ac esboniad o unrhyw newidiadau o ran gyfrifiadau neu dermau a ddefnyddir wedi'u hamlinellu yn nhudalennau A3-A5.**

Yn unol â pholisi'r llywodraeth, rydym yn cyhoeddi'r data gwaelodol a ddefnyddir yn ein hadroddiadau. Mae'r data sy'n sail i'r adroddiad hwn ar gael ar wefan y CPS, yn yr adran Cyhoeddiadau.[7]

Mae fformat yr adroddiad eleni wedi newid ers y llynedd, er mwyn darparu graffiau a thablau manylach gyda data dros y pum mlynedd diwethaf.

---

[4] Mae'r CPS yn cadw cofnod canolog o ganlyniadau erlyniadau gan gyfeirio at nifer o fflagiau rheoli achosion, gan gynnwys DA, trais rhywiol, priodas dan orfod, yr hyn a elwir yn 'gam-drin ar sail anrhydedd', cam-drin plant a masnachu pobl. Caiff y fflagiau hyn eu cymhwyso i achosion a nodwyd fel rhai sy'n cynnwys y mathau hyn o droseddau gan staff yr Ardal. Mae'r data a gynhyrchir yn cael ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer monitro perfformiad, ac nid yw'n fanwl gywir ond i'r graddau bod y fflag wedi cael ei ddefnyddio'n gywir.

[5] Proffiliau cydraddoldeb diffynyddion yn cynnwys data ar eu rhyw, oedran ac ethnigrwydd.

[6] Mae data ar droseddau rhywiol (ac eithrio trais rhywiol) yn eithriad gan ei fod yn tarddu o gategori prif drosedd 'troseddau rhywiol' drwy eithrio diffynyddion trais rhywiol, a gellir felly ddarparu canlyniadau erlyniadau.

[7] Adroddir data yn yr adroddiad hwn drwyddo draw; caiff unrhyw ddata ychwanegol sy'n sail iddo ei ddarparu ar wefan y CPS.

Hwn fydd yr Adroddiad CPS VAWG olaf o'r math hwn. Yn 2019-20, byddwn yn dechrau adrodd data bob chwarter, gan ddarparu'r data rheoli mwyaf cyfredol yn gyflymach. Caiff adroddiad blynyddol byr ei ddarparu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hefyd.

## Esbonio terminoleg

Mae'r Eirfa yn darparu diffiniadau llawnach o'r termau a ddefnyddir isod. Mae'r tabl yn darparu crynodeb byr i esbonio'r termau data cyn cyhuddiad.

| Term a ddefnyddir | Esboniad |
|---|---|
| Derbyniadau cyn cyhuddo | Cyfanswm y rhai dan amheuaeth a gyfeiriwyd gan yr heddlu at y CPS am benderfyniad ynghylch cyhuddo. |
| Penderfyniadau cyn cyhuddo | O blith yr holl unigolion dan amheuaeth a gyfeirir gan yr heddlu, penderfyniadau cyn cyhuddo yw'r rhai lle mae'r CPS wedi cwblhau gwneud penderfyniad ynghylch cyhuddo neu beidio, yn cymryd dim camau pellach, yn argymell delio ag achos y tu allan i'r llys, terfynu'r mater yn weinyddol neu 'arall'[8].<br>***Penderfyniadau cyfreithiol cyn cyhuddo*** yn cynnwys: cyhuddo, cymryd dim camau pellach neu argymell penderfyniad y tu allan i'r llys.<br>***Penderfyniadau cyn cyhuddo heb fod yn rhai cyfreithiol*** yn cynnwys: rhai a derfynir yn weinyddol ac 'arall'. |
| Terfyniadau Gweinyddol | Nid yw penderfyniadau a derfynir yn weinyddol yn benderfyniadau cyfreithiol ac efallai nad dyna fydd diwedd yr achos. Gall y CPS ofyn i'r heddlu ddarparu gwybodaeth bellach lle nad oes tystiolaeth ddigonol i wneud penderfyniad ynghylch cyhuddo, neu fod yr heddlu'n gwneud cais am gyngor ymchwiliol cynnar. Os na fydd yr heddlu'n ymateb o fewn tri mis, yn dilyn cael eu hatgoffa, bydd yr achos yn cael ei gau ar CMS. Gelwir hyn yn 'derfynu gweinyddol'.<br>Os bydd yr heddlu'n darparu tystiolaeth ychwanegol, caiff yr achos ei ailagor yn CMS ac, os yn bosibl, gwneir penderfyniad ynghylch cyhuddo.<br>Bydd achosion lle mae'r CPS wedi cynghori'r heddlu i gyhuddo ond nad yw'r sawl dan amheuaeth wedi cael ei gyhuddo, oherwydd nad yw'n ateb mechnïaeth yr heddlu neu nad oes modd dod o hyd iddo, hefyd yn cael eu terfynu'n weinyddol. Os, yn ddiweddarach, y deuir o hyd i'r sawl sydd dan amheuaeth a'i gyhuddo, caiff yr achos ei ailagor yn CMS. |
| Dim Camau Pellach (NFA) | Gwneir penderfyniadau NFA lle bo'r CPS wedi penderfynu na ddylid cymryd camau pellach; ni all yr achos symud ymlaen i gyhuddiad gan nad yw'n cwrdd â phrawf Cod Erlynwyr y Goron, am resymau tystiolaeth neu fudd y cyhoedd. |
| Cyhuddo | Gwneir penderfyniadau i gyhuddo pan fo'r CPS yn fodlon bod y prawf cyfreithiol ar gyfer erlyn, a nodir yng Nghod Erlynwyr y Goron, wedi'i gyflawni: mae digon o dystiolaeth i ddarparu 'gobaith realistig o sicrhau euogfarn' yn erbyn pob diffynnydd a bod yr erlyniad er budd y cyhoedd. |

[8] Mae 'Arall' yn golygu nad yw canlyniad y penderfyniad ynghylch cyhuddo yn hysbys, neu nad yw wedi ei roi ar gyfer yr unigolyn hwnnw sydd dan amheuaeth.

## Derbyniadau'r heddlu a phenderfyniadau cyn cyhuddo

Cyn 2018-19, roedd y data ar 'benderfyniadau cyn cyhuddo' wedi'u cwblhau gan y CPS yn cael eu hadrodd fel 'atgyfeiriadau'r heddlu' yn yr adroddiad VAWG. Mae adroddiad 2018-19 hwn yn defnyddio terminoleg wahanol i egluro'r data. Mae'n darparu dwy set ddata – (i) achosion yn cael eu 'derbyn cyn cyhuddo' – nifer y bobl dan amheuaeth sy'n cael eu hatgyfeirio i'r CPS gan yr heddlu am benderfyniad ynghylch cyhuddo a (ii) 'penderfyniadau cyn cyhuddo wedi'u cwblhau gan y CPS (a elwir yn 'atgyfeiriadau'r heddlu' o'r blaen) sef penderfyniad gan y CPS i gyhuddo, i beidio â chymryd unrhyw gamau pellach, i argymell penderfyniad y tu allan i'r llys, i derfynu'n weinyddol neu 'arall.'[1]

Mae nifer y **derbyniadau cyn cyhuddo y mae'r heddlu'n eu hatgyfeirio**'n dibynnu ar (a) yr heddlu yn nodi ac yn fflagio'r achosion, yn ôl y sawl sydd dan amheuaeth, cyn eu hatgyfeirio at y CPS a (b) gweinyddwyr y CPS yn nodi ac yn fflagio'r achosion hynny ar System Rheoli Gwaith Achos y CPS, lle maen nhw'n cael eu cofrestru yn y lle cyntaf.

Bydd nifer y **penderfyniadau cyn cyhuddo wedi'u cwblhau gan y CPS** yn gyfanswm y rheini sy'n cael eu hatgyfeirio gan yr heddlu (wedi'u fflagio gan yr heddlu a'r CPS wrth eu cofrestru) a'r rheini sy'n cael eu fflagio gan erlynwyr a gweinyddwyr y CPS yn nes ymlaen, ond cyn cwblhau'r penderfyniad cyn cyhuddo terfynol.

Bydd y data ar gyfanswm y penderfyniadau cyn cyhuddo'n seiliedig ar y dyddiad y cafodd y cyngor cyhuddo ei gwblhau a'i ddarparu i'r heddlu. Felly, efallai y bydd data 2018-19 yn cynnwys penderfyniadau cyn cyhuddo ar gyfer achosion a atgyfeiriwyd gan yr heddlu at y CPS yn 2018-19, yn 2017-18 neu'n gynharach. Mae hyn yn esbonio pam mae nifer y penderfyniadau cyn cyhuddo'n uwch na nifer y derbyniadau cyn cyhuddo o fewn yr un cyfnod.

## Newidiadau wrth adrodd canran y rhai a gyhuddwyd

Mae'r dull ar gyfer adrodd y canran o gyhuddiadau wedi cael ei ddiwygio o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Yn flaenorol, yr oedd nifer y cyhuddiadau yn cael eu rhannu gan gyfanswm nifer yr holl benderfyniadau cyn cyhuddo, fel a ddiffinnir ar dudalen A2, i ddarparu canran y gyfradd gyhuddo.

Dros y tair blynedd diwethaf, cafwyd cynnydd sylweddol yn y gyfran o achosion o drais rhywiol sy'n cael eu terfynu'n weinyddol. Mae'r rhain yn achosion lle y mae erlynwyr wedi rhoi cyngor ymchwiliol cynnar a'r ymchwiliad wedi cael ei derfynu gan yr heddlu heb ofyn am benderfyniad i gyhuddo gan y CPS neu fod erlynwyr wedi gofyn i'r heddlu gasglu tystiolaeth bellach drwy gyfrwng cynllun gweithredu ac na fy unrhyw ymateb (fel arfer o fewn 3 mis). Nid penderfyniadau cyfreithiol yw'r rhain a gall achosion o'r fath gael eu hailagor os bydd yr heddlu'n ail-ddechrau'r ymchwiliad.

Eleni, mae'r adroddiad yn bwriadu canolbwyntio ar y penderfyniadau cyfreithiol a wneir gan erlynwyr. Mae terfyniadau gweinyddol wedi'u tynnu o'r cyfrifiad gan adel ond yr achosion hynny lle y mae'r erlynydd wedi ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael ac wedi penderfynu cyhuddo, cymryd dim camau pellach yn yr achos neu gyhoeddi y delir â'r achos y tu allan i'r llys. Mae'r

---

[1] Mae 'Arall' yn golygu nad yw canlyniad y penderfyniad ynghylch cyhuddo yn hysbys, neu nad yw wedi ei roi ar gyfer yr unigolyn hwnnw sydd dan amheuaeth.

gyfradd gyhuddo felly wedi ei chyfrifo fel canran o'r achosion a gyhuddwyd allan o'r holl benderfyniadau cyfreithiol.

# Llywodraethu VAWG

Yn 2018-19, gweithredodd Prif Erlynwyr y Goron fel Hyrwyddwyr y CPS o ran cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu, RASSO, FM/HBA/FGM, CSA, Masnachu Pobl a chaethwasiaeth fodern, gan gysylltu'r Pencadlys a holl ardaloedd y CPS yn ogystal â chwrdd â'r Grŵp Ymgynghori allanol (gweler isod). Mae rheolwyr strategaeth genedlaethol VAWG y CPS, yng Nghyfarwyddiaeth Gweithrediadau'r CPS, yn goruchwylio gwaith VAWG ar draws Ardaloedd y CPS. Maent yn goruchwylio chyflawni strategaeth VAWG, yn benodol drwy gynllun sicrwydd VAWG a amlinellir isod. Mae'r arweinyddion VAWG cenedlaethol yn cyhoeddi cylchlythyron VAWG y CPS yn rheolaidd, yn amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf o ran gwaith ar draws holl elfennau VAWG.

Yn 2018-19 parhaodd cydlynwyr Ardal VAWG y CPS i arwain erlyniadau VAWG lleol, gan weithio gyda Rheolwyr Cynhwysiant ac Ymgysylltu â'r Gymuned (ICEM) i redeg y Paneli Cynnwys a Chraffu Lleol (LSIP). Mae gan bob Ardal baneli yn cwmpasu arferion VAWG - yn bennaf yn mynd i'r afael â cham-drin domestig ac erlyniadau trais rhywiol. Yn 2018-19, yr oedd y rhan fwyaf yn canolbwyntio ar berfformiad mewn achosion gyda peth craffu penodol ynghylch gorfodi a rheoli, ymosod yn rhywiol ar blant, stelcio, cyfathrebu â dioddefwyr, Protocol Stelcio ac Aflonyddu, yr Adolygiad Lladd Domestig ac effaith y cyfryngau cyhoeddus mwn achosion o drais rhywiol.

Gweithiodd cydlynwyr VAWG gyda Phrif Erlynwyr y Goron yn eu Hardal i ddarparu adroddiadau chwe misol ar berfformiad yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP) drwy gynllun sicrwydd VAWG. Cynhaliwyd cyfarfodydd o gwmpas y bwrdd ym Mawrth 2018 a Thachwedd 2018 i drafod gweithredu camau ar lefel leol.

Yn 2018-19, ar lefel genedlaethol, tynnodd Grŵp Ymgynghori Allan VAWG y CPS (ECG) grwpiau arbenigwyr allweddol VAWG i mewn i gynghori tîm VAWG y CPS. Yn lleol maen rhanddeiliaid yn darparu adborth ac yn cynnig cyngor drwy LSIP Gwasanaeth Erlyn y Goron.

# Cynllun Sicrwydd VAWG

Yn 2018-19, parhaodd Ardaloedd CPS i fonitro'u perfformiad gan ddefnyddio Cynllun Sicrwydd VAWG a ddiweddarwyd, gan asesu ystod o fesurau ar draws cam-drin domestig a thrais rhywiol a throseddau rhywiol difrifol. Yr oedd hyn yn cynnwys dadansoddiad manwl o dderbyniadau cyn cyhuddo; penderfyniadau cyn cyhuddo, NFA a therfyniadau gweinyddol; canlyniadau erlyn; edifeirwch cysylltiedig â materion achwynwyr ac, ar gyfer trais rhywiol a throseddau rhywiol difrifol, rhyddfarnau gan reithgor. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i dueddiadau lleol o'u cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn dilyn asesu ystod eang o fesurau, paratôdd Ardaloedd CPS sylwebaethau ar eu hasesiad cyffredinol a nodwyd camau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd, fel bo angen.

Nid yw Cynllun Sicrwydd VAWG ond un rhan o drefn ehangach o ymarferion sicrhau ansawdd yr ymgymerir â hwy ar draws y sefydliad. Er enghraifft, mae cynllun tebyg wedi'i sefydlu i asesu ystod o fesurau'n ymwneud â Throseddau Casineb. Yn ogystal, mae gwaith yn mynd rhagddo i wella cofnodi proffil cydraddoldeb achwynwyr er mwyn darparu data gwell ynghylch amlder y troseddau hyn yn ôl proffil achwynwyr.

## Strategaeth Cynhwysiant ac Ymgysylltu â'r Gymuned

Ym Mai 2018, cafodd y strategaeth Cynhwysiant ac Ymgysylltu â'r Gymuned ei chyhoeddi. Rydym wedi ymroi i ymgysylltu â chymunedau'n lleol drwy Baneli Cynnwys a Chraffu Lleol VAWG ac yn genedlaethol drwy Grŵp Ymgynghori Allanol VAWG. Mae Ardaloedd y CPS hefyd wedi ymgymryd â chyfres o 'Sgyrsiau Cymunedol'[9] gyda nifer o randdeiliaid VAWG i wella'u dealltwriaeth o faterion a phryderon y bobl hynny a effeithir gan VAWG o gymunedau y clywir ganddynt 'yn anaml'[10] os o gwbl.

Mae pob Ardal CPS wedi cynnal ymarfer mapio rhanddeiliaid cychwynnol. Mae'r ymarfer yn cynnwys canfod rhanddeiliaid VAWG ychwanegol gyda'r bwriad o ganfod cyfleoedd ychwanegol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau statudol ac anstatudol.

## Cyfryngau cymdeithasol

Yn 2018-19, bu'r CPS yn gweithio gyda'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS), y Swyddfa Gartref ac adrannau eraill y llywodraeth yn y cyfnod yn arwain at gyhoeddi 'r Papur Gwyn Niweidiau Ar-lein. Lansiwyd ymgynghoriad y Papur Gwyn ym mis Ebrill 2019 ac mae'n nodi cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer pecyn o fesurau, deddfwriaethol ac anneddfwriaethol, i gadw defnyddwyr y DU yn ddiogel ar-lein.

## Effaith newidiadau i fechnïaeth cyn cyhuddo ar draws VAWG

Yn Mai 2019, cyhoeddodd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ganllawiau gweithredol newydd i swyddogion gan atgyfnerthu'r defnydd o fechnïaeth cyn cyhuddo yn dilyn cynnydd yn y defnydd a wneir ohono ers cyflwyno trefniadau newydd drwy Ddeddf Plismona a Throseddu 2017. Ers trefniadau 2017, bu cynnydd yn nifer yr unigolion dan amheuaeth a ryddhawyd dan ymchwiliad ond heb fechnïaeth, gan olygu cynnydd yn y defnydd o wysio drwy post i'w galw i'r llys. Nododd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi a'r Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS) i'r defnydd o fechnïaeth ostwng gan75 y cant (a 65 y cant ar gyfer cam-drin domestig), chwe mis ar ôl y ddeddfwriaeth newydd. Erbyn Rhagfyr 2018, yr oedd nifer y rhai dan amheuaeth a gadwyd ar fechnïaeth wedi gostwng 24 y cant a'r nifer a gadwyd yn y ddalfa wedi gostwng saith y cant. Gallai'r gostyngiad hwn fod wedi effeithio ar y nifer o ddiffynyddion a fethodd â bod yn bresennol yn y llys. Codwyd pryder penodol o ran dioddefwyr agored i niwed, gan gynnwys rhai mewn achosion cam-drin domestig a throseddau rhywiol.

Gallai'r newidiadau hyn, i ryw raddau, fod yn effeithio ar ddiffyg presenoldeb diffynyddion mewn gwrandawiadau cyntaf ar gyfer achosion digarchar ac mae'n bosibl fod cysylltiad thwng hyn â'r gostyngiad cyffredinol o ran erlyn achosion VAWG a ganfuwyd yn yr adroddiad hwn. Nid yw'r CPS

[9] Dan arweiniad arweinwyr uwch ym mhob Ardal, mae 'Sgyrsiau Cymunedol' yn darparu mecanwaith i'r CPS ymgysylltu â chymunedau y clywir ganddynt 'yn anaml'. Maent yn galluogi aelodau o'r gymuned i rannu eu pryderon. Maent hefyd yn galluogi'r CPS i esbonio'u swyddogaeth yn y system cyfiawnder troseddol gan gynnwys: sut y gwneir penderfyniad i erlyn achosion, Hawl y Dioddefwr i Adolygiad a'r mesurau arbennig sydd ar gael i ddioddefwyr a thystion sy'n agored i niwed a rhai sy'n cael eu bygwth.

[10] Mae 'y clywir ganddynt yn anaml' yn golygu grwpiau a allai fod yn profi rhwystrau i gael gafael ar wasanaethau neu sy'n cael eu tangynrychioli pan wneir penderfyniadau

yn cadw data ar nifer y diffynyddion sy'n methu â bod yn bresennol yn y llys ond mae'r data ar ganran yr achosion sy'n cael eu gohirio oherwydd cyhoeddi warantau yn arwydd o gynnydd[11].

# Data Cam-drin Domestig

Dolen yn ôl i'r brif adran ar gam-drin domestig (tudalen 9)

Mae'r data a roddir isod yn ymwneud â'r holl ddiffynyddion ac achwynwyr sydd wedi'u fflagio dan gam-drin domestig, waeth beth fo'u rhyw, gyda manylion pellach ynghylch rhyw, lle bo ar gael. Mae'r data sy'n sail i'r rhan hon o'r adroddiad i'w weld yn yr adran ar gam-drin domestig ar wefan y CPS (linked).

## Data cyn cyhuddo

### Tabl 1 - Cyfanswm y rhai dan amheuaeth a atgyfeiriwyd gan yr heddlu at y CPS am benderfyniad ynghylch cyhuddo rhwng 2014-15 a 2018-19


Dengys y tabl hwn y bu gostyngiad sylweddol mewn atgyfeiriadau gan yr heddlu dros y flwyddyn ddiwethaf.

| | 2014 - 15 | 2015 - 16 | 2016 - 17 | 2017 - 18 | 2018 - 19 |
|---|---|---|---|---|---|
| Derbyniwyd gan yr heddlu | 126,461 | 124,292 | 112,844 | 110,653 | 98,470 |

**Nodiadau esboniadol:** Cyn 2018-19, roedd adroddiad VAWG yn cofnodi'r data ar 'benderfyniadau cyn cyhuddo' wedi'u cwblhau gan y CPS fel 'atgyfeiriadau'r heddlu'. Mae'r adroddiad hwn yn darparu dwy set o ddata - (i) achosion wedi'u derbyn gan yr heddlu a'u cyfeirio atom ni am benderfyniad ynghylch cyhuddo (Tabl 1) a (ii) 'penderfyniadau cyn cyhuddo a gwblhawyd gan y CPS' (Graff 2 (a elwid yn flaenorol yn 'atgyfeiriadau'r heddlu').

### Graff 2 - Penderfyniadau cyn cyhuddo a gwblhawyd gan y CPS rhwng 2014-15 a 2018-19

Dengys y graff hwn ostyngiad yng nghyfanswm y penderfyniadau cyn cyhuddo ers 2014-15, ynghyd â chynnydd mewn penderfyniadau heb fod yn rhai cyfreithiol ers 2016-17.





[11] Mae nifer y warantau a gyhoeddir gan y llys yn y gwrandawiad cyntaf wedi bod yn cynyddu'n gyson, ar y cyfan, o 19.1% yn Ch1 2017–18 i 21.9% yn Ch4 2018–19. Ar gyfer DA, cynyddodd nifer y warantau o 5.9% i 7.1%.

**Nodiadau Esboniadol:** Bydd y data ar gyfanswm y penderfyniadau cyn cyhuddo'n seiliedig ar y dyddiad y cafodd y cyngor cyhuddo ei ddarparu i'r heddlu. Felly, bydd data 2018-19 yn cynnwys achosion a atgyfeiriwyd gan yr heddlu at y CPS yn 2018-19, yn 2017-18 neu'n gynharach. Yn ogystal, os yw'r fflag cam-drin domestig heb ei osod ar yr achos pan dderbynnir ef oddi wrth yr heddlu, gellir ei ychwanegu yn ddiweddarach. Dyma' rhesymau pam fod nifer y penderfyniadau cyn cyhuddo a gwblhawyd yn graff 2 yn wahanol i'r nifer o unigolion dan amheuaeth a atygyfeiriwyd gan yr heddlu yn Nhabl 1.
Echelin Y Chwith yw'r canran o'r cyfanswm o benderfyniadau cyn cyhuddo, wedi'u rhannu i lawr i gyfran y penderfyniadau cyfreithiol a rhai a derfynwyd yn weinyddol (siart bar).
Echelin Y Dde yw'r nifer o'r cyfanswm o benderfyniadau cyn cyhuddo a gwblhawyd gan y CPS (graff llinell)

## Graff 3 - Canlyniadau penderfyniadau cyn-cyhuddo yn ôl niferoedd rhwng 2014-15 a 2018-19

Dengys y graff hwn y bu gostyngiad sylweddol mewn penderfyniadau i gyhuddo dros y flwyddyn ddiwethaf.




**Nodiadau Esboniadol:** Mae delio ag achosion y tu allan i'r llys, fel rhybudd neu rybudd amodol ( lle y mae'r rhain yn gamau priodol) hefyd yn benderfyniadau cyfreithiol. Nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y graff uchod oherwydd y niferoedd cymharol isel. Yn ystod 2014-15 i 2017-18 bu cyfartaledd o 1,307 achosion y deliwyd â hwy y tu allan i'r llys, bob blwyddyn. Yn y flwyddyn ddiweddaraf cafwyd 929.

Byddai'r dull o adrodd canran y gyfradd gyhuddo a ddefnyddiwyd mewn adroddiadau blaenorol (a gyfrifwyd fel y gyfran o rai dan amheuaeth a gyhuddwyd o blith cyfanswm yr holl benderfyniadau cyn cyhuddo, yn cynnwys rhai a derfynwyd yn weinyddol) yn cynhyrchu'r canlynol:

- Gostyngodd cyfran y penderfyniadau cyn cyhuddo a arweiniodd at gyhuddiad o 70.3% yn 2017-18 i 68.4% yn 2018-19 – cwymp o 1.9 pwynt canran.

Mae'r dull ar gyfer adrodd y canran o gyhuddiadau wedi cael ei ddiwygio o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol fel yn Nhabl 4 isod. Mae'r gyfradd gyhuddo bellach wedi ei chyfrifo fel canran o'r achosion a gyhuddwyd allan o'r holl benderfyniadau cyfreithiol.

Mae'r dull hwn yn canolbwyntio'n benodol ar y penderfyniadau cyfreithiol a wnaed gan erlynwyr y mae'r CPS yn gyfrifol amdanynt. Gan y bu cynnydd sylweddol yn y gyfran o benderfyniadau heb fod yn rhai cyfreithiol (terfyniadau gweinyddol) mewn llawer o achosion trais rhywiol dros y tair blynedd ddiwethaf, mae'r data hwn wedi ei dynnu o'r cyfrifiad gan adael ond yr achosion hynny lle y mae'r erlynydd wedi ystyried yr holl dystiolaeth ar gael ac wedi penderfynu cyhuddo, peidio â chymryd unrhyw gamau pellach yn yr achos, neu delir â'r achos y tu allan i'r llys.

## Tabl 4 - Canran canlyniadau penderfyniadau cyn cyhuddo a gwblhawyd gan y CPS rhwng 2014-15 a 2018-19


Dengys y tabl hwn mai dim ond newidiadau bychain a welwyd yng nghyfran yng nghanlyniadau'r penderfyniadau cyn cyhuddo dros y flwyddyn ddiwethaf.

| | 2014 - 15 | 2015 - 16 | 2016 - 17 | 2017 - 18 | 2018 - 19 |
|---|---|---|---|---|---|
| Penderfyniadau Cyfreithiol (sylweddol) (Cyhuddo, Dim Erlyniad, Delio allan o'r Llys) | 95.6% | 95.3% | 95.8% | 92.6% | 92.0% |
| Cyhuddwyd (% y Penderfyniadau Cyfreithiol) | 72.1% | 73.2% | 74.8% | 75.9% | 74.3% |
| Nifer yr Erlyniadau (% y Penderfyniadau Cyfreithiol | 26.6% | 25.6% | 24.1% | 22.9% | 24.7% |
| Delio Allan o'r Llys | 1.2% | 1.2% | 1.1% | 1.2% | 1.0% |
| Wedi'i Derfynu'n Weinyddol | 4.4% | 4.7% | 4.2% | 7.3% | 8.0% |
| Arall | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |

## Graff 5 – Cyfartaledd amseroldeb penderfyniad y CPS i gyhuddo (diwrnodau calendr) o gymharu â chyfartaledd nifer ymgynghoriadau'r CPS â'r heddlu 2014-15 i 2018-19.

Dengys y graff hwn fod mwy o ymgynghoriadau'n digwydd ar achosion sy'n diweddu gyda Dim Camau Pellach wrth i erlynwyr gynghori ar ymholiadau a allai gryfhau'r achos.  Mae mwy o gymhlethdod a rhagor o ymgynghoriadau fesul achos wedi arwain at gynnydd yn yr amseroldeb cyffredinol.

Noder bod dros 88% o achosion Cam-drin Domestig yn cael eu clywed yn y Llys Ynadon ac yn aml yn cael eu cyhuddo gan CPS Direct fel achosion remand brys. Mae hyn yn golygu bod y diffynnydd yn cael ei gadw yn y ddalfa ac yn cael ei ddwyn gerbron y llys y bore canlynol.  Dyma'r rheswm am yr amserlenni cymharol fyr i wneud penderfyniad ynghylch cyhuddo (8.9 diwrnod).




**Nodiadau Esboniadol:** Mae cyfartaledd amseroldeb y penderfyniad i gyhuddo yn cynnwys amser y CPS ac amser yr heddlu ac mae'n gyfrifiad o gyfartaledd nifer y diwrnodau calendr sydd wedi mynd heibio ers i'r heddlu geisio cyflwyno achos am y tro cyntaf, hyd at u diwrnod pryd y gwnaed y penderfyniad diwethaf i gyhuddo. Mae'r data'n cynnwys achosion lle yr oedd yn ofynnol i'r heddlu gyflwyno tystiolaeth bellach cyn penderfyniad i gyhuddo. Mae hyn, yn gyffredinol, yn cynnwys mwy nac un cyflwyniad a mwy o ymchwilio.

# Data ar ôl cyhuddo


## Tabl 6: Erlyniadau wedi'u fflagio fel cam-drin domestig a gwblhawyd gan y CPS yn ôl canlyniad 2014-15 i 2018-19

Dengys y tabl hwn y bu cwymp sylweddol yn nifer yr erlyniadau dros y flwyddyn ddiwethaf tra bo cyfraddau euogfarnau wedi aros yn sefydlog.

| | 2014-15 | | 2015-16 | | 2016-17 | | 2017-18 | | 2018-19 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Euogfarnau | 68,601 | 73.9% | 75,235 | 74.5% | 70,853 | 75.7% | 68,098 | 76.4% | 60,160 | 76.5 |
| Dim Euogfarn | 24,178 | 26.1% | 25,695 | 25.5% | 22,737 | 24.3% | 20,993 | 23.6% | 18,464 | 23.5 |
| **Cyfanswm** | **92,779** | | **100,930** | | **93,590** | | **89,091** | | **78,624** | |

## Graff 7: Nifer canlyniadau erlyniadau 2014-15 i 2018-19

Mae'r graff hwn yn rhoi dadansoddiad manwl o nifer canlyniadau erlyniadau dros y pum mlynedd diwethaf.




**Nodiadau Esboniadol:** Achosion ar ôl cyhuddo a derfynwyd yn weinyddol yw'r rhai lle na all erlyniad fynd rhagddo oherwydd bod diffynnydd wedi methu ag ymddangos yn y llys a bod warant wedi'i chyhoeddi gan y fainc i'w arestio ef/hi; neu fod y diffynnydd wedi marw neu wedi cael ei ganfod yn anffit i bledio; neu lle y mae'r achos wedi ei ohirio am gyfnod amhenodol. Os caiff warant gan y fainc ei gweithredu, gellir ailagor yr achos.

### Tabl 8 - Canran canlyniadau erlyniadau 2014-15 i 2018-19


Mae'r tabl hwn yn rhoi dadansoddiad manwl o ganran canlyniadau erlyniadau dros y pum mlynedd diwethaf.

| | 2014 - 15 | 2015 - 16 | 2016 - 17 | 2017 - 18 | 2018 - 19 |
|---|---|---|---|---|---|
| Euogfarnau | 73.9% | 74.5% | 75.7% | 76.4% | 76.5% |
| ***O'u plith*** | | | | | |
| *Pledion Euog* | *68.0%* | *67.8%* | *68.7%* | *69.6%* | *70.4%* |
| *Euogfarnu ar ôl Treial* | *5.7%* | *6.6%* | *6.9%* | *6.7%* | *6.0%* |
| *Profwyd mewn Absenoldeb* | *0.1%* | *0.1%* | *0.1%* | *0.2%* | *0.2%* |
| Dim Euogfarn | *26.1%* | *25.5%* | *24.3%* | *23.6%* | *23.5%* |
| **O'u plith** | | | | | |
| *Erlyniad wedi'i Ollwng* | *19.3%* | *18.2%* | *17.1%* | *16.7%* | *17.5%* |
| *Rhyddfarnu/Gwrthod ar ôl Treial* | *5.9%* | *6.2%* | *6.1%* | *5.5%* | *4.6%* |
| *Wedi Terfynu'n Weinyddol* | *0.8%* | *1.1%* | *1.1%* | *1.3%* | *1.4%* |

- Yn 2018-19, cafodd 88.1% o'r holl achosion a gafodd eu fflagio fel cam-drin domestig eu herlyn yn y llysoedd ynadon.
- Cafodd 76.8% o'r 69,290 o ddiffynyddion a erlynwyd yn y llys ynadon eu canfod yn euog.
- Cafodd 74.4% o'r 9,334 o ddiffynyddion a erlynwyd yn Llysoedd y Goron eu canfod yn euog.


### Graff 9 - Nifer y canlyniadau yn dilyn treial rhwng 2014-15 a 2018-19

Dengys y graff hwn y bu gostyngiad yn nifer yr euogfarnau a'r rhyddfarnau ers 2015-16.




### Graff 10 - Canran y canlyniadau yn dilyn treial rhwng 2014-15 a 2018-19

Dengys y graff y bu cynnydd sylweddol yn y gyfradd euogfarnau yn dilyn treial.




## Tabl 11 - Cyfanswm canlyniadau nad oeddynt yn euogfarnau yn ôl rhesymau 2014-15 i 2018-19


Mae'r tabl hwn yn rhoi dadansoddiad manwl o'r rhesymau dros ganlyniadau nad oeddynt yn euogfarnau dros y pum mlynedd diwethaf.

| | 2014 - 15 | 2015 - 16 | 2016 - 17 | 2017 - 18 | 2018 - 19 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y canlyniadau nad oeddent yn euogfarnau** | **24,178** | **25,695** | **22,737** | **20,993** | **18,464** |
| Materion yn Ymwneud â'r Achwynydd | 12,983 | 13,499 | 12,268 | 11,176 | 9,804 |
| Rhyddfarnu ar ôl Treial | 4,891 | 5,670 | 5,123 | 4,441 | 3,350 |
| Pob Rheswm Arall | 5,547 | 5,443 | 4,296 | 4,214 | 4,226 |
| Terfynu'n Weinyddol | 757 | 1,083 | 1,050 | 1,162 | 1,084 |

**Nodiadau Esboniadol:** Mae materion yn ymwneud â dioddefwyr neu achwynwyr yn cynnwys gwrthdynnu, diffyg presenoldeb mewn treial neu lle nad yw 'tystiolaeth yr achwynydd yn cefnogi'r achos'. Mae rhesymau eraill yn cynnwys wrthdaro rhwng tystiolaeth neu fod elfen gyfreithiol hanfodol ar goll.

## Graff 12 - Canran y canlyniadau nad oeddynt yn euogfarnau yn ôl rhesymau 2014-15 i 2018-19

Mae'r graff hwn yn rhoi dadansoddiad manwl o gyfrannau'r rhesymau dros ganlyniadau nad oeddynt yn euogfarnau dros y pum mlynedd diwethaf.



- Roedd nifer y troseddau o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi a arweiniodd at gyhuddiad ac a gyrhaeddodd wrandawiad cyntaf wedi cynyddu o 960 yn 2017-18 i 1,177 yn 2018-19. Cafodd 13.5% o'r troseddau hyn eu fflagio fel trais rhywiol.[12]

# Gwybodaeth cydraddoldeb

## Rhyw

**Diffynyddion**

- Yn 2018-19, o'r 78,624 o ddiffynyddion a erlynwyd, yr oedd 72,317 o ddiffynyddion yn ddynion, 6,218 yn fenywod ac mewn 89 o achosion, ni chafodd y rhyw ei gofnodi.[13]
- Lle y cofnodwyd rhyw'r diffynnydd, yr oedd 92.1% yn ddynion a 7.9% yn fenywod,[14] yr un fath â'r flwyddyn flaenorol.
- Cafwyd 76.7% o ddiffynyddion gwrywaidd yn euog (55,486) a 74.0% o ddiffynyddion benywaidd (4,599).

**Achwynwyr**

- Ar gyfer data achwynwyr, cafodd 81,035 o achwynwyr eu cofnodi o System Rheoli Tystion y CPS. Cynyddodd cofnodi rhyw achwynwyr o 79.2% i 90.3% yn 2018-19, fyn dilyn mesurau a gymerwyd i sicrhau cofnodi rhyw yn fwy cadarn, ar draws ardaloedd heddluoedd.
- O'r holl achwynwyr, roedd 60,396 yn fenywod, 12,806 yn ddynion, ac mewn 7,833 o achosion, ni chafodd y rhyw ei gofnodi.
- Lle cofnodwyd rhyw'r achwynydd, roedd 82.5% yn fenywod a 17.5% yn ddynion.

## Ethnigrwydd

**Diffynyddion**

- Yn 2018-19, roedd 67.2% o ddiffynyddion a gafodd eu fflagio fel cam-drin domestig eu categoreiddio fel Gwyn (gostyngiad o 70.1% yn 2017-18),[15] gyda 62.2% yn cael eu nodi yn rhan o'r categori Gwyn Prydeinig. Cafodd 4.9% o ddiffynyddion eu nodi fel Du, gostyngiad o 5.8% yn y flwyddyn flaenorol a nodwyd bod 4.8% yn Asiaidd, gostyngiad o 5.6% yn y flwyddyn flaenorol.[16]

---

[12] Mae fflag ''trais rhywiol' yn cael ei rhoi ar ffeiliau'r CPS o ddechrau'r achos yn dilyn honiad o drais rhywiol yn y lle cyntaf. Bydd y fflag hon yn aros yn ei lle hyd yn oed os cymerir penderfyniad i gyhuddo trosedd ar wahân i drais rhywiol neu lle mae cyhuddiad o drais rhywiol yn cael ei ddiwygio'n nes ymlaen, a hynny i wneud yn siŵr bod egwyddorion y polisi trais rhywiol a throseddau rhywiol yn cael eu dilyn.

[13] Nid oes modd darparu data ar ryw dioddefwyr mewn perthynas â rhyw'r diffynnydd o'r systemau data cyfredol.

[14] Mae'r ffigur yr un fath os caiff ei gyfrifo o'r cyfanswm, gan gynnwys rhyw heb ei gofnodi (92.0% o ddiffynyddion gwrywaidd a 7.9% diffynyddion benywaidd).

[15] Roedd y gostyngiad yn adlewyrchu'r cynnydd mewn ethnigrwydd 'heb ei gofnodi' yn hytrach nac unrhyw newid sylweddol yn niferoedd diffynyddion BAME.

[16] Ni wnaeth 9.2% o ddiffynyddion ddatgan ethnigrwydd wrth gael eu harestio (cynnydd ers 2017-18 of 2.6 pwynt canran) ac ni chafodd ethnigrwydd 11.1% o ddiffynyddion ei ddarparu i'r CPS gan yr heddlu (cynnydd ers 2017-18 o 1.9 pwynt canran).

**Achwynwyr**

- Mae cofnodi ethnigrwydd achwynwyr wedi gwella gyda 65.1% wedi'u cofnodi yn 2018-19, i fyny o 52.9% yn 2017-18[17]. Yn 2018-19, roedd 58.2% o achwynwyr a gafodd eu fflagio fel cam-drin domestig eu categoreiddio fel Gwyn, gyda 54.5% yn cael eu nodi yn rhan o'r categori Gwyn Prydeinig. Cafodd 2.1% o achwynwyr eu nodi fel Du a 3.3% fel Asiaidd.[18]

## Oed

**Diffynyddion**

- Yn 2018-19, o blith y diffynyddion y cofnodwyd eu hoedran,[19] yr oedd y mwyafrif o ddiffynyddion yn 25–59 (78.8%) a 18–24 (16.9%) mlwydd oed.
- Yr oedd 19.0% o ddiffynyddion (14,897) yn 24 mlwydd oed ac iau, gyda 1,533 (2.0%) o ddiffynyddion yn 14–17 mlwydd oed a 72 (0.1%) yn 10–13 mlwydd oed.

**Achwynwyr**

- O blith yr achwynwyr y cofnodwyd eu hoedran,[20] yr oedd y mwyafrif yn 25–59 (70.9%) a 18–24 (18.3%) mlwydd oed.
- Yr oedd 22.6% o achwynwyr (17,095) yn 24 mlwydd oed ac iau, gyda 2,382 (3.1%) o achwynwyr yn 14–17 mlwydd oed a 691 (0.9%) yn 10–13 mlwydd oed ac 166 (0.2%) yn iau na 10 mlwydd oed.
- Bu cynnydd parhaus yn yr achwynwyr a gofnodwyd a oedd dros 70 mlwydd oed, o flwyddyn i flwyddyn – yn 2018-19 yr oedd 1,752 o achwynwyr (2.3%).

---

[17] Nid oedd data 2017-18 yn ddigon cadarn i'w gymharu â 2018-19.

[18] Ni wnaeth 10.4% o achwynwyr ddatgan ethnigrwydd (cynnydd ers 2017-18 of 3.1 pwynt canran) ac ni chafodd ethnigrwydd 24.4% o achwynwyr ei ddarparu i'r CPS gan yr heddlu (cwymp ers 2017-18 o 15.4 pwynt canran).

[19] Cofnodwyd 99.9% o oedrannau diffynyddion yn 2018-19 – tebyg i'r 99.8% yn 2017-18.

[20] Cofnodwyd 93.4% o oedrannau achwynwyr yn 2018-19 – cynnydd bychan o 92.3% yn 2017-–18.

## Perthnasoedd

- Nid yw’r cofnodi ar y berthynas rhwng y troseddwr a'r achwynydd yn ddigon cadarn i’w asesu eto. Cofnodwyd 50% o’r data o fewn cronfa ddata CPS.
- Cafodd yr Arferion Gweithredu Safonol (SOP) ar gyfer cyhuddo, llysoedd ynadon a Llysoedd y Goron eu diweddaru i ofyn am gofnodi data ynghylch perthnasoedd mewn achosion wedi’u fflagio fel cam-drin domestig. Yn ogystal, darparwyd cyfarwyddyd ynghylch mewnbynnu’r data i Brif Erlynwyr y Goron a chydlynwyr VAWG.
- Yn2019-20 rhoddir ystyriaeth i gofnodi’r data hwn drwy’r Fframwaith Arferion Gorau ar gyfer Cam-drin Domestig.

Darperir y data gwaelodol yn yr atodiad sydd â dolen ato yn Data Gwaelodol / Trais yn erbyn Menywod. Mae data Ardal y CPS a’r heddlu yn Atodiad 1.

# Data stelcio neu aflonyddu

Dolen yn ôl i'r brif adran ar stelcio neu aflonyddu (tudalen 12)

Dim ond o'r system data ar sail troseddau mae data'r CPS ar stelcio ac aflonyddu ar gael. Felly, nid yw'r data hwn ar gael ond yng nghyswllt nifer y troseddau lle y rhoddir cyhuddiad, ac nid yw ar gael yn ôl diffynyddion. O'r herwydd, ni allwn ddarparu data ar atgyfeiriadau gan yr heddlu, cyhuddo na chanlyniadau. Hefyd, nid yw data troseddau ar gael yn ôl rhyw'r diffynnydd na'r achwynydd. Mae'r holl ddata isod yn cyfeirio at nifer y troseddau lle dechreuwyd erlyniadau ac y bu iddynt gyrraedd gwrandawiad cyntaf mewn llys ynadon.


### Tabl 13 - Troseddau aflonyddu a stelcio - erlyniadau a ddechreuwyd ac a gyrhaeddodd gwrandawiad cyntaf mewn llys ynadon rhwng 2014-15 a 2018-19

Mae'r tabl hwn yn darparu data ar nifer y troseddau stelcio ac aflonyddu, gan nodi cyfrannau pob trosedd a gafodd eu fflagio fel cam-drin rhywiol.

| | | 2014–15 | | 2015–16 | | 2016–17 | | 2017–18 | | 2018-19 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Vol | % DA | Vol | % DA | Vol | % DA | Vol | % DA | Vol | % DA |
| Deddf Cyfraith Teulu 1996 {42A(1) a (5)} | Torri gorchymyn rhag molestu – Deddf Cyfraith Teulu 1996 | 7,013 | 89.7 | 6,672 | 93.6 | 6,505 | 94.8 | 6,266 | 95.0 | 5,536 | 95.2 |
| Deddf Gwarchod rhag Aflonyddu 1997 {2(1) a (2)} | Aflonyddu heb drais | 9,180 | 68.0 | 10,073 | 70.9 | 9,276 | 72.1 | 8,767 | 74.0 | 7,127 | 72.8 |
| Deddf Gwarchod rhag Aflonyddu 1997 {4(1) a (4)} | Aflonyddu – peri i bobl ofni trais | 1,839 | 66.6 | 1,811 | 65.7 | 1,654 | 68.3 | 1,539 | 69.3 | 1,300 | 70.8 |
| Deddf Gwarchod rhag Aflonyddu 1997 {2A(1) a (4)} | Stelcio gydag ofn / braw / gofid | 676 | 69.7 | 643 | 70.9 | 510 | 68.6 | 921 | 76.9 | 1,246 | 79.8 |
| Deddf Gwarchod rhag Aflonyddu 1997 {4A(1)(a)(b)(i) a (5)} | Stelcio gydag ofn o drais | 133 | 73.7 | 128 | 67.2 | 83 | 66.3 | 172 | 78.5 | 313 | 83.1 |
| Deddf Gwarchod rhag Aflonyddu 1997 {4A(1)(a)(b)(ii) a (5)} | Stelcio yn cynnwys braw neu ofid difrifol | 294 | 66.0 | 331 | 61.3 | 366 | 59.0 | 523 | 65.0 | 650 | 76.0 |
| Deddf Gwarchod rhag Aflonyddu 1997 {5(5) a (6)} | Aflonyddu – torri gorchymyn atal | 13,126 | 82.2 | 14,863 | 85.8 | 15,937 | 86.3 | 16,143 | 87.4 | 15,740 | 87.9 |
| Deddf Gwarchod rhag Aflonyddu 1997 {5(5) a (6)} | Aflonyddu – torri gorchymyn atal ar ôl rhyddfarn | 433 | 77.6 | 521 | 85.2 | 677 | 82.9 | 869 | 83.7 | 780 | 82.6 |


## Graff 14 - Nifer y troseddau aflonyddu 2014-15 i 2018-19

Dengys y graff hwn nifer a chyfran y gwahanol droseddau aflonyddu.




## Graff 15 - Nifer y troseddau stelcio 2014-15 i 2018-19

Dengys y graff hwn nifer a chyfran y gwahanol droseddau stelcio.




Nid yw data troseddau ar gael yn ôl rhyw, ethnigrwydd nac oedran y diffynnydd na'r achwynydd. Darperir ystadegau cenedlaethol swyddogol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar erlyniadau ac euogfarnau stelcio ac aflonyddu am flwyddyn galendr 2018 yn Atodiad 2. Mae'r data'n amlinellu canlyniadau erlyniadau yn ôl diffynnydd.

- o Cafodd mwy o ddiffynyddion eu herlyn a'u cael yn euog o droseddau stelcio yn 2018 o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol;[21]
- o Cafodd llai o ddiffynyddion eu herlyn a'u cael yn euog o droseddau aflonyddu nac yn y flwyddyn flaenorol;[22]
- o Cyhoeddwyd llai o orchmynion atal[23] yn dilyn euogfarnau a rhyddfarnau yn 2018; a

[21] Gostyngodd y gymhareb euogfarnau ar gyfer troseddau a.2A PHA, ond cynyddodd y gymhareb ar gyfer troseddau a.4A.
[22] Arhosodd y gymhareb euogfarnau ar gyfer troseddau dan a.2 Deddf Gwarchod rhag Aflonyddu (PHA) yn gyson a gostyngodd yng nghyswllt troseddau a.4.
[23] Mae ystadegau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar orchmynion atal dim ond yn ymwneud â diffynyddion a gafodd orchmynion atal mewn cysylltiad â'u prif drosedd.

- o Cafwyd mwy o erlyniadau ac euogfarnau am dorri gorchmynion atal na'r nifer o orchmynion atal a gyflwynwyd yn dilyn euogfarnau neu ryddfarnau.[24]

# Data wedi'i fflagio fel trais rhywiol

Dolen yn ôl i'r prif adran ar drais rhywiol (tudalen 13)

Mae'r adran hon yn bennaf yn cyflwyno data'r CPSD ar erlyniadau ac euogfarnau am drais rhywiol. Fodd bynnag, rydym wedi cael ymholiadau ynghylch y gwahaniaeth rhwng data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a data'r CPS ar euogfarnau trais rhywiol yn y gorffennol, ac ydym wedi amlinellu isod sut maen nhw'n cael eu mesur yn wahanol a'u defnyddio at wahanol ddibenion. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n darparu'r Ystadegau Gwladol[25] ar erlyniadau, euogfarnau a dedfrydu ar gyfer trais rhywiol yn benodol, a chaiff data'r CPS ei gasglu'n bennaf i ddibenion rheoli achosion i sicrhau y caiff egwyddorion y polisi ar drais rhywiol a throseddau rhywiol eu hystyried gydol oes pob achos perthnasol. Dylid nodi bod gwahaniaethau pwysig o ran y ffordd y caiff troseddau trais rhywiol eu cofnodi rhwng systemau data'r gwahanol sefydliadau.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cyfrif euogfarn am drais rhywiol ddod ond pan fydd yr euogfarn derfynol yn un am drais rhywiol yn benodol. Byddai achos a ddechreuodd yn wreiddiol fel un o drais rhywiol ond a dderbyniodd euogfarn maes o law am drosedd wahanol (fel trosedd llai difrifol o ymosod yn rhywiol) yn cyfrif fel euogfarn dan drosedd llai difrifol.

Ar y llaw arall, mae data sydd wedi cael ei fflagio gan y CPS ar euogfarnau am drais rhywiol yn cynnwys pob euogfarn lle y gwnaed honiad  drais rhywiol, waeth am beth y rhoddwyd yr euogfarn derfynol. Bydd y fflag trais rhywiol yn aros yn ei lle hyd yn oed os cymerir penderfyniad i gyhuddo trosedd ar wahân i drais rhywiol neu lle mae cyhuddiad o drais rhywiol yn cael ei ddiwygio'n nes ymlaen,  i wneud yn siŵr bod egwyddorion y polisi trais rhywiol a throseddau rhywiol yn cael eu dilyn.

Mae'r gwahaniaeth hwn o ran cofnodi yn golygu bod y CPS yn cofnodi nifer llawer uwch o erlyniadau ac euogfarnau am drais rhywiol, nac y mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Yn ogystal, yn draddodiadol, caiff Ystadegau Gwladol y Weinyddiaeth Gyfiawnder eu cyflwyno ar sail blwyddyn galendr. Defnyddiwyd dull y CPS o gofnodi yn cyson yn adroddiad blynyddol VAWG.

---

[24] Arhosodd y gymhareb euogfarnau ar draws pob erlyniad am dorri gorchmynion atal, yn sefydlog (90%).

[25] Caiff yr ystadegau swyddogol yn ymwneud â throseddu a phlismona eu cadw gan y Swyddfa Gartref a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ac mae'r ystadegau'n ymwneud â dedfrydu, achosion y llys troseddol, troseddwyr a ddygir i gyfiawnder, y llysoedd a'r farnwriaeth yn cael eu cadw gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o ddata'r Weinyddiaeth Gyfiawnder[26] a'r CPS gyda'i gilydd, i dynnu sylw at y gwahaniaeth o ran niferoedd.

| **Disgrifiadau a ddefnyddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder** | **Ystadegau a gyhoeddwyd** | **Disgrifiadau a ddefnyddir gan y CPS** | **Ystadegau a gyhoeddwyd** |
|---|---|---|---|
| Diffynyddion lle mai'r prif drosedd a gafodd ei herlyn oedd trais rhywiol: | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder: 2018 (blwyddyn galendr) | Fflagiau'r CPS o ran pob honiad o drais rhywiol (hyn yn cyfrif am y niferoedd uwch): | CPS: 2018-19 (blwyddyn ariannol) |
| Cynhaliwyd achos yn erbyn | 1,588 | Erlyniadau a gwblhawyd | 3,034 |
| Euogfarn am drais rhywiol | 919 | Euogfarn am drais rhywiol neu drosedd wahanol, llai difrifol | 1,925 |

Mae'r data a roddir isod yn ymwneud â'r *holl* ddiffynyddion ac achwynwyr/dioddefwyr sydd wedi'u fflagio dan drais rhywiol, waeth beth fo'u rhyw, gyda manylion pellach ynghylch rhyw, lle bo ar gael. Bydd data sy'n cael ei adrodd yma yn gorgyffwrdd â data yn adran yr adroddiad ar Gam-drin Plant yn ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol oherwydd y gyfran o erlyniadau wedi'u fflagio fel trais rhywiol a oedd yn droseddau yn erbyn plant.

Darperir manylion pellach ynghylch data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r gwahaniaethau rhwng y setiau data yn Atodiad 2 tudalen B11.

**Noder bod yr holl ddata'n cyfeirio at achosion wedi'u fflagio'n drais rhywiol gan y CPS[27].** Mae'r data sy'n sail i'r rhan hon o'r adroddiad i'w weld yn yr adran ar Drais Rhywiol ar wefan y CPS (linked).

## Data cyn cyhuddo

### Tabl 16 – Cyfanswm y rhai dan amheuaeth a atgyfeiriwyd gan yr heddlu at y CPS am benderfyniad ynghylch cyhuddo 20145-15 i 2018-19.

Dengys y tabl hwn y bu gostyngiad sylweddol mewn atgyfeiriadau gan yr heddlu dros y flwyddyn ddiwethaf.


| | **2014 - 15** | **2015 - 16** | **2016 - 17** | **2017 - 18** | **2018 - 19** |
|---|---|---|---|---|---|
| Derbyniwyd gan yr heddlu | 4,104 | 4,385 | 4,595 | 4,370 | 3,375 |

**Nodiadau esboniadol:** Cyn 2018-19, roedd adroddiad VAWG yn cofnodi'r data ar 'benderfyniadau cyn cyhuddo' wedi'u cwblhau gan y CPS fel 'atgyfeiriadau'r heddlu'. Mae'r adroddiad hwn yn darparu dwy set o ddata - (i) achosion wedi'u derbyn gan yr heddlu a'u cyfeirio atom ni am benderfyniad ynghylch cyhuddo (Tabl 16) a (ii) 'penderfyniadau cyn cyhuddo a gwblhawyd gan y CPS' (Graff 17 (a elwid yn flaenorol yn 'atgyfeiriadau'r heddlu').

[26] Mae'r ffigurau a roddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymwneud â diffynyddion lle mae'r troseddau hyn oedd eu prif droseddau.
[27] Pan gaiff achosion sy'n cynnwys honiad o drais rhywiol eu hatgyfeirio gan yr heddlu maent yn cael eu fflagio fel 'trais rhywiol' yn system data CMS y CPS.

## Graff 17 – Penderfyniadau cyn-cyhuddo a gwblhawyd gan y CPS 2014-15 i 2018-19

Dengys y graff hwn ostyngiad yng nghyfanswm y penderfyniadau cyn cyhuddo ers 2015-16 ynghyd â chynnydd mewn penderfyniadau heb fod yn rhai cyfreithiol.





**Nodiadau Esboniadol:** Bydd y data ar gyfanswm y penderfyniadau cyn cyhuddo'n seiliedig ar y dyddiad y cafodd y cyngor cyhuddo ei ddarparu i'r heddlu. Felly, bydd data 2018-19 yn cynnwys achosion a atgyfeiriwyd gan yr heddlu at y CPS yn 2018-19, yn 2017-18 neu'n gynharach. Yn ogystal, os yw'r fflag cam-drin domestig heb ei osod ar yr achos pan dderbynnir ef oddi wrth yr heddlu, gellir ei ychwanegu yn ddiweddarach. Dyma' rhesymau pam fod nifer y penderfyniadau cyn cyhuddo a gwblhawyd yn graff 17 yn wahanol i'r nifer o unigolion dan amheuaeth a atygyfeiriwyd gan yr heddlu yn Nhabl 16.

Echelin Y Chwith yw'r canran o'r cyfanswm o benderfyniadau cyn cyhuddo, wedi'u rhannu i lawr i gyfran y penderfyniadau cyfreithiol a rhai a derfynwyd yn weinyddol (siart bar).

Echelin Y Dde yw'r nifer o'r cyfanswm o benderfyniadau cyn cyhuddo a gwblhawyd gan y CPS (graff llinell)

## Graff 18 – Canlyniadau penderfyniadau cyn-cyhuddo yn ôl niferoedd 2014-15 i 2018-19

Dengys y graff hwn, ers 2015-16 y bu cydgyfeiriad yn nifer y penderfyniadau i gyhuddo, i beidio â chyhuddo a therfyniadau gweinyddol.




**Nodiadau Esboniadol:** Mae delio ag achosion y tu allan i'r llys, fel rhybudd neu rybudd amodol ( lle y mae'r rhain yn gamau priodol) hefyd yn benderfyniadau cyfreithiol. Nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y graff uchod oherwydd y

niferoedd cymharol isel. Yn ystod 2014-15 i 2017-18 bu cyfartaledd o 27 achosion y deliwyd â hwy y tu allan i'r llys, bob blwyddyn. Yn y flwyddyn ddiweddaraf cafwyd 15.

Byddai'r dull o adrodd canran y gyfradd gyhuddo a ddefnyddiwyd mewn adroddiadau blaenorol (a gyfrifwyd fel y gyfran o rai dan amheuaeth a gyhuddwyd o blith cyfanswm yr holl benderfyniadau cyn cyhuddo, yn cynnwys rhai a derfynwyd yn weinyddol) yn cynhyrchu'r canlynol:

- Roedd cyfran y penderfyniadau cyn cyhuddo a arweiniodd at gyhuddiad wedi cwympo o 46.9% yn 2017-18 i 34.4% yn 2018-19 – cwymp o 12.5 pwynt canran.

Mae'r dull ar gyfer adrodd y canran o gyhuddiadau wedi cael ei ddiwygio o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol fel yn Nhabl 19 isod. Mae'r gyfradd gyhuddo bellach wedi ei chyfrifo fel canran o'r achosion a gyhuddwyd allan o'r holl benderfyniadau cyfreithiol.

Mae'r dull hwn yn canolbwyntio'n benodol ar y penderfyniadau cyfreithiol a wnaed gan erlynwyr y mae'r CPS yn gyfrifol amdanynt. Gan y bu cynnydd sylweddol yn y gyfran o benderfyniadau heb fod yn rhai cyfreithiol (terfyniadau gweinyddol) mewn llawer o achosion trais rhywiol dros y tair blynedd ddiwethaf, mae'r data hwn wedi ei dynnu o'r cyfrifiad gan adael ond yr achosion hynny lle y mae'r erlynydd wedi ystyried yr holl dystiolaeth ar gael ac wedi penderfynu cyhuddo, peidio â chymryd unrhyw gamau pellach yn yr achos neu y delir â'r achos y tu allan i'r llys.

### Tabl 19 – Canran canlyniadau penderfyniadau cyn cyhuddo a gwblhawyd gan y CPS 2014-15 i 2018-19


Mae'r tabl hwn yn dangos cynnydd mawr yn y gyfran o achosion a derfynwyd yn weinyddol ers 2016-17 ac yn adrodd newidiadau sylweddol yng nghyfrannau penderfyniadau cyfreithiol dros y flwyddyn ddiwethaf.

| | 2014 - 15 | 2015 - 16 | 2016 - 17 | 2017 - 18 | 2018 - 19 |
|---|---|---|---|---|---|
| Penderfyniadau Cyfreithiol (sylwedd) (Wedi Cyhuddo, Dim Erlyniad, Delio ag Achos y Tu Allan i'r Llys) | 92.1% | 90.5% | 88.4% | 78.2% | 71.4% |
| *Wedi Cyhuddo (% o Benderfyniadau Cyfreithiol)* | *64.3%* | *63.0%* | *62.8%* | *60.1%* | *48.2%* |
| *Dim Erlyniad (% o Benderfyniadau Cyfreithiol)* | *35.2%* | *36.6%* | *36.7%* | *39.4%* | *51.4%* |
| *Delio ag Achos y Tu Allan i'r Llys (% o Benderfyniadau Cyfreithiol)* | *0.5%* | *0.4%* | *0.5%* | *0.6%* | *0.4%* |
| Wedi Terfynu'n Weinyddol | 7.9% | 9.4% | 11.5% | 21.7% | 28.6% |
| Arall | 0.0% | 0.1% | 0.1% | 0.1% | 0.0% |

## Graff 20 – Cyfartaledd amseroldeb penderfyniad y CPS i gyhuddo (diwrnodau calendr) o gymharu â chyfartaledd nifer ymgynghoriadau'r CPS â'r heddlu 2014-15 i 2018-19

Ar gyfartaledd, yr amser i ymateb i'r heddlu drwy ymgynghoriad unigol oedd oddeutu 30 diwrnod ar ddiwedd Ch4 2018-19. Gyda'r nifer cynyddol o ymgynghoriadau i bob achos, mae cyfartaledd nifer y dyddiad a gymerir i gyhuddo wedi cynyddu i dros 107 o ddiwrnodiau.

Dengys y graff hwn fod mwy o ymgynghoriadau'n digwydd ar achosion sy'n diweddu gyda Dim Camau Pellach wrth i erlynwyr gynghori ar ymholiadau a allai gryfhau'r achos. Mae mwy o gymhlethdod a rhagor o ymgynghoriadau fesul achos wedi arwain at gynnydd yn yr amseroldeb cyffredinol.




**Nodiadau Esboniadol:** Mae cyfartaledd amseroldeb y penderfyniad i gyhuddo yn cynnwys amser y CPS ac amser yr heddlu ac mae'n gyfrifiad o gyfartaledd nifer y diwrnodau calendr sydd wedi mynd heibio ers i'r heddlu geisio cyflwyno achos am y tro cyntaf, hyd at u diwrnod pryd y gwnaed y penderfyniad diwethaf i gyhuddo. Mae'r data'n cynnwys achosion lle yr oedd yn ofynnol i'r heddlu gyflwyno tystiolaeth bellach cyn penderfyniad i gyhuddo. Mae hyn, yn gyffredinol, yn cynnwys mwy nac un cyflwyniad a mwy o ymchwilio.

# Data ar ôl cyhuddo

### Tabl 21: Erlyniadau wedi'u fflagio fel trais rhywiol a gwblhawyd gan y CPS yn ôl canlyniad 2014-15 i 2018-19


Dengys y tabl hwn y bu gostyngiad mewn erlyniadau ers 2016-17 ond cynnydd yn y gyfradd euogfarnau.

| | 2014-15 | | 2015-16 | | 2016-17 | | 2017-18 | | 2018-19 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 2,581 | 56.9 | 2,689 | 57.9 | 2,991 | 57.6 | 2,635 | 58.3 | 1,925 | 63.4 |
| Dim Euogfarn | 1,955 | 43.1 | 1,954 | 42.1 | 2,199 | 42.4 | 1,882 | 41.7 | 1,109 | 36.6 |
| **Cyfanswm** | **4,536** | | **4,643** | | **5,190** | | **4,517** | | **3,034** | |

- Yn 2018-19, o'r 3,034 o erlyniadau wedi'u fflagio fel trais rhywiol a gwblhawyd, dim ond 2,983 a ddyrannwyd i un o'r deuddeg categori Prif Drosedd[28]. O'r rhain, cafodd 2,931 (96.6%) o achosion a gafodd eu fflagio'n wreiddiol fel trais rhywiol, eu herlyn yn y diwedd eu herlyn yng nghategorïau prif droseddau 'troseddau rhywiol gan gynnwys trais rhywiol' (2,401) neu'r prif u difrifol eraill sef 'lladd' (naw) neu 'troseddau yn erbyn y person' (521). Mae 'troseddau yn erbyn y person' yn gategori eang ac yn cynnwys troseddau difrifol iawn fel Achosi Niwed Corfforol Difrifol yn fwriadol hyd at droseddau llai difrifol fel ymosodiad cyffredin.

### Graff 22: Nifer canlyniadau erlyniadau 2014-15 i 2018-19

Mae'r graff hwn yn rhoi dadansoddiad manwl o nifer canlyniadau erlyniadau dros y pum mlynedd diwethaf.




**Nodiadau Esboniadol:** Achosion ar ôl cyhuddo a derfynwyd yn weinyddol yw'r rhai lle na all erlyniad fynd rhagddo oherwydd bod diffynnydd wedi methu ag ymddangos yn y llys a bod warant wedi'i chyhoeddi gan y fainc i'w arestio

[28] Ni chafodd y 51 trosedd sydd ar ôl eu dyrannu i Gategori Prif Drosedd am iddynt gael eu terfynu'n weinyddol neu eu traddodi i'w dedfrydu.

ef/hi; neu fod y diffynnydd wedi marw neu wedi cael ei ganfod yn anffit i bledio; neu lle y mae'r achos wedi ei ohirio am gyfnod amhenodol. Os caiff warant gan y fainc ei gweithredu, gellir ailagor yr achos.


## Graff 23: Canran canlyniadau erlyniadau 2014-15 i 2018-19

Mae'r tabl hwn yn rhoi dadansoddiad manwl o ganran canlyniadau erlyniadau dros y pum mlynedd diwethaf.

| | 2014 - 15 | 2015 - 16 | 2016 - 17 | 2017 - 18 | 2018 - 19 |
|---|---|---|---|---|---|
| Euogfarnau | 56.9% | 57.9% | 57.6% | 58.3% | 63.4% |
| ***O'u plith*** | | | | | |
| *Pledion Euog* | *34.0%* | *35.0%* | *33.3%* | *33.7%* | *36.0%* |
| *Euogfarnu ar ôl Treial* | *22.9%* | *23.0%* | *24.4%* | *24.6%* | *27.5%* |
| *Profwyd mewn Absenoldeb* | *0.0%* | *0.0%* | *0.0%* | *0.0%* | *0.0%* |
| Dim Euogfarn | 43.1% | 42.1% | 42.4% | 41.7% | 36.6% |
| **O'u plith** | | | | | |
| *Erlyniad wedi'i Ollwng* | *13.3%* | *13.1%* | *12.4%* | *14.6%* | *14.0%* |
| *Rhyddfarnu/Gwrthod ar ôl Treial* | *28.4%* | *27.4%* | *28.3%* | *25.3%* | *20.9%* |
| *Wedi Terfynu'n Weinyddol* | *1.4%* | *1.5%* | *1.7%* | *1.8%* | *1.6%* |


## Graff 24: Nifer y canlyniadau yn dilyn treial 2014-15 i 2018-19

Dengys y graff hwn y bu gostyngiad yn nifer yr euogfarnau a'r rhyddfarnau ers 2016-17.




## Graff 25: Canran canlyniadau yn dilyn treial 2014-15 i 2018-19

Dengys y graff y bu cynnydd yn y gyfradd euogfarnau yn dilyn treial yn y flwyddyn ddiwethaf.




## Tabl 26: Cyfanswm canlyniadau nad oeddynt yn euogfarnau yn ôl rhesymau 2014-15 i 2018-19


Mae'r tabl hwn yn rhoi dadansoddiad manwl o'r rhesymau dros ganlyniadau nad oeddynt yn euogfarnau dros y pum mlynedd diwethaf.

| | 2014 - 15 | 2015 - 16 | 2016 - 17 | 2017 - 18 | 2018 - 19 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y canlyniadau nad oeddent yn euogfarnau** | **1,955** | **1,954** | **2,199** | **1,882** | **1,109** |
| Rhyddfarnu ar ôl Treial | 1,245 | 1,229 | 1,399 | 1,103 | 618 |
| Materion yn Ymwneud â'r Dioddefwr | 332 | 335 | 370 | 304 | 196 |
| Pob Rheswm Arall | 314 | 320 | 340 | 395 | 247 |
| Terfynu'n Weinyddol | 64 | 70 | 90 | 80 | 48 |

**Nodiadau Esboniadol:** Mae materion yn ymwneud â dioddefwyr neu achwynwyr yn cynnwys gwrthdynnu, diffyg presenoldeb mewn treial neu lle nad yw 'tystiolaeth yr achwynydd yn cefnogi'r achos'. Mae rhesymau eraill yn cynnwys wrthdaro rhwng tystiolaeth neu fod elfen gyfreithiol hanfodol ar goll.

## Graff 27: Canran y canlyniadau nad oeddynt yn euogfarnau yn ôl rhesymau 2014-15 i 2018-19

Mae'r graff hwn yn rhoi dadansoddiad manwl o gyfrannau'r rhesymau dros ganlyniadau nad oeddynt yn euogfarnau dros y pum mlynedd diwethaf.




- O'r holl ganlyniadau nad oeddynt yn euogfarnau, gostyngodd y gyfran a oedd yn benodol o ganlyniad i ryddfarnau gan reithgor o 57.8% yn 2017-18 i 54.3% yn 2018-19 (3.5 pwynt canran).

**Gwahanol fathau o achosion wedi'u fflagio fel trais rhywiol.**

- Yn 2018-19 roedd achosion wedi'u fflagio'n drais rhywiol yn cael eu hasesu yn ôl y fflagiau a ychwanegwyd at yr achos, i archwilio unrhyw wahaniaeth oherwydd y mathau o achosion trais rhywiol:
  - 'Trais rhywiol a cham-drin plant' (achosion yn cynnwys fflag 'trais rhywiol' a fflag 'cam-drin plant');
  - 'Trais rhywiol a cham-drin domestig (achosion yn cynnwys fflag 'trais rhywiol' a fflag 'cam-drin domestig');
  - 'Trais rhywiol, cam-drin plant a cham-drin domestig' (achosion yn cynnwys fflag 'trais rhywiol', fflag 'cam-drin plant' a fflag 'cam-drin domestig');
  - 'Trais rhywiol yn unig' (achosion sydd ond yn cynnwys fflag 'trais rhywiol').

- Mae achosion 'Trais rhywiol yn unig' yn cynnwys trais rhywiol gan ddieithryn a thrais rhywiol gan gydnabod; mae'r mwyafrif o'r achosion hyn yn drais gan gydnabod[29] ac felly cyfeirir atynt fel achosion o 'drais rhywiol gan gydnabod'.
- Am y tro cyntaf, darperir data ar gyfer yr adroddiad hwn ar ddadansoddiad o berfformiad yn ôl y math o achosion trais rhywiol gan gynnwys yn ôl bandiau oedran diffynyddion (data gwaelodol ar gyfer yr adroddiad hwn).

# Gwybodaeth cydraddoldeb

## Rhyw

**Diffynyddion**

- Yn 2018-19, o'r 3,034 o ddiffynyddion a erlynwyd, yr oedd 2,970 o ddiffynyddion yn ddynion, 53 yn fenywod, ac ni chofnodwyd y rhyw ar gyfer 11 o ddiffynyddion.[30]
- Lle cofnodwyd rhyw'r diffynnydd, roedd 98.2% yn ddynion a 1.8% yn fenywod. [31] [32]
- Cafwyd 63.3% o ddiffynyddion gwrywaidd yn euog (1,881) a 69.8% o ddiffynyddion benywaidd (37).

**Achwynwyr**

- Ar gyfer data achwynwyr, cafodd 4,874 o achwynwyr eu cofnodi o'r System Rheoli Tystion. Cwympodd cofnodi rhyw'r achwynydd o 74.2% yn 2017-18 i 72.3% yn 2018-19.
- O'r holl achwynwyr, roedd 2,955 yn fenywod, 569 yn ddynion, ac ni chafodd y rhyw ei gofnodi yn achos 1,350 o achwynwyr.
- Lle cofnodwyd rhyw'r achwynydd, roedd 83.9% yn fenywod a 16.1% yn ddynion; roedd cynnydd o 4.0 pwynt canran mewn achwynwyr gwrywaidd o 2017-18.

[29] Ym mis Ionawr 2013, cafodd Trosolwg o Droseddu Rhywiol yng Nghymru a Lloegr, y bwletin ystadegau swyddogol cyntaf ar y cyd ar drais rhywiol ei ryddhau gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) a'r Swyddfa Gartref. Roedd yn cynnwys gwybodaeth fod oddeutu 90% o'r rhai sy'n dioddef trais rhywiol yn adnabod y troseddwyr cyn i'r drosedd gael ei chyflawni a dim ond 10% o'r troseddau rhywiol mwyaf difrifol a oedd yn cael eu cyflawni gan ddieithriaid. Diweddariad 2018 yma.
[30] Nid oes modd darparu data ar ryw dioddefwyr mewn perthynas â rhyw'r diffynnydd o'r systemau data cyfredol.
[31] Mae'r ffigur yn debyg os caiff ei gyfrifo o'r cyfanswm, gan gynnwys rhyw heb ei gofnodi (97.9% o ddiffynyddion gwrywaidd a 1.7% diffynyddion benywaidd).
[32] Caiff diffynyddion benywaidd eu herlyn am helpu, annog neu gynllwynio.

## Ethnigrwydd

**Diffynyddion**

- Yn 2018-19, cafodd 53.0% o ddiffynyddion eu categoreiddio fel Gwyn, gyda 47.6% ohonynt yn cael eu nodi yn rhan o'r categori Gwyn Prydeinig. Cafodd 7.9% o ddiffynyddion eu nodi'n Asiaidd – cynnydd o 1.4 pwynt canran o 2017-18, anodwyd bod 8.9% yn Ddu – gostyngiad o 0.4ppt.[33]

**Achwynwyr**

- Nid yw ethnigrwydd 57.2% o achwynwyr yn cael ei gofnodi o hyd, er i hynny wella ychydig o 2017-18; o'r herwydd, nid yw'r data wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn.

## Oed

**Diffynyddion**

- Yn 2018-19, o blith y diffynyddion y cofnodwyd eu hoedran,[34] yr oedd y mwyafrif o ddiffynyddion yn 25–59 (60.8%) a 18–24 (20.5%) mlwydd oed.
- Yr oedd 27.1% o ddiffynyddion (821) yn 24 mlwydd oed ac iau, gyda 179 (5.9%) o ddiffynyddion yn 14–17 mlwydd oed a 21 (0.7%) yn 10–13 mlwydd oed.

**Achwynwyr**

- O blith yr achwynwyr y cofnodwyd eu hoedran,[35] yr oedd y grwpiau mwyaf o achwynwyr yn 25–59 (49.6%) a 18–24 (24.6%) mlwydd oed.
- Yr oedd 48.5% o achwynwyr (2,022) yn 24 mlwydd oed ac iau, gyda 647 (15.5%) o achwynwyr yn 14–17 mlwydd oed a 302 (7.2%) yn 10–13 mlwydd oed a 49 (0.2%) yn iau na 10 mlwydd oed.
- O'r holl achwynwyr gwrywaidd[36] roedd cyfradd uwch dan 14 mlwydd oed o gymharu ag achwynwyr benywaidd. O'r holl achwynwyr benywaidd roedd cyfradd uwch o unigolion 14-24 oed mlwydd oed o gymharu ag achwynwyr gwrywaidd.

Darperir y data gwaelodol yn yr atodiad sydd â dolen ato yn Data Gwaelodol / Trais yn erbyn Menywod. Mae data Ardal y CPS a'r heddlu yn Atodiad 1.

---

[33] Ni ddarparwyd 8.7% o ethnigrwydd gan yr heddlu yn 2017–18 (cwymp ers 2017-18 o 1.0 pwynt canran) ac ni ddatganwyd 18.9% gan y diffynnydd (cynnydd ers 2017-18 o 5.4 pwynt canran).

[34] Cofnodwyd 99.7% o oedrannau diffynyddion yn 2018-19 – tebyg i'r 99.6% yn 2017-18.

[35] Cofnodwyd 85.5% o oedrannau diffynyddion yn 2018-19, yr un fath ag yn 2017-18.

[36] O'r holl achwynwyr y cofnodwyd eu hoedran a'u rhyw.

# Data troseddau rhywiol (ac eithrio trais rhywiol)

Dolen yn ôl i'r prif adran ar drais rhywiol (tudalen 18)

Nid yw cofnodion y CPS yn cynnwys data'n ymwneud â phenderfyniadau cyn cyhuddo o ran troseddau rhywiol (ac eithrio trais rhywiol), gan nad yw'r categori prif drosedd, sef 'troseddau rhywiol' sy'n cynnwys trais rhywiol a phob trosedd rywiol, ond yn cael ei ddyrannu i achosion ar derfyn achosion erlyn.[37]

Mae'r data a roddir isod yn ymwneud â *holl* ddiffynyddion troseddau rhywiol (ac eithrio trais rhywiol), gyda manylion pellach ynghylch rhyw, lle bo ar gael.[38] Bydd data sy'n cael ei adrodd yma yn gorgyffwrdd â data yn adran yr adroddiad ar Gam-drin Plant yn ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol gan fod 37.3% o droseddau rhywiol (ac eithrio trais rhywiol) yn droseddau yn erbyn plant.

**Tabl 28 - Erlyniadau wedi'u fflagio fel trais rhywiol a gwblhawyd gan y CPS yn ôl canlyniad rhwng 2014-15 a 2018-19**

Dengys y tabl hwn y bu gostyngiad mewn erlyniadau ers 2016-17 ond cynnydd yn y gyfradd euogfarnau.


| | 2014-15 | | 2015-16 | | 2016-17 | | 2017-18 | | 2018-19 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 7,591 | 77.5 | 9,351 | 78.0 | 10,721 | 79.5 | 9,654 | 80.4 | 8,238 | 81.3 |
| Dim Euogfarn | 2,198 | 22.5 | 2,644 | 22.0 | 2,769 | 20.5 | 2,351 | 19.6 | 1,889 | 18.7 |
| **Cyfanswm** | **9,789** | | **11,995** | | **13,490** | | **12,005** | | **10,127** | |

[37] Mae data'r CPS ar droseddau rhywiol (ac eithrio trais rhywiol) yn tarddu o'r categori prif drosedd 'troseddau rhywiol' drwy eithrio diffynyddion sydd wedi'u fflagio dan drais rhywiol. Does dim fflag monitro ar wahân sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer 'troseddau rhywiol', un ai pan fydd y CPS yn derbyn cais i wneud penderfyniad cyn cyhuddo neu pan dderbynnir ffeil yr achos wedi'i gyhuddo. Dim ond ar derfyn achos erlyn y caiff y prif drosedd ei dyrannu, ar sail y drosedd fwyaf difrifol y cyhuddwyd y diffynnydd ohoni adeg yr achos terfynol.

[38] Mae'r data ar achwynwyr wedi'i gymryd o'r Gwasanaeth Rheoli Tystion nad yw'n cynnwys unrhyw gofnod o achwynwyr troseddau rhywiol, ar wahân i drais rhywiol, gan mai ar lefel diffynyddion yn unig y caif yr wybodaeth honno ei chasglu.

## Graff 29 - Nifer canlyniadau erlyniadau 2014-15 i 2018-19

Mae’r graff hwn yn rhoi dadansoddiad manwl o nifer canlyniadau erlyniadau dros y pum mlynedd diwethaf.




**Nodiadau Esboniadol:** Achosion ar ôl cyhuddo a derfynwyd yn weinyddol yw’r rhai lle na all erlyniad fynd rhagddo oherwydd bod diffynnydd wedi methu ag ymddangos yn y llys a bod warant wedi’i chyhoeddi gan y fainc i’w arestio ef/hi; neu fod y diffynnydd wedi marw neu wedi cael ei ganfod yn anffit i bledio; neu lle y mae’r achos wedi ei ohirio am gyfnod amhenodol. Os caiff warant gan y fainc ei gweithredu, gellir ailagor yr achos.


## Tabl 30 - Canran canlyniadau erlyniadau 2014-15 i 2018-19

Mae’r tabl hwn yn rhoi dadansoddiad manwl o ganran canlyniadau erlyniadau dros y pum mlynedd diwethaf.

| | **2014 - 15** | **2015 - 16** | **2016 - 17** | **2017 - 18** | **2018 - 19** |
|---|---|---|---|---|---|
| Euogfarnau | 77.5% | 78.0% | 79.5% | 80.4% | 81.3% |
| ***O’u plith*** | | | | | |
| *Pledion Euog* | *65.8%* | *66.0%* | *68.2%* | *68.4%* | *70.3%* |
| *Euogfarnu ar ôl Treial* | *11.6%* | *11.9%* | *11.2%* | *11.9%* | *10.9%* |
| *Profwyd mewn Absenoldeb* | *0.2%* | *0.1%* | *0.1%* | *0.2%* | *0.1%* |
| Dim Euogfarn | 22.5% | 22.0% | 20.5% | 19.6% | 18.7% |
| **O’u plith** | | | | | |
| *Erlyniad wedi’i Ollwng* | *9.2%* | *8.9%* | *8.4%* | *8.4%* | *9.1%* |
| *Rhyddfarnu/Gwrthod ar ôl Treial* | *12.5%* | *12.4%* | *11.4%* | *10.4%* | *8.9%* |
| *Wedi Terfynu’n Weinyddol* | *0.8%* | *0.7%* | *0.7%* | *0.8%* | *0.7%* |


## Graff 31 - Nifer y canlyniadau yn dilyn treial 2014-15 i 2018-19

Dengys y graff hwn y bu gostyngiad yn nifer yr euogfarnau a'r rhyddfarnau ers 2016-17.




## Graff 32 - Canran y canlyniadau yn dilyn treial 2014-15 i 2018-19

Dengys y graff y bu cynnydd sylweddol yn y gyfradd euogfarnau yn dilyn treial ers 2016-17.




## Tabl 33 - Cyfanswm canlyniadau nad oeddynt yn euogfarnau yn ôl rhesymau 2014-15 i 2018-19


Mae'r tabl hwn yn rhoi dadansoddiad manwl o'r rhesymau dros ganlyniadau nad oeddynt yn euogfarnau dros y pum mlynedd diwethaf.

| | 2014 - 15 | 2015 - 16 | 2016 - 17 | 2017 - 18 | 2018 - 19 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y canlyniadau nad oeddent yn euogfarnau** | **2,198** | **2,644** | **2,769** | **2,351** | **1,889** |
| Materion yn Ymwneud â'r Achwynydd | 358 | 387 | 397 | 300 | 257 |
| Rhyddfarnu ar ôl Treial | 1,170 | 1,426 | 1,447 | 1,182 | 863 |
| Pob Rheswm Arall | 76 | 86 | 93 | 94 | 67 |
| Terfynu'n Weinyddol | 594 | 745 | 832 | 775 | 702 |

**Nodiadau Esboniadol:** Mae materion yn ymwneud â dioddefwyr neu achwynwyr yn cynnwys gwrthdynnu, diffyg presenoldeb mewn treial neu lle nad yw 'tystiolaeth yr achwynydd yn cefnogi'r achos'. Mae rhesymau eraill yn cynnwys wrthdaro rhwng tystiolaeth neu fod elfen gyfreithiol hanfodol ar goll.

**Graff 34 - Canran y canlyniadau nad oeddynt yn euogfarnau yn ôl rhesymau 2014-15 i 2018-19**

Mae'r graff hwn yn rhoi dadansoddiad manwl o gyfrannau'r rhesymau dros ganlyniadau nad oeddynt yn euogfarnau dros y pum mlynedd diwethaf.




- O'r holl ganlyniadau nad oeddynt yn euogfarnau, gostyngodd y gyfran a oedd yn benodol o ganlyniad i ryddfarnau gan reithgor o 42.2% yn 2017-18 i 36.9% yn 2018-19 (5.3 pwynt canran).

# Gwybodaeth cydraddoldeb

Mae'r data ar achwynwyr wedi'i gymryd o'r Gwasanaeth Rheoli Tystion, nad yw'n cofnodi data'n ymwneud ag achwynwyr troseddau rhywiol, ac eithrio trais rhywiol.

## Rhyw

**Diffynyddion**

- Yn 2018-19, o'r 10,127 o ddiffynyddion a erlynwyd, yr oedd 9,803 o ddiffynyddion yn ddynion, 282 yn fenywod, ac ni chofnodwyd y rhyw ar gyfer 42 o ddiffynyddion.
- Lle cofnodwyd rhyw'r diffynnydd, roedd 97.2% o ddiffynyddion yn ddynion a 2.8% yn fenywod.[39]
- Cafwyd 81.4% o ddiffynyddion gwrywaidd yn euog (7,978) a 79.8% o ddiffynyddion benywaidd (225).

## Ethnigrwydd

**Diffynyddion**

- Yn 2018–19, roedd 59.2% o ddiffynyddion a erlynwyd am drosedd rhywiol (ac eithrio trais rhywiol) wedi'u categoreiddio fel Gwyn (gostyngiad o 2017-18); gyda 53.8% yn cael eu nodi yn rhan o'r categori Gwyn Prydeinig.[40] [41]

[39] Mae'r ffigur yn debyg os caiff ei gyfrifo o'r cyfanswm, gan gynnwys rhyw heb ei gofnodi (96.8% o ddiffynyddion gwrywaidd a 2.8% diffynyddion benywaidd).

- Nodwyd bod 5.0% o ddiffynyddion yn Asiaidd (1.1 pwynt canran yn is na'r flwyddyn flaenorol) a nodwyd bod 5.1% yn Ddu (0.5 pwynt canran yn is nac yn 2017-18).

**Oed**
**Diffynyddion**

- Yn 2018-19, o blith y diffynyddion y cofnodwyd eu hoedran,[42] yr oedd y mwyafrif o ddiffynyddion yn 25–59 (71.5%) a 18–24 (13.5%) mlwydd oed.

- Yr oedd 16.0% o ddiffynyddion (1,616) yn 24 mlwydd oed ac iau, gyda 2.3% o ddiffynyddion (231) yn 14–17 mlwydd oed a 0.2% (22) yn 10–13 mlwydd oed.

Darperir y data gwaelodol yn yr atodiad sydd â dolen ato yn Data Gwaelodol / Trais yn erbyn Menywod. Mae data Ardal y CPS a'r heddlu yn Atodiad 1.

# Data yr hyn a elwir yn gam-drin 'ar sail anrhydedd', priodas dan orfod ac Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod

Dolen yn ôl at y prif adran ar yr hyn a elwir yn gam-drin 'ar sail anrhydedd', priodas dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod (tudalen 20)

## Data yr hyn a elwir yn gam-drin 'ar sail anrhydedd'

Yr Ardaloedd CPS a oedd â'r nifer uchaf o erlyniadau am yr hyn a elwir yn gam-drin 'ar sail anrhydedd' (HBA) a phriodas dan orfod (FM) oedd Llundain, Gogledd-orllewin Lloegr, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Swydd Efrog a Glannau Humber.

Mae'r data isod yn ymwneud â'r holl achosion wedi'u fflagio'n HBA, yn dilyn sicrhau ansawdd y fflagio. Mae'r adroddiad eleni ond yn canolbwyntio ar ddata 2018-19 ar yr hyn a elwir yn gam-drin 'ar sail anrhydedd', oherwydd roedd proses sicrhau ansawdd ar gyfer y fflagio wedi cydnabod bod angen adolygu a diweddaru'r canllawiau ar gasglu'r data hyn. Cafodd pob achos ei wirio i wneud yn siŵr bod y broses fflagio wedi bod un gadarn.

Mae'r data hwn yn ymwneud â'r *holl* ddiffynyddion ac achwynwyr, waeth beth fo'u rhyw, gyda manylion pellach ynghylch rhyw lle bo ar gael. Mae nifer isel yr achosion yn dangos bod angen cymryd gofal wrth ddehongli'r data hwn mewn cysylltiad â'r troseddau hyn.

- Cafodd 80 o benderfyniadau HBA cyn cyhuddo eu cwblhau mewn cysylltiad â cham-drin

---

[40] Roedd y gostyngiad yn adlewyrchu'r cynnydd mewn ethnigrwydd 'heb ei gofnodi' yn hytrach nac unrhyw newid sylweddol yn niferoedd diffynyddion BAME.
[41] Ni wnaeth 17% o ddiffynyddion ddatgan ethnigrwydd wrth gael eu harestio (cynnydd ers 2017-18 o 3.7 pwynt canran) ac ni chafodd ethnigrwydd 11.3% o ddiffynyddion ei ddarparu i'r CPS gan yr heddlu (cynnydd ers 2017-18 o 1.1 pwynt canran).
[42] Cofnodwyd 99.8% o oedrannau diffynyddion yn 2018-19 – tebyg i'r 99.9% yn 2017-18.

'ar sail anrhydedd' (HBA) yn dilyn atgyfeiriadau gan yr heddlu gyda 49 o bobl dan amheuaeth wedi cael eu cyhuddo.
- Cwblhawyd 72 o erlyniadau yn 2018-19, ac o'r rhain cafodd 68 eu fflagio hefyd fel cam-drin domestig.
- Roedd 64 o ddiffynyddion yn ddynion ac wyth yn fenywod.
- Cafodd 70 o achwynwyr eu cofnodi yn y System Rheoli Tystion. O'r holl achwynwyr, roedd 31 yn fenywod, 16 yn ddynion, ac ni chafodd rhyw 23 o achwynwyr ei gofnodi.
- Cafwyd 41 o euogfarnau gyda chyfradd euogfarnu o 56.9%.
- Rhoddwyd y gorau i 24 o'r 72 erlyniad.
- Bu 17 canlyniad nad oedd yn euogfarn oherwydd edifeirwch achwynwyr.

# Data priodas dan orfod

Mewn adroddiadau blaenorol, adroddwyd ar bob achos a gafodd ei fflagio fel 'priodas dan orfod'; nid yn unig y rhai cysylltiedig â deddfwriaeth FM a gyflwynwyd yn 2014. Yn 2018-19, yn dilyn sicrhau ansawdd y fflagio cydnabuwyd fod angen i'r canllawiau gael ei hadolygu a'u diweddaru. Yn 2019-20 byddwn yn datblygu cynlluniau i sicrhau ansawdd monitro achosion FM yn rheolaidd.

Mae'r troseddau penodol ar gyfer priodas dan orfod dan A121 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 ac A121, torri gorchymyn amddiffyn rhag priodas dan orfod, wedi bod yn eu lle am bum mlynedd erbyn hyn.
Mae'r adroddiad eleni'n canolbwyntio benodol ar yr erlyniadau hyn.

- Yn 2018-19, cyhuddwyd pedair trosedd o briodas dan orfod. O'u plith, cafodd pedwar diffynnydd eu herlyn a chafodd tri euogfarn.
- Roedd dau o'r diffynyddion yn ddynion a dwy yn fenywod. Roedd tri o'r achwynwyr yn fenywod.
- Bu wyth erlyniad am dorri Gorchymyn Amddiffyn rhag Priodas dan Orfod. Cafodd wyth diffynnydd eu herlyn, gyda thair euogfarn, bu rhyddfarn yn achos pedwar diffynnydd ac roedd un yn cael ei geisio ar warant.
- Roedd 5 o'r diffynyddion yn ddynion a thair yn fenywod. Roedd chwech o'r achwynwyr yn fenywod ac yn un achos yr oedd pump o achwynwyr – dynion a menywod.

# Data ar Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod

- Nid yw'r CPS yn casglu ystadegau ffurfiol ynghylch Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod (FGM). Rydym yn gweithio gyda'r heddlu i geisio atgyfeirio achosion yn gynnar, yn ymestyn o drafodaethau cynnar, ceisiadau am gyngor ymchwilio cynnar i benderfyniadau cyhuddo.
- Yn 2018-19 cafodd dau ddiffynnydd eu herlyn am FGM; derbyniodd un euogfarn a chafwyd rhyddfarn yn achos y llall. Ni chafwyd unrhyw erlyniad am dorri Gorchymyn Amddiffyn rhag Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod (FGMPO)

# Data cam-drin plant

Dolen yn ôl i'r brif adran ar gam-drin plant (tudalen 23)

Mae'n ofynnol i erlynwyr fflagio pob achos o gam-drin plant; gydag achosion o gam-drin plant yn rhywiol (CSA) wedi'u nodi fel unrhyw drosedd rywiol yn cael ei fflagio fel cam-drin plant. Caiff adroddiadau diweddar o gam-drin rhywiol a ddigwyddodd yn y gorffennol, pan oedd y dioddefwr dan 18 mlwydd oed, eu cofnodi fel CSA, waeth beth fo oedran y dioddefwr ar yr adeg y gwneir yr adroddiad.

Mae'r data a roddir isod yn ymwneud â'r *holl* ddiffynyddion ac achwynwyr sydd wedi'u fflagio dan gam-drin plant, waeth beth fo'u rhyw, gyda manylion pellach ynghylch rhyw, lle bo ar gael. Bydd data CSA a adroddir yma yn gorgyffwrdd â data yn yr adrannau Trais Rhywiol a Throseddau Rhywiol.

## Data cyn cyhuddo

### Tabl 35 - Cyfanswm y rhai dan amheuaeth a atgyfeiriwyd gan yr heddlu at y CPS am benderfyniad ynghylch cyhuddo 2014-15 i 2018-19


Dengys y tabl hwn y bu gostyngiad sylweddol mewn atgyfeiriadau gan yr heddlu dros y flwyddyn ddiwethaf.

| | 2014 - 15 | 2015 - 16 | 2016 - 17 | 2017 - 18 | 2018 - 19 |
|---|---|---|---|---|---|
| Wedi cael gan yr heddlu | 10,232 | 10,900 | 10,329 | 9,185 | 7,138 |

**Nodiadau esboniadol:** Cyn 2018-19, roedd adroddiad VAWG yn cofnodi'r data ar 'benderfyniadau cyn cyhuddo' wedi'u cwblhau gan y CPS fel 'atgyfeiriadau'r heddlu'. Mae'r adroddiad hwn yn darparu dwy set o ddata - (i) achosion wedi'u derbyn gan yr heddlu a'u cyfeirio atom ni am benderfyniad ynghylch cyhuddo (Tabl 35) a (ii) 'penderfyniadau cyn cyhuddo a gwblhawyd gan y CPS' (Graff 36 (a elwid yn flaenorol yn 'atgyfeiriadau'r heddlu').

### Graff 36 – Penderfyniadau cyn cyhuddo a gwblhawyd gan y CPS 2014-15 i 2018-19

Dengys y graff hwn ostyngiad yng nghyfanswm y penderfyniadau cyn cyhuddo ers 2016-17 ynghyd â chynnydd mewn penderfyniadau heb fod yn rhai cyfreithiol.




**Nodiadau Esboniadol:** Bydd y data ar gyfanswm y penderfyniadau cyn cyhuddo'n seiliedig ar y dyddiad y cafodd y cyngor cyhuddo ei ddarparu i'r heddlu. Felly, bydd data 2018-19 yn cynnwys achosion a atgyfeiriwyd gan yr heddlu at y CPS yn 2018-19, yn 2017-18 neu'n gynharach. Yn ogystal, os yw'r fflag cam-drin domestig heb ei osod ar yr achos pan dderbynnir ef oddi wrth yr heddlu, gellir ei ychwanegu yn ddiweddarach. Dyma' rhesymau pam fod nifer y penderfyniadau cyn cyhuddo a gwblhawyd yn graff 36 yn wahanol i'r nifer o unigolion dan amheuaeth a atygyfeiriwyd gan yr heddlu yn Nhabl 35.

Echelin Y Chwith yw'r canran o'r cyfanswm o benderfyniadau cyn cyhuddo, wedi'u rhannu i lawr i gyfran y penderfyniadau cyfreithiol a rhai a derfynwyd yn weinyddol (siart bar).

Echelin Y  Dde yw'r nifer o'r cyfanswm o benderfyniadau cyn cyhuddo a gwblhawyd gan y CPS (graff llinell)

## Graff 37 – Canlyniadau penderfyniadau cyn-cyhuddo yn ôl niferoedd 2014-15 i 2018-19

Dengys y graff hwn, ers 2016-17 y bu rhywfaint o gydgyfeiriad yn nifer y penderfyniadau i gyhuddo, i beidio â chyhuddo a therfyniadau gweinyddol.




**Nodiadau Esboniadol:** Mae delio ag achosion y tu allan i'r llys, fel rhybudd neu rybudd amodol ( lle y mae'r rhain yn gamau priodol) hefyd yn benderfyniadau cyfreithiol. Nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y graff uchod oherwydd y niferoedd cymharol isel. Yn ystod 2014-15 i 2017-18 bu cyfartaledd o 169  achosion y deliwyd â hwy y tu allan i'r llys, bob blwyddyn. Yn y flwyddyn ddiweddaraf cafwyd 92.

Byddai'r dull o adrodd canran y gyfradd gyhuddo a ddefnyddiwyd mewn adroddiadau blaenorol (a gyfrifwyd fel y gyfran o rai dan amheuaeth a gyhuddwyd o blith cyfanswm yr holl benderfyniadau cyn cyhuddo, yn cynnwys rhai a derfynwyd yn weinyddol)  yn cynhyrchu'r canlynol:

- Roedd cyfran y penderfyniadau cyn cyhuddo a arweiniodd at gyhuddiad wedi gostwng o 63.0% yn 2017-18 i 56.3% yn 2018-19 – cwymp o 6.7 pwynt canran.

Mae'r dull ar gyfer adrodd y canran o gyhuddiadau wedi cael ei ddiwygio o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol fel yn Nhabl 38 isod.  Mae'r gyfradd gyhuddo bellach wedi ei chyfrifo fel canran o'r achosion a gyhuddwyd allan o'r holl benderfyniadau cyfreithiol.

Mae'r dull hwn yn canolbwyntio'n benodol ar y penderfyniadau cyfreithiol a wnaed gan erlynwyr y mae'r CPS yn gyfrifol amdanynt.  Gan y bu cynnydd sylweddol yn y gyfran o benderfyniadau heb fod yn rhai cyfreithiol (terfyniadau gweinyddol) mewn llawer o achosion trais rhywiol dros y tair blynedd diwethaf, mae'r data wedi ei dynnu o'r cyfrifiad gan adael ond yr achosion hynny lle y mae'r erlynydd wedi ystyried yr holl dystiolaeth ar gael ac wedi penderfynu cyhuddo, peidio â chymryd unrhyw gamau pellach neu gyhoeddi y delir â'r achos y tu allan i'r llys.

## Tabl 38 - Canran canlyniadau penderfyniadau cyn cyhuddo a gwblhawyd gan y CPS 2014-15 i 2018-19


Mae'r tabl hwn yn dangos cynnydd mawr yn y gyfran o achosion a derfynwyd yn weinyddol ers 2016-17 ac yn adrodd newidiadau sylweddol yng nghyfrannau penderfyniadau cyfreithiol dros y flwyddyn ddiwethaf.

| | 2014 - 15 | 2015 - 16 | 2016 - 17 | 2017 - 18 | 2018 - 19 |
|---|---|---|---|---|---|
| Penderfyniadau Cyfreithiol (sylwedd) (Wedi Cyhuddo, Dim Erlyniad, Delio ag Achos y Tu Allan i'r Llys) | 94.3% | 93.3% | 93.4% | 86.7% | 82.8% |
| *Wedi Cyhuddo (% o Benderfyniadau Cyfreithiol)* | *71.8%* | *71.8%* | *72.2%* | *72.6%* | *68.0%* |
| *Dim Erlyniad (% o Benderfyniadau Cyfreithiol)* | *26.7%* | *26.6%* | *26.5%* | *26.1%* | *30.9%* |
| *Delio ag Achos y Tu Allan i'r Llys (% o Benderfyniadau Cyfreithiol)* | *1.5%* | *1.6%* | *1.3%* | *1.2%* | *1.1%* |
| Wedi Terfynu'n Weinyddol | 5.6% | 6.7% | 6.5% | 13.2% | 17.2% |
| Arall | 0.1% | 0.0% | 0.1% | 0.1% | 0.0% |

## Graff 39 - Cyfartaledd amseroldeb penderfyniad y CPS i gyhuddo (diwrnodau calendr) o gymharu â chyfartaledd nifer ymgynghoriadau'r CPS â'r heddlu 2014-15 i 2018-19

Ar gyfartaledd, yr amser i ymateb i'r heddlu drwy ymgynghoriad unigol oedd oddeutu 27 diwrnod ar ddiwedd Ch4 2018-19. Gyda'r nifer cynyddol o ymgynghoriadau i bob achos, mae cyfartaledd nifer y dyddiad a gymerir i gyhuddo wedi cynyddu i dros 71 o ddiwrnodiau.

Dengys y graff hwn fod mwy o ymgynghoriadau'n digwydd ar achosion sy'n diweddu gyda Dim Camau Pellach wrth i erlynwyr gynghori ar ymholiadau a allai gryfhau'r achos. Mae mwy o gymhlethdod a rhagor o ymgynghoriadau fesul achos wedi arwain at gynnydd yn yr amseroldeb cyffredinol.




**Nodiadau Esboniadol:** Mae cyfartaledd amseroldeb y penderfyniad i gyhuddo yn cynnwys amser y CPS ac amser yr heddlu ac mae'n gyfrifiad o gyfartaledd nifer y diwrnodau calendr sydd wedi mynd heibio ers i'r heddlu geisio cyflwyno achos am y tro cyntaf, hyd at u diwrnod pryd y gwnaed y penderfyniad diwethaf i gyhuddo. Mae'r data'n cynnwys achosion lle yr oedd yn ofynnol i'r heddlu gyflwyno tystiolaeth bellach cyn penderfyniad i gyhuddo. Mae hyn, yn gyffredinol, yn cynnwys mwy nac un cyflwyniad a mwy o ymchwilio.

# Data ar ôl cyhuddo


## Tabl 40 - Erlyniadau wedi'u fflagio fel cam-drin domestig a gwblhawyd gan y CPS yn ôl canlyniad 2014-15 i 2018-19

Dengys y tabl hwn y bu gostyngiad mewn erlyniadau ers 2016-17 ond cynnydd yng nghyfradd yr euogfarnau.

| | 2014-15 | | 2015-16 | | 2016-17 | | 2017-18 | | 2018-19 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 7,469 | 74.4 | 8,439 | 75.8 | 8,999 | 76.3 | 8,350 | 78.0 | 6,971 | 79.1 |
| Dim Euogfarn | 2,576 | 25.6 | 2,691 | 24.2 | 2,794 | 23.7 | 2,354 | 22.0 | 1,843 | 20.9 |
| **Cyfanswm** | **10,045** | | **11,130** | | **11,793** | | **10,704** | | **8,814** | |

## Graff 41 - Nifer canlyniadau erlyniadau 2014-15 i 2018-19

Mae'r graff hwn yn rhoi dadansoddiad manwl o nifer canlyniadau erlyniadau dros y pum mlynedd diwethaf.




**Nodiadau Esboniadol:** Achosion ar ôl cyhuddo a derfynwyd yn weinyddol yw'r rhai lle na all erlyniad fynd rhagddo oherwydd bod diffynnydd wedi methu ag ymddangos yn y llys a bod warant wedi'i chyhoeddi gan y fainc i'w arestio ef/hi; neu fod y diffynnydd wedi marw neu wedi cael ei ganfod yn anffit i bledio; neu lle y mae'r achos wedi ei ohirio am gyfnod amhenodol. Os caiff warant gan y fainc ei gweithredu, gellir ailagor yr achos.


## Tabl 42- Canran canlyniadau erlyniadau 2014-15 i 2018-19

Mae'r tabl hwn yn rhoi dadansoddiad manwl o ganran canlyniadau erlyniadau dros y pum mlynedd diwethaf

| | 2014 - 15 | 2015 - 16 | 2016 - 17 | 2017 - 18 | 2018 - 19 |
|---|---|---|---|---|---|
| Euogfarnau | 74.4% | 75.8% | 76.3% | 78.0% | 79.1% |
| ***O'u plith*** | | | | | |
| *Pledion Euog* | *61.5%* | *62.3%* | *61.6%* | *63.0%* | *64.3%* |
| *Euogfarnu ar ôl Treial* | *12.8%* | *13.4%* | *14.7%* | *14.9%* | *14.8%* |
| *Profwyd mewn Absenoldeb* | *0.1%* | *0.0%* | *0.0%* | *0.0%* | *0.0%* |
| Dim Euogfarn | 25.6% | 24.2% | 23.7% | 22.0% | 20.9% |
| **O'u plith** | | | | | |
| *Erlyniad wedi'i Ollwng* | *12.0%* | *10.2%* | *9.6%* | *8.8%* | *9.7%* |
| *Rhyddfarnu/Gwrthod ar ôl Treial* | *12.4%* | *12.8%* | *12.7%* | *11.6%* | *9.7%* |
| *Wedi Terfynu'n Weinyddol* | *1.3%* | *1.2%* | *1.4%* | *1.6%* | *1.5%* |


## Graff 43 - Nifer y canlyniadau yn dilyn treial 2014-15 i 2018-19

Dengys y graff hwn y bu gostyngiad yn nifer yr euogfarnau a'r rhyddfarnau ers 2016-17.




## Graff 44 - Canran canlyniadau yn dilyn treial 2014-15 i 2018-19

Dengys y graff y bu cynnydd sylweddol yn y gyfradd euogfarnau yn dilyn treial ers 2015-16.



### Tabl 45 - Cyfanswm canlyniadau nad oeddynt yn euogfarnau yn ôl rhesymau 2014-15 i 2018-19


Mae'r tabl hwn yn rhoi dadansoddiad manwl o'r rhesymau dros ganlyniadau nad oeddynt yn euogfarnau dros y pum mlynedd diwethaf.

| | 2014 - 15 | 2015 - 16 | 2016 - 17 | 2017 - 18 | 2018 - 19 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y canlyniadau nad oeddent yn euogfa** | **2,576** | **2,691** | **2,794** | **2,354** | **1,843** |
| Rhyddfarnu ar ôl Treial | 1,178 | 1,344 | 1,384 | 1,170 | 817 |
| Materion yn Ymwneud â'r Dioddefwr | 569 | 559 | 549 | 391 | 322 |
| Pob Rheswm Arall | 703 | 658 | 700 | 624 | 570 |
| Terfynu'n Weinyddol | 126 | 130 | 161 | 169 | 134 |

| Gogledd Swydd Efrog | 30 | 56.6% | 23 | 43.4% | **53** |
| Swydd Nottingham | 54 | 69.2% | 24 | 30.8% | **78** |
| De Cymru | 52 | 59.8% | 35 | 40.2% | **87** |
| De Swydd Efrog | 44 | 62.9% | 26 | 37.1% | **70** |
| Swydd Stafford | 45 | 73.8% | 16 | 26.2% | **61** |
| Suffolk | 12 | 70.6% | 5 | 29.4% | **17** |
| Surrey | 24 | 58.5% | 17 | 41.5% | **41** |
| Sussex | 58 | 70.7% | 24 | 29.3% | **82** |
| Dyffryn Tafwys | 61 | 71.8% | 24 | 28.2% | **85** |
| Swydd Warwick | 27 | 67.5% | 13 | 32.5% | **40** |
| Gorllewin Mersia | 57 | 69.5% | 25 | 30.5% | **82** |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 101 | 58.0% | 73 | 42.0% | **174** |
| Gorllewin Swydd Efrog | 104 | 65.4% | 55 | 34.6% | **159** |
| Swydd Wiltshire | 15 | 60.0% | 10 | 40.0% | **25** |
| **Cyfanswm** | **1,925** | **63.4%** | **1,109** | **36.6%** | **3,034** |

## Erlyniadau am droseddau rhywiol (ac eithrio trais rhywiol) yn ôl Ardal y CPS:

| | 2018-19 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Dim Euogfarn | | Cyfanswm |
| | Cyfaint | % | Cyfaint | % | |
| Cymru/Wales | 534 | 82.3% | 115 | 17.7% | **649** |
| Dwyrain Lloegr | 511 | 82.6% | 108 | 17.4% | **619** |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 752 | 81.7% | 169 | 18.3% | **921** |
| Gogledd Llundain | 563 | 75.1% | 187 | 24.9% | **750** |
| De Llundain | 511 | 74.8% | 172 | 25.2% | **683** |
| Mersi-Swydd Gaer | 432 | 81.5% | 98 | 18.5% | **530** |
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | 515 | 82.0% | 113 | 18.0% | **628** |
| Gogledd-orllewin Lloegr | 861 | 82.6% | 182 | 17.4% | **1,043** |
| De-ddwyrain Lloegr | 526 | 81.7% | 118 | 18.3% | **644** |
| De-orllewin Lloegr | 428 | 84.3% | 80 | 15.7% | **508** |
| Tafwys a Chiltern | 405 | 79.7% | 103 | 20.3% | **508** |
| Wessex | 478 | 84.8% | 86 | 15.2% | **564** |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 930 | 81.8% | 207 | 18.2% | **1,137** |
| Swydd Efrog a Glannau Humber | 792 | 84.0% | 151 | 16.0% | **943** |
| **Cyfanswm** | **8,238** | **81.3%** | **1,889** | **18.7%** | **10,127** |

| | Erlyniadau am droseddau rhywiol (ac eithrio trais rhywiol) yn ôl ardal heddlu 2018-19 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Dim Euogfarn | | Cyfanswm |
| | Cyfaint | % | Cyfaint | % | |
| Avon a Gwlad yr Haf | 248 | 83.2% | 50 | 16.8% | **298** |
| Swydd Bedford | 64 | 84.2% | 12 | 15.8% | **76** |
| Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig | 165 | 81.7% | 37 | 18.3% | **202** |
| Swydd Gaergrawnt | 119 | 83.2% | 24 | 16.8% | **143** |
| Swydd Gaer | 185 | 81.1% | 43 | 18.9% | **228** |
| Cleveland | 114 | 82.6% | 24 | 17.4% | **138** |
| Cumbria | 65 | 84.4% | 12 | 15.6% | **77** |
| Swydd Derby | 181 | 87.9% | 25 | 12.1% | **206** |
| Dyfnaint a Chernyw | 131 | 87.3% | 19 | 12.7% | **150** |
| Dorset | 113 | 88.3% | 15 | 11.7% | **128** |
| Durham | 95 | 74.8% | 32 | 25.2% | **127** |
| Dyfed-Powys | 90 | 90.0% | 10 | 10.0% | **100** |
| Essex | 197 | 84.2% | 37 | 15.8% | **234** |
| Swydd Gaerloyw | 50 | 83.3% | 10 | 16.7% | **60** |
| Manceinion Fwyaf | 534 | 82.2% | 116 | 17.8% | **650** |
| Gwent | 53 | 80.3% | 13 | 19.7% | **66** |
| Swydd Hampshire | 281 | 83.9% | 54 | 16.1% | **335** |
| Swydd Hertford | 90 | 74.4% | 31 | 25.6% | **121** |
| Humberside | 150 | 85.2% | 26 | 14.8% | **176** |
| Swydd Gaint | 181 | 87.0% | 27 | 13.0% | **208** |
| Swydd Gaerhirfryn | 267 | 83.2% | 54 | 16.8% | **321** |
| Swydd Gaerlŷr | 157 | 79.7% | 40 | 20.3% | **197** |
| Swydd Lincoln | 114 | 85.7% | 19 | 14.3% | **133** |
| Heddlu Llundain | 1,075 | 75.0% | 359 | 25.0% | **1,434** |
| Glannau Mersi | 245 | 81.7% | 55 | 18.3% | **300** |
| Norfolk | 129 | 82.7% | 27 | 17.3% | **156** |
| Swydd Northampton | 111 | 74.0% | 39 | 26.0% | **150** |
| Northumbria | 303 | 84.2% | 57 | 15.8% | **360** |
| Gogledd Cymru | 138 | 85.2% | 24 | 14.8% | **162** |
| Gogledd Swydd Efrog | 109 | 82.6% | 23 | 17.4% | **132** |
| Swydd Nottingham | 188 | 80.3% | 46 | 19.7% | **234** |
| De Cymru | 255 | 78.7% | 69 | 21.3% | **324** |
| De Swydd Efrog | 169 | 81.6% | 38 | 18.4% | **207** |
| Swydd Stafford | 201 | 84.5% | 37 | 15.5% | **238** |
| Suffolk | 66 | 76.7% | 20 | 23.3% | **86** |
| Surrey | 138 | 79.3% | 36 | 20.7% | **174** |
| Sussex | 204 | 78.8% | 55 | 21.2% | **259** |
| Dyffryn Tafwys | 252 | 81.0% | 59 | 19.0% | **311** |
| Swydd Warwick | 53 | 76.8% | 16 | 23.2% | **69** |
| Gorllewin Mersia | 157 | 77.3% | 46 | 22.7% | **203** |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 354 | 83.3% | 71 | 16.7% | **425** |
| Gorllewin Swydd Efrog | 361 | 84.9% | 64 | 15.1% | **425** |
| Swydd Wiltshire | 84 | 83.2% | 17 | 16.8% | **101** |
| **Cyfanswm** | **8,236** | **81.4%** | **1,888** | **18.6%** | **10,124** |

# Atodiad 2: Data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder

Mae'r atodiad hwn yn darparu data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder at stelcio, aflonyddu a thrais rhywiol; ac yn amlinellu'r prif wahaniaethau a chymhariaeth rhwng data cyhoeddedig y CPS a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

## Stelcio ac aflonyddu, gorchmynion atal a thorri gorchmynion

I'w nodi: Mae data'r CPS yn wahanol i ddata'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) yn y ffyrdd canlynol:

- Mae data'r CPS ar gyfer y flwyddyn ariannol; mae data'r MoJ ar gyfer y flwyddyn galendr.
- Mae data'r CPS yn cynnwys pob trosedd lle dechreuwyd erlyniad, yn hytrach na rhai a gafodd eu cwblhau. Mae'r data yn ôl troseddau ac nid yw'n darparu data yn ôl diffynyddion. Efallai fod pob diffynnydd wedi cyflawni mwy nag un drosedd. Mae data'r MoJ yn ymwneud â'r brif drosedd sy'n cael ei herlyn go iawn ac yn cael eu cyfrif ar sail diffynyddion.
- Mae ystadegau'r MoJ ar orchmynion atal dim ond yn ymwneud â diffynyddion yn cael gorchmynion atal mewn cysylltiad â'u prif drosedd.
- Mae ystadegau'r MoJ ar dorri gorchmynion atal dim ond yn ymwneud â diffynyddion yn cael eu herlyn am dorri gorchymyn atal fel prif drosedd. Mae data'r CPS yn cynnwys pob trosedd lle mae erlyniad yn cael ei ddechrau, nid dim ond y rheini lle mae'r gorchymyn atal neu'r achos o dorri gorchymyn atal yn gysylltiedig â'r brif drosedd.
- Mae data'r MoJ ar droseddwyr a erlynwyd yn cynnwys yr achosion a gafodd eu cwblhau mewn llysoedd ynadon yn 2018, ac felly'n cynnwys achosion wedi'u cwblhau ac achosion byw yn Llysoedd y Goron.
- Mae data'r MoJ ar droseddwyr a gafodd euogfarn yn cynnwys y rheini a gafodd euogfarn yn 2018, a allai fod wedi cael eu herlyn mewn blynyddoedd blaenorol.
- Cymhareb euogfarnu'r MoJ yw nifer y diffynyddion a gafodd euogfarn wedi'i rhannu â nifer y diffynyddion a gafodd eu herlyn (mae'n bosibl y bydd rhai euogfarnau yn 2018 ar gyfer achosion a gafodd eu herlyn cyn 2018; a bydd rhai erlyniadau yn y data hyn sydd heb eu cwblhau yn Llys y Goron eto).

## Stelcio ac aflonyddu

Yn 2018, roedd ffigurau'r MoJ[1] [2] [3] ar gyfer Cymru a Lloegr yn dangos bod 5,176 o ddiffynyddion wedi cael eu herlyn am a.2 Deddf Gwarchod rhag Aflonyddu 1997 – troseddau aflonyddu heb drais, o'i gymharu â 6,109 yn 2017. Mae'r gymhareb euogfarnu wedi aros yn sefydlog, 79%.

---

[1] Mae'r ffigurau a roddir yn ymwneud â diffynyddion lle mae'r troseddau hyn oedd eu prif droseddau. Pan fo diffynnydd wedi'i gael yn euog o ddwy drosedd neu fwy, y brif drosedd yw'r un lle roddwyd y gosb fwyaf llym amdani. Os yw'r un penderfyniad yn cael ei wneud mewn cysylltiad â dwy drosedd neu fwy, y drosedd sy'n cael ei dewis yw'r un sydd â'r gosb uchaf statudol fwyaf llym – ond nid yw hyn yn berthnasol i nifer y gorchmynion atal sy'n cael eu cyhoeddi oherwydd bod hyn yn ystyried y rheini a roddir fel penderfyniad eilaidd neu drydyddol ar gyfer y brif drosedd.

[2] Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y ffigurau a gyflwynwyd yn gywir ac yn gyflawn. Ond mae'n bwysig nodi bod y data hyn wedi'u tynnu o'r systemau data gweinyddol mawr a gynhyrchir gan y llysoedd a'r heddluoedd. Felly, dylid gofalu bod y prosesau casglu data a'r cyfyngiadau anorfod ar y rheini yn cael eu hystyried wrth ddefnyddio'r data hynny.

[3] O ganlyniad i ddiweddariadau yn dilyn proses sicrhau ansawdd yn y flwyddyn ddiweddaraf, gan gynnwys ailddosbarthu rhai troseddau, efallai na fydd y canlyniadau ar gyfer cyn 2016 yn cyfateb i'r rheini sydd wedi'u cyhoeddi o'r blaen.

Cafodd 783 o ddiffynyddion eu herlyn am droseddau aflonyddu dan a.4 y Ddeddf Gwarchod Rhag Aflonyddu (PHA) – peri i bobl ofni trais yn 2018, o’i gymharu â 711 yn 2017; cafodd 576 euogfarn, o’i gymharu â 550 yn 2017. Roedd y gymhareb euogfarnu wedi cwympo o 77% yn 2017 i 74% yn 2018.

Cafodd 794 o ddiffynyddion eu herlyn am droseddau dan a.2 PHA – ymddwyn mewn ffordd sy’n cael ei hystyried yn stelcio gydag ofn/braw/gofid yn 2018, o’i gymharu â 555 yn 2017. Cafodd 582 euogfarn, o’i gymharu â 423 yn 2017. Roedd y gymhareb euogfarnu wedi cwympo o 76% i 73%.

Cafodd 139 o ddiffynyddion eu herlyn yn 2018 am droseddau stelcio yn cynnwys ofn o drais dan a.4 PHA, o’i gymharu ag 81 yn 2017; cafodd 93 euogfarn, o’i gymharu â 48 yn 2017. Roedd y gymhareb euogfarnu wedi codi i 67%, i fyny o 59% yn y flwyddyn flaenorol.

Cafodd 366 o ddiffynyddion eu herlyn yn 2018 am droseddau stelcio yn cynnwys braw neu ofid difrifol dan a.4 PHA, o’i gymharu â 305 yn 2017; cafodd 212 euogfarn, o’i gymharu â 168 yn 2017. Roedd y gymhareb euogfarnu wedi codi i 58%, i fyny o 55% yn y flwyddyn flaenorol.

## Gorchmynion atal a thorri’r gofynion hyn

Mae ffigurau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder[4] yn dangos bod 18,252 o orchmynion atal wedi cael eu cyhoeddi wrth euogfarnu yng Nghymru a Lloegr yn 2018 (o’i gymharu ag 19,216 yn 2017) a bod 1,746 wedi cael eu cyhoeddi wrth ryddfarnu (o’i gymharu â 1,932 yn 2017).

Yn 2018, cafodd 9,955 o ddiffynyddion eu herlyn am dorri gorchmynion atal a oedd wedi cael eu rhoi wrth euogfarnu, gyda 8,922 yn cael euogfarn. Roedd hyn yn is na'r ffigurau yn 2017, sef 10,091 o erlyniadau a 9,149 o euogfarnau.

Hefyd, cafodd 524 o ddiffynyddion eu herlyn am dorri gorchmynion atal a oedd wedi cael eu rhoi wrth ryddfarnu'r diffynnydd, gyda 406 yn cael euogfarn. Roedd hyn ychydig yn is na'r ffigurau yn 2017, sef 529 o erlyniadau a 430 o euogfarnau.

89% oedd y gymhareb euogfarnu ar draws pob erlyniad am dorri gorchmynion atal eleni – ffigur sydd wedi aros yn sefydlog dros amser.

[4] Mae cyfran isel o ddiffynyddion â rhyw anhysbys ar ôl 2010, felly nid yw cyfanswm y diffynyddion yn cyfateb yn union i nifer y diffynyddion gwrywaidd a nifer y diffynyddion benywaidd yn dilyn y dyddiad hwn.

# Ystadegau Gwladol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar Drais Rhywiol

I'w nodi: Mae data'r CPS yn wahanol i ddata'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) yn y ffyrdd canlynol:

- Mae data'r CPS ar gyfer y flwyddyn ariannol; mae cyhoeddiadau Ystadegau Gwladol yr MoJ ar drais rhywiol yn cyflwyno data ar gyfer y flwyddyn galendr.
- Mae data'r CPS ar gyfer erlyniadau wedi'u cwblhau yn 2018-19; mae data'r MoJ ar ddiffynyddion a erlynwyd yn cynnwys yr achosion a gafodd eu cwblhau mewn llysoedd ynadon yn 2018, ac felly'n cynnwys achosion wedi'u cwblhau ac achosion byw yn Llysoedd y Goron.
- Mae euogfarnau'r CPS ar gyfer achosion wedi'u fflagio fel trais rhywiol lle cafwyd euogfarn o drais rhywiol neu o drosedd wahanol neu lai; mae data'r MoJ ar droseddwyr a gafodd euogfarn yn cynnwys dim ond y rheini a gafodd euogfarn benodol o drais rhywiol yn 2018, a allai fod wedi cael eu herlyn mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'r gwahaniaeth hwn o ran cofnodi yn golygu bod y CPS yn cofnodi nifer uwch o erlyniadau ac euogfarnau nag y mae'r MoJ.
- Cymhareb euogfarnu'r CPS yw cyfran yr euogfarnau o blith yr erlyniadau wedi'u fflagio fel trais rhywiol a gafodd eu cwblhau yn 2017-18; cymhareb euogfarnu'r MoJ yw nifer y troseddwyr a gafodd euogfarn o drais rhywiol yn 2018 (ni waeth pa flwyddyn cawsant eu herlyn yn y lle cyntaf) wedi'i rhannu â nifer y diffynyddion a gafodd eu herlyn am drais rhywiol yn 2018 (fel y diffinnir yn nhroednodyn 7).

Mae Ystadegau Gwladol yr MoJ yn cynnwys yr ystadegau swyddogol o ran y diffynyddion a gafodd eu herlyn am drais rhywiol. Mae'r ffigurau hyn yn dangos, yn y flwyddyn galendr 2018, bod 1,588 o ddiffynyddion, ar sail prif drosedd,[5] [6] wedi cael eu herlyn am drais rhywiol mewn llysoedd ynadon yng Nghymru a Lloegr, gyda 1,482 o achosion yn cael eu hanfon i Lys y Goron am dreial. Mae hyn yn is na nifer yr erlyniadau yn 2017, pan gafodd 3,141 o ddiffynyddion eu herlyn (cwymp o 49% yn y flwyddyn ddiweddaraf). Yn 2018, cafodd 919 o ddiffynyddion euogfarn o drais rhywiol yng Nghymru a Lloegr, gyda chymhareb euogfarnu o 58%.

Mae nifer yr euogfarnau yn is nag yr oedd yn 2017, pan gafodd 1,127 euogfarn. Fodd bynnag, mae'r gymhareb euogfarnu wedi codi o 36% yn 2017 i 58% yn 2018. Wrth ystyried y cynnydd hwn, mae'n bwysig nodi bod ffactorau, fel yr oedi rhwng erlyn ac euogfarnu, yn gallu dylanwadu ar gymarebau, yn enwedig mewn cysylltiad â thrais rhywiol, oedd â chymedr amser o 276 diwrnod rhwng cyhuddo a chwblhau yn 2018[7]. Mae hyn yn amlygu bod euogfarnau o'r cyfnod diweddaraf yn aml yn cael eu cyfateb i erlyniadau o gyfnodau amser blaenorol, ac mae hyn yn gallu cynyddu'r gymhareb euogfarnu pan fo erlyniadau'n cwympo neu ei lleihau pan fo erlyniadau'n codi.

Dim ond y nifer sy'n cael ei erlyn am drais rhywiol fel prif drosedd a'r nifer sy'n cael euogfarn o drais rhywiol fel prif drosedd y mae'r gymhareb euogfarnu'n eu cymharu; efallai y bydd rhai o'r bobl sy'n

[5] Mae'r ffigurau a roddir yn ymwneud â diffynyddion lle mae'r troseddau hyn oedd eu prif droseddau. Pan fo diffynnydd wedi'i gael yn euog o ddwy drosedd neu fwy, y brif drosedd yw'r un lle roddwyd y gosb fwyaf llym amdani. Os yw'r un penderfyniad yn cael ei wneud mewn cysylltiad â dwy drosedd neu fwy, y drosedd sy'n cael ei dewis yw'r un sydd â'r gosb uchaf statudol fwyaf llym.

[6] Mae'r ffigurau trais rhywiol yma yn cynnwys troseddau trais rhywiol neu ymgais i dreisio a hynny yn erbyn gwrywod a menywod, er mwyn bod yn gyson â gweddill yr adroddiad hwn.

[7] Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol llysoedd troseddol

cael eu herlyn am drais rhywiol yn mynd ymlaen i gael euogfarn o droseddau eraill yn Llys y Goron.[8] Mae data'r MoJ yn adlewyrchu diffynyddion y mae'r erlyniad ar eu cyfer wedi cael ei gwblhau mewn llysoedd ynadon yn 2018 (ac efallai fod yr achos wedi'i anfon i Lys y Goron), ac felly maen nhw'n cynnwys achosion wedi'u cwblhau ac achosion byw yn Llys y Goron. Roedd bron i bob diffynnydd a gafodd ei erlyn a phob troseddwr a gafodd euogfarn am drais rhywiol yn wrywaidd.[9]

## Amseroldeb o'r cyhuddiad i'r treial

Mae data cyffredinol ar amseroldeb achosion o drais rhywiol rhwng cyhuddo a chwblhau, ar draws Cymru a Lloegr, wedi cael eu darparu gan yr MoJ rhwng 2010 a 2018.

O ddata'r MoJ, mae'n ymddangos bod yr amseroldeb rhwng cyhuddo a chwblhau wedi codi ychydig dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rhan fwyaf o'r amser hwn yn cael ei dreulio rhwng 'anfon i Lys y Goron a'r prif wrandawiad'. Mae hyn wedi cynyddu 18% rhwng 2010 a 2018, o 166 diwrnod i 196 diwrnod.
Mae'r amser canolrifol rhwng cyhuddo a'r rhestriad cyntaf wedi cynyddu'n sylweddol ar draws y gyfres, o 6 diwrnod yn 2010 i 28 diwrnod yn 2018.

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Data'r MoJ – Amser canolrifol[10] o ran y diwrnodau rhwng cyhuddo a chwblhau[11] | 213 | 226 | 225 | 225 | 238 | 259 | 260 | 265 | 276 |

[8] I roi cyd-destun i'r gwahaniaeth rhwng cymarebau/cyfraddau euogfarnu'r MoJ a'r CPS, mae'n ddefnyddiol cymharu ffigurau'r CPS â dadansoddiad yr MoJ yn 2013, a oedd yn asesu cyfran y diffynyddion a gafodd eu herlyn am droseddau trais rhywiol yn 2009 a gafodd euogfarn am unrhyw drosedd yn y pen draw rhwng 2009 a 2011. Roedd y dadansoddiad hwn yn dangos, o blith y rheini a gafodd eu herlyn am drais rhywiol yn y lle cyntaf, cafodd 59% euogfarn am unrhyw drosedd, yn cynnwys 33% a gafodd euogfarn am drais rhywiol. Roedd y gyfradd a gafodd euogfarn am unrhyw drosedd yn debycach i gyfraddau euogfarnu'r CPS yn 2008-09, 57.7%; 2009-10, sef 59.4%; a 2010-11, 58.6%.
[9] Mae'r ffigurau ar gyfer y diffynyddion hynny â rhyw hysbys wedi'u talgrynnu i 100%, sy'n nodi mai nifer isel iawn o ddiffynyddion benywaidd oedd.
[10] Y canolrif yw'r gwerth yng nghanol y dosbarthiad data; mae hanner yr amseroedd a gofnodwyd yn y cyfnod amser yn hirach na'r canolrif ac mae hanner yn fyrrach. Nid yw gwerthoedd eithafol yn cael llawer o effaith ar y canolrif ac mae'n well fel mesur o'r 'cyfartaledd' ar gyfer data sydd wedi'u hystumio'n sylweddol.
[11] Mae'r ffigurau yn y tabl hwn wedi cael eu diwygio i ymgorffori methodoleg newydd a gafodd ei rhoi ar waith yn 2016, ac felly nid ydynt yn cyfateb i fersiynau blaenorol cyn y flwyddyn hon. Mae'r fethodoleg newydd nawr yn cynnwys achosion sy'n cymryd mwy na 10 mlynedd o'r drosedd i'w cwblhau, a oedd yn cael eu heithrio o'r blaen.

# Rhestr o dermau

## Elfennau trais yn erbyn menywod a merched

**Mae pob adran yn dilyn trefn yr wyddor oni nodir fel arall.**

Cam-drin plant:

Unrhyw drosedd sy’n bodloni'r meini prawf a nodir yn y ddogfen Working Together to Safeguard Children ac yn cynnwys dioddefwr dan 18 oed.[1]

Mae cam-drin plant yn cynnwys troseddau corfforol, emosiynol a rhywiol yn erbyn plant, yn ogystal â’u hesgeuluso. Byddai achosion o’r fath fel arfer yn cynnwys, er enghraifft:

- ymosodiad gan riant lle nad yw cosb resymol yn amddiffyniad;
- troseddau rhywiol;
- lladdiadau plant;
- creulondeb yn erbyn plant, gan gynnwys esgeuluso;
- puteindra plant;
- aflonyddu;
- gadael plentyn;
- priodas dan orfod sy’n cynnwys unigolyn dan 18 oed;
- pornograffi plant;
- masnachu plant;
- herwgydiad teuluol;
- cam-drin plant yn y gorffennol lle mae’r dioddefwr yn oedolyn erbyn hyn.

Achosion na fyddai wedi’u cynnwys fel arfer:

- troseddau moduro lle mae plentyn wedi cael ei anafu neu ei ladd;
- esgeuluster meddygol;
- troseddau eiddo.

Cam-drin domestig:

O fis Ebrill 2013 ymlaen:
unrhyw achos, neu batrwm o achosion, o ymddygiad sy’n rheoli, yn gorfodi neu’n bygwth, trais neu gamdriniaeth rhwng pobl 16 oed neu hŷn a phobl sy’n bartneriaid agos neu’n aelodau o’r teulu, neu sydd wedi bod – waeth beth fo’u rhyw neu eu cyfeiriadedd rhywiol. Gall hyn gynnwys, ond nid yw’n gyfyngedig i’r mathau canlynol o gam-drin: seicolegol; corfforol; rhywiol; ariannol; emosiynol.

[1] Llywodraeth EM, *Working Together to Safeguard Children*: *A guide to interagency working to safeguard and promote the welfare of children* (2018)

*Mae ymddygiad sy’n rheoli yn golygu: amrywiaeth o weithredoedd sydd â’r bwriad o wneud person yn ddarostyngol a/neu’n ddibynnol drwy ei wahanu oddi wrth ffynonellau cymorth, manteisio ar ei hadnoddau a’i alluoedd er budd personol, ei amddifadu o’r pethau sydd eu hangen arno i fod yn annibynnol, i allu gwrthwynebu neu ddianc, a rheoli ei ymddygiad beunyddiol.*

*Mae ymddygiad sy’n gorfodi yn golygu: gweithred neu batrwm o weithrediadau sy’n cynnwys ymosod, bygwth, codi cywilydd neu frawychu, neu gamdriniaeth arall sy’n cael ei defnyddio i niweidio, cosbi neu godi ofn ar y dioddefwr.*

*Mae aelodau o'r teulu’n cael eu diffinio fel mam, tad, mab, merch, brawd, chwaer a theidiau a neiniau a hynny os ydynt yn perthyn yn uniongyrchol, yn berthnasau-yng-nghyfraith neu’n llysdeulu. Ond nid rhestr hollgynhwysfawr yw hon a gellir ymestyn y diffiniad i ewythrod, modrybedd, cefndryd ac ati.*

*Mae’r diffiniad hwn, sydd ddim yn ddiffiniad cyfreithiol, yn cynnwys yr hyn a elwir yn drais ‘ar sail anrhydedd’, anffurfio organau cenhedlu benywod a phriodas dan orfod, ac mae’n amlwg nad yw’r dioddefwyr wedi’u cyfyngu i un rhyw neu grŵp ethnig.*

Rydym yn cymhwyso’r fflag cam-drin domestig i bob achos, waeth beth fo oedran yr achwynydd neu'r sawl sydd dan amheuaeth.

Anffurfio organau cenhedlu benywod: Mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn derm torfol ar gyfer amrywiaeth o weithrediadau sy’n cynnwys tynnu organau cenhedlu allanol benywod yn llwyr neu’n rhannol am resymau nad ydynt yn rhai meddygol.

Mae anffurfio organau cenhedlu benywod wedi cael ei ddosbarthu gan Sefydliad Iechyd y Byd yn bedwar prif fath. Gallai pob un ohonynt fod yn berthnasol i'r troseddau sy’n codi dan Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003.

Priodas dan orfod: Diffiniad priodas dan orfod yw: “Priodas heb gydsyniad un neu’r ddau barti a lle mae gorfodaeth yn ffactor”. Diffiniad gorfodaeth yw: “a yw meddwl y ceisydd wedi cael ei lorio, sut bynnag yr achoswyd hynny”. Os yw priodas dan orfod yn digwydd o fewn y teulu a/neu’n cynnwys cam-drin plant, a/neu droseddwr ifanc, rhaid cymhwyso pob fflag briodol.

Dylid cymhwyso’r fflag i unrhyw achos:

- Lle mae troseddau dan a.121 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 yn cael eu hystyried mewn penderfyniad cyn cyhuddo neu’n cael eu cyhuddo;
- Lle mae Gorchymyn Amddiffyn rhag Priodas dan Orfod dan a.120 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (a.63CA Deddf Cyfraith Teulu 1996) yn cael ei thorri.

Dylid cymhwyso’r fflag ar gychwyn yr achos a bydd yn aros yn ei lle hyd yn oed os yw'r cyhuddiadau hynny’n cael eu diwygio neu eu gollwng yn nes ymlaen. Os bydd achos yn cychwyn dan drosedd wahanol ond yn cael ei newid i gyhuddiad o briodas dan orfod, dylid fflagio'r achos ar y pwynt hwnnw.

Ar ben hynny, dylid cymhwyso’r fflag os oes unrhyw drosedd o ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth (seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol) wedi digwydd yng nghyd-destun priodas dan orfod naill ai:

- i orfodi parti/partïon i briodi heb eu cydsyniad, a fyddai’n cael ei herlyn dan y drosedd benodol a gyflawnwyd, e.e. aflonyddu, herwgipio, bygythiadau i ladd; *neu*
- ar ôl priodas dan orfod heb gydsyniad un neu'r ddau barti a lle mae gorfodaeth yn ffactor, a fyddai’n cael ei herlyn dan y drosedd benodol, e.e. trais rhywiol, ymosodiad rhywiol

Yr hyn a elwir yn drais ‘ar sail anrhydedd’:

Unrhyw drosedd sy’n cynnwys trais, bygythiadau o drais, brawychu, gorfodi neu gam-drin (gan gynnwys camdriniaeth seicolegol, gorfforol, rywiol, ariannol neu emosiynol) sydd wedi’i chyflawni neu wedi cael ei chyflawni efallai i warchod neu i amddiffyn ‘anrhydedd’ unigolyn, teulu a/neu gymuned am achosion honedig neu ganfyddedig o dorri cod ymddygiad y teulu a/neu’r gymuned.
Byddai’r achosion hyn yn cael eu fflagio fel yr hyn a elwir yn drais ‘ar sail anrhydedd’. Byddai achosion yn cael eu herlyn am y drosedd benodol a gyflawnwyd, e.e. ymosodiad cyffredin, niwed corfforol difrifol, aflonyddu, herwgipio, trais rhywiol, bygythiadau i ladd, llofruddiaeth.

Arferion niweidiol: Arferion niweidiol yw mathau o drais sy’n cael eu cyflawni yn erbyn menywod a merched yn bennaf, mewn cymunedau a chymdeithasau penodol, heb eu ‘cydsyniad’, gyda'r bwriad o gadw merched dan ymostyngiad, yn erbyn normau eu cymunedau. Yn yr un modd â phob math o drais

yn erbyn menywod a merched, mae arferion traddodiadol niweidiol yn torri hawliau dynol.

Caethwasiaeth fodern/Masnachu pobl: Mae'r fflag ar gyfer caethwasiaeth fodern/masnachu pobl yn cael ei chymhwyso i'r canlynol:

- Troseddau sy'n cael eu fflagio fel Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (a.57, 58, 59 a 59A),
- Deddf Lloches a Mewnfudo [Trin Hawlwyr] 2004 a. 4(1), (2) a (3);
- Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 a.71
- Deddf Caethwasiaeth Fodern a.1, a.2 ac a.4

Mae'r fflag yn cael ei chymhwyso ar gychwyn yr achos a bydd yn aros yn ei lle hyd yn oed os yw'r cyhuddiadau hynny'n cael eu diwygio neu eu gollwng yn nes ymlaen. Os bydd achos yn cychwyn dan drosedd wahanol ond yn cael ei newid i gyhuddiad o fasnachu, dylid fflagio'r achos ar y pwynt hwnnw.

O fis Ebrill 2013 ymlaen:
Cafodd a.57, 58 a 59 Deddf Troseddau Rhywiol 2003 eu disodli gan a.59A y Ddeddf Troseddau Rhywiol;
Cafodd a.4(1), (2) a (3) Deddf Lloches a Mewnfudo [Trin Hawlwyr] 2004 eu diddymu a'u disodli gan a.4(1A) (1B) (1C) A ac IA.

Trais rhywiol: Unrhyw ddiffynnydd sy'n cael ei gyhuddo o un neu fwy o'r troseddau canlynol:

- a.1 Deddf Troseddau Rhywiol 1956
- a.5 Deddf Troseddau Rhywiol 1956
  Ymgais i gyflawni un o'r troseddau uchod dan Ddeddf Ymgeisiau Troseddol 1981
- a.1 Deddf Troseddau Rhywiol 2003
- a.5 Deddf Troseddau Rhywiol 2003
- a.30(3) Deddf Troseddau Rhywiol 2003
  Ymgais i gyflawni un o'r troseddau uchod dan Ddeddf Ymgeisiau Troseddol 1981

Ysgogi neu gynllwyn i gyflawni unrhyw un o'r troseddau uchod

Troseddau rhywiol ac eithrio trais: Unrhyw ddiffynnydd y mae categori ei brif drosedd, adeg terfynu, yn drosedd rywiol ac eithrio trais rhywiol.

## Telerau rheoli perfformiad

Fflagiau monitro: Mae mathau o achosion sensitif yn cael eu nodi gan ddefnyddio nifer o fflagiau monitro sy'n cael eu cymhwyso i achosion perthnasol yn y cyfnod cyn cyhuddo. Mae'r

fflagiau'n caniatáu i reolwyr fonitro achos yn ystod oes yr erlyniad ac yn galluogi'r gwaith o adrodd ar ganlyniadau ar ôl i'r achos ddod i ben. Mae'r data ddim ond yn gywir i'r graddau mae'r fflag wedi'i chymhwyso'n gywir; efallai fod nifer isel o achosion lle mae'r defnydd o'r fflag wedi cael ei hepgor.

Prif droseddau: Categori'r brif drosedd: caiff un o blith deuddeg categori trosedd ei neilltuo i droseddau sy'n cael eu cyhuddo er mwyn nodi math a difrifoldeb y cyhuddiadau sy'n cael eu dwyn yn erbyn y diffynnydd. Mae Categori'r Brif Drosedd yn nodi'r drosedd fwyaf difrifol y cyhuddir y diffynnydd ohoni **ar adeg terfynu**. Os bydd natur y cyhuddiadau'n newid yn ystod oes achos, efallai y bydd y Brif Drosedd ar adeg terfynu'n wahanol nag y byddai wedi ymddangos yn briodol ar adeg gynharach o'r achos. Mewn pob achos o'r fath, y categori prif drosedd i'w chofnodi yw'r un sy'n berthnasol **adeg terfynu**, heb ystyried a yw hyn yn fwy neu'n llai difrifol nag y byddai wedi bod yn berthnasol yn gynharach yn oes yr achos.

Os yw diffynnydd yn wynebu cymysgedd o gyhuddiadau sy'n perthyn i wahanol Gategorïau'r Brif Drosedd, dewiswch yr un mwyaf difrifol **yn ôl y drefn flaenoriaeth ganlynol**:

Lladdiad: Mae 'lladdiad' yn cynnwys amrywiaeth o droseddau gan gynnwys – llofruddiaeth ac ymgais i lofruddio, dynladdiad, babanladdiad, difa plentyn, cynllwynio neu gymell i lofruddio ac achosi marwolaeth trwy yrru'n beryglus.

Troseddau yn erbyn y person: Mae 'troseddau yn erbyn y person' yn cynnwys amrywiaeth o droseddau gan gynnwys – niwed corfforol difrifol, ymosodiad gan achosi gwir niwed corfforol, ymosodiad, bod ym meddiant arf tanio gyda'r bwriad o beri ofn o drais, a herwgydio plentyn.

Troseddau rhywiol: Mae 'troseddau rhywiol' yn cynnwys amrywiaeth o droseddau gan gynnwys – trais rhywiol, sodomiaeth, ymosodiad rhywiol, bigami, caffael puteiniaid ac anwedduster difrifol gyda phlentyn.

Difrod troseddol: Mae 'difrod troseddol' yn cynnwys troseddau llosgi bwriadol, difrod troseddol neu faleisus, a llosgi bwriadol neu ddifrod troseddol sy'n peryglu bywyd.

Troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus: Mae 'troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus' yn cynnwys troseddau creu terfysg, anrhefn ffyrnig ac achosi affráe.

## Canlyniadau'r achos

| | |
|---|---|
| Derbyniadau cyn cyhuddo | Cyfanswm y rhai dan amheuaeth a gyfeiriwyd gan yr heddlu at y CPS am benderfyniad ynghylch cyhuddo. |
| Penderfyniadau cyn cyhuddo: | Mae Canllawiau'r Cyfarwyddwr ar gyhuddo (5ed Argraffiad) yn darparu y gall yr heddlu gyhuddo unrhyw drosedd diannod yn unig (un y gall y llys ynadon ymdrin â hi'n unig) waeth beth fydd y ble, ac unrhyw drosedd neillog (sy'n gallu cael ei chyflwyno yn y llys ynadon neu Lys y Goron) os rhagwelir ple euog a'i bod yn addas ar gyfer dedfrydu yn y llys ynadon yn dibynnu ar eithriadau penodol fel cam-drin domestig, trosedd casineb ac achos yn ymwneud â marwolaeth. Rhaid i erlynwyr y CPS wneud penderfyniadau ynghylch cyhuddo ym mhob achosion ditiadwy yn unig (yr achosion hynny sydd ond yn gallu mynd gerbron Llys y Goron). Nid yw troseddau neillog yn addas ar gyfer y llys ynadon a lle nad oes ple euog wedi'i rhagweld.<br><br>O blith yr holl unigolion dan amheuaeth a gyfeirir gan yr heddlu, penderfyniadau cyn cyhuddo yw'r rhai lle mae'r CPS wedi cwblhau gwneud penderfyniad ynghylch cyhuddo neu beidio, yn cymryd dim camau pellach, yn argymell delio ag achos y tu allan i'r llys, terfynu'r mater yn weinyddol neu 'arall'[2].<br><br>***Penderfyniadau cyfreithiol cyn cyhuddo*** yn cynnwys: cyhuddo, cymryd dim camau pellach neu argymell penderfyniad y tu allan i'r llys.<br><br>***Penderfyniadau cyn cyhuddo heb fod yn rhai cyfreithiol*** yn cynnwys: rhai a derfynir yn weinyddol ac 'arall'. |
| Cyhuddo: | Gwneir penderfyniadau i gyhuddo pan fo'r CPS yn fodlon bod y prawf cyfreithiol ar gyfer erlyn, a nodir yng Nghod Erlynwyr y Goron, wedi'i gyflawni: mae digon o dystiolaeth i ddarparu 'gobaith realistig o sicrhau euogfarn' yn erbyn pob diffynnydd a bod yr erlyniad er budd y cyhoedd. |
| Dim erlyniad (Dim camau pellach): | Yr achosion hynny lle mae'r CPS yn penderfynu na ddylid erlyn. Ni all yr achos symud ymlaen i gyhuddiad gan nad yw'n cwrdd â phrawf Cod Erlynwyr y Goron, am resymau tystiolaeth neu fudd y cyhoedd. |
| Delio ag achos y tu allan i'r llys: | Os oes rhybuddiad, rhybuddiad amodol, cerydd neu rybudd terfynol wedi'i roi neu os yw'r drosedd wedi'i hystyried mewn perthynas â chyhuddiadau eraill. |

[2] Mae 'Arall' yn golygu nad yw canlyniad y penderfyniad ynghylch cyhuddo yn hysbys, neu nad yw wedi ei roi ar gyfer yr unigolyn hwnnw sydd dan amheuaeth.

Terfynu Gweinyddol Cyn-cyhuddo: Nid yw penderfyniadau a derfynir yn weinyddol yn benderfyniadau cyfreithiol ac efallai nad dyna fydd diwedd yr achos. Gall CPS ofyn i'r heddlu ddarparu gwybodaeth bellach lle nad oes tystiolaeth ddigonol i wneud penderfyniad ynghylch cyhuddo, neu fod yr heddlu'n gwneud cais am gyngor ymchwiliol cynnar. Os na fydd yr heddlu'n ymateb o fewn tri mis, yn dilyn cael eu hatgoffa, bydd yr achos yn cael ei gau ar CMS. Gelwir hyn yn 'derfynu gweinyddol'.
Os bydd yr heddlu'n darparu tystiolaeth ychwanegol, caiff yr achos ei ailagor yn CMS ac, os yn bosibl, gwneir penderfyniad ynghylch cyhuddo.
Bydd achosion lle mae'r CPS wedi cynghori'r heddlu i gyhuddo ond nad yw'r sawl dan amheuaeth wedi cael ei gyhuddo, oherwydd nad yw'n ateb mechnïaeth yr heddlu neu nad oes modd dod o hyd iddo, hefyd yn cael eu terfynu'n weinyddol. Os, yn ddiweddarach, y deuir o hyd i'r sawl sydd dan amheuaeth a'i gyhuddo, caiff yr achos ei ailagor yn CMS.

Arall: Nid yw canlyniad y penderfyniad ynghylch cyhuddo wedi cael ei gofnodi neu mae'n amhendant.

Erlyniadau: Pob diffynnydd sydd wedi cael ei gyhuddo, ei wysio neu ei wysio drwy'r post, lle mae ei achos wedi'i gwblhau yn y llys ynadon neu yn Llys y Goron yn ystod y cyfnod, gan gynnwys y rheini sy'n symud ymlaen i dreial neu ble euog, y rheini sy'n cael eu dirwyn i ben a'r rheini nad oedd modd bwrw ymlaen â nhw.

Herio yn cynnwys pledion cymysg Euog/Dieuog Cymysg a Herio:
(a) Mae'r Diffynnydd yn cyflwyno o leiaf un ble euog i set o gyhuddiadau, a
(b) ple dieuog i un neu ragor o gyhuddiadau, a
(c) nid yw'r CPS yn derbyn y pledion hyn, a
(d) mae'r mater yn symud ymlaen i dreial

Herio heb gynnwys pledion cymysg Dieuog a Herio:
(a) Dim ond pledion dieuog mae'r Diffynnydd yn eu cyflwyno, A
(b) bydd treial yn cael ei gynnal

Dim euogfarnau: Pob erlyniad sydd wedi'i gwblhau lle nad yw'r diffynnydd yn cael euogfarn, yn cynnwys y canlynol:

Terfynu gweinyddol ar ôl cyhuddo: Lle na all erlyniad fynd rhagddo oherwydd bod diffynnydd wedi methu ag ymddangos yn y llys a bod warant wedi'i chyhoeddi gan y fainc i'w arestio ef/hi; neu fod y diffynnydd wedi marw neu wedi cael ei ganfod yn anffit i bledio; neu lle mae'r achos wedi ei ohirio am gyfnod amhenodol. Os caiff Warant gan y Fainc ei gweithredu, gellir ailagor yr achos.

Wedi dirwyn i ben ac wedi'u tynnu'n ôl: Wrth ystyried y dystiolaeth a budd y cyhoedd, gall hyn arwain y CPS i ddirwyn achosion i ben unrhyw bryd cyn i'r treial gychwyn. Mae achosion sy'n cael eu dirwyn i ben yn ffurfiol cyn y gwrandawiad yn cael eu cynnwys yma, y rheini lle nad oes tystiolaeth wedi'i chynnig, a'r rheini sydd wedi'u tynnu'n ôl yn y llys. Mae achosion lle mae'r diffynnydd wedi'i rwymo i gadw'r heddwch yn cael eu cynnwys yma hefyd.

Gwrthod ar ôl treial llawn: Achosion lle mae'r diffynnydd yn pledio'n ddieuog ac mae'r achos yn cael ei wrthod gan yr ynadon ar ôl gwrando achos yr amddiffyniad.

Rhyddfarn o dan gyfarwyddyd barnwr: Achosion lle mae 'dim achos' neu 'ddim yn ddiogel' yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus ar ran y diffynnydd, ar ddiwedd achos yr erlyniad yn erbyn y diffynnydd, ac mae'r barnwr yn rhoi rhyddfarn yn hytrach na chaniatáu i'r rheithgor benderfynu ar yr achos.

Rhyddfarn gan y rheithgor: Pan fydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog ac, ar ôl treial, yn cael ei ryddfarnu gan y rheithgor.

Dim achos i'w ateb: Achosion lle mae'r diffynnydd yn pledio'n ddieuog ac mae tystiolaeth yr erlyniad yn cael ei glywed, ond mae'r achos yn cael ei wrthod gan yr ynadon heb wrando achos y diffynnydd.

Euogfarnau: Achosion lle mae'r diffynnydd yn cael euogfarn ar ôl ei erlyn, yn cynnwys y canlynol:

Euogfarn ar ôl treial: Achosion lle mae'r diffynnydd yn pledio'n ddieuog, ond yn cael euogfarn ar ôl i'r dystiolaeth gael ei chlywed.

Ple euog: Lle mae'r diffynnydd yn pledio'n euog.

Prawf yn absenoldeb: ceir troseddau llai sy'n cael eu gwrando gan y llys yn absenoldeb y diffynnydd.

## Rhesymau dros ganlyniadau nad oeddent yn euogfarnau

Rhyddfarnau ar ôl treial: Mae'r ynadon neu'r rheithgor yn cael y diffynnydd yn ddieuog ar ôl gwrandawiad a gafodd ei herio lle mae'r diffynnydd yn cael ei alw i gyflwyno ei achos. (Nid yw achosion wedi'u gwrthod, dim achos i'w ateb neu'r barnwr yn cyfarwyddo rhyddfarnau ddim yn cael eu cynnwys).

Materion yn ymwneud â'r achwynydd: Yn ystod 2018-19, aeth y CPS ati i adolygu'r rhestr o'r rhesymau sy'n berthnasol i ganlyniadau nad oeddent yn

euogfarnau.  O ganlyniad, nid yw'n bosib dim mwy i adrodd ar wahân fod achwynydd wedi tynnu geiriau'n ôl neu fod achos wedi'i dynnu'n ôl a diffyg presenoldeb.  Ond mae'n dal yn bosib adrodd am gyfanswm y canlyniadau nad ydynt yn euogfarn a ddaw yn sgil materion yn ymwneud â'r achwynydd.

Dylid defnyddio'r rheswm pan fydd tystiolaeth yr achwynydd yn cefnogi achos yr erlyniad, ond bod un neu bob un o'r canlynol yn berthnasol:

- mae'r achwynydd yn methu â mynychu, neu
- mae'n gwrthod cael ei alw, neu
- mae'n rhoi tystiolaeth fel tyst, neu
- mae'n tynnu cwyn yn ôl, ac
- mae'n cynnwys achwynwyr sydd wedi cael eu bygwth ond mae'n amhriodol eu gorfodi i ddod i'r llys.

*a*

Os yw tystiolaeth yr achwynydd yn methu cefnogi proses erlyn y diffynnydd gan gynnwys materion yn ymwneud â hygrededd sy'n arwain ar ganlyniad heb fod yn euogfarn, ond nid yw'r achwynydd wedi tynnu ei eiriau'n ôl.

Tystiolaeth yn gwrthdaro: Gwrthdaro gyda thystiolaeth yr erlyniad (o fis Ebrill 2013 ymlaen cafodd y canllawiau eu diwygio i esbonio na ddylid defnyddio'r rheswm hwn os yw'r dioddefwr yn tynnu'n ôl, ddim yn mynychu neu os nad yw ei dystiolaeth yn rhoi'r prawf sydd ei angen).

Elfen Gyfreithiol Hanfodol ar Goll: Elfen gyfreithiol hanfodol ar goll (cafodd 'teitl y rheswm' ei newid ym mis Ebrill 2013 i 'Penderfyniad anghywir ynghylch cyhuddo – elfen gyfreithiol ar goll'; roedd y canllawiau a ddiweddarwyd yn nodi'n glir na ddylid defnyddio'r rheswm hwn os bydd y dioddefwr yn tynnu'n ôl, ddim yn mynychu neu os nad yw ei dystiolaeth yn rhoi'r prawf sydd ei angen).

Tyst annibynadwy: Tyst neu dystion annibynadwy (Cafodd 'teitl y rheswm' ei newid ym mis Ebrill 2013 i: 'Prif dyst (ddim yn ddioddefwr) yn gwrthod rhoi tystiolaeth/yn tynnu geiriau nôl/ tystiolaeth ddim yn rhoi'r prawf sydd ei angen' i egluro hyn yn well).

## Terminoleg gyfreithiol

Achlust: Adran 116 (1) Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Mewn achos troseddol, mae datganiad na chafodd ei wneud mewn tystiolaeth lafar yn yr achos yn dderbyniol fel tystiolaeth o unrhyw fater a nodwyd os:

(a) yw'r dystiolaeth lafar, a roddwyd yn yr achos gan y person a wnaeth y datganiad, yn dderbyniol fel tystiolaeth

o’r mater hwnnw,
(b) yw’r person a wnaeth y datganiad (y person perthnasol) yn cael ei adnabod ac yn bodloni’r llys, ac
(c) yw unrhyw un o’r pum amod a nodwyd yn isadran (2) yn cael eu bodloni.

Gwŷs drwy’r post: Dogfen gyfreithiol yw gwŷs drwy’r post sy’n rhoi gwybod i’r un dan amheuaeth bod penderfyniad wedi’i wneud i gyhuddo ac erlyn am drosedd mewn llys. Bydd yn gosod y dyddiad y mae’n rhaid i’r un dan amheuaeth ddod i’r llys. Yn ogystal â’r wŷs drwy’r post, mae’n bosib hefyd y bydd yr un dan amheuaeth yn cael tystiolaeth sy’n amlinellu’r drosedd naill ar ffurf datganiadau neu ddatganiad ffeithiau.

Res gestae: Unrhyw reol gyfreithiol sy’n nodi bod datganiad yn dderbyniol, mewn achos troseddol, fel tystiolaeth o unrhyw fater a nodwyd os:

(a) yw’r datganiad wedi'i wneud gan berson sydd wedi'i lethu’n emosiynol gan ddigwyddiad fel bo modd diystyru’r posibilrwydd o ffugio neu ystumio,
(b) oedd y datganiad wedi'i wneud ochr yn ochr â gweithred y gellir ei gwerthuso’n briodol fel tystiolaeth dim ond os yw’n cael ei hystyried ar y cyd â’r datganiad, neu
(c) os yw’r datganiad yn ymwneud â chynnwrf corfforol neu gyflwr meddyliol (fel bwriad neu emosiwn).

# Acronymau

| | |
|---|---|
| BAME | Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig |
| CJS | System Cyfiawnder Troseddol |
| CMS | System Rheoli Achosion |
| CPS | Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| CPSD | Crown Prosecution Service Direct |
| CSA | Cam-drin plant yn rhywiol |
| DPP | Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus |
| DA | Cam-drin domestig |
| ECG | Grŵp Ymgynghori Allanol |
| FM | Priodas dan orfod |
| FGM | Anffurfio organau cenhedlu benywod |
| HBA | Yr hyn a elwir yn gam-drin ‘ar sail anrhydedd’ |
| HMCPSI | Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi |
| HMICFRS | Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi a’r Gwasanaethau Tân ac Achub |
| HO | Y Swyddfa Gartref |
| IDVA | Cynghorydd Annibynnol ar Gam-drin Domestig |
| LSIP | Panel Cynnwys a Chraffu Lleol |
| MIS | System Gwybodaeth Reoli |
| MoJ | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| NCA | Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol |
| NPCC | Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu |
| NRM | Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol |
| PHA | Deddf Gwarchod rhag Aflonyddu |
| PPT (ppt) | Pwynt canran |
| RASSO | Trais Rhywiol a Throseddau Rhywiol Difrifol |
| SOA | Deddf Troseddau Rhywiol |
| SO | Troseddau Rhywiol |
| WCU | Uned Gofal Tystion |
| WMS | System Rheoli Tystion |
| VAWG | Trais yn erbyn Menywod a Merched |